Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.
This document is available in English

# CYNLLUN CREU LLEOEDD BWCLE



creu lleoedd SIRYFFLINT

Roberts Limbrick

chris jones


Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

Trawsnewid Trefi Transforming Towns

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei chreu ar ran:

Cyngor Sir y Fflint

creu lleoedd SIR Y FFLINT

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei chreu gan:


Chris Jones
Regeneration

15 Stryd Nevill
Y Fenni
Sir Fynwy
NP7 5AA

chris@chrisjones.studio
T: 01873 880666
M: 07968943084

Roberts Limbrick
Architects

1 Gold Tops
Casnewydd
NP20 4PG

mail@robertslimbrick.com

0333 405 500


chris jones

Roberts Limbrick


Rhif Prosiect: 11357
Cyhoeddwyd: Awst 2025
Fersiwn: v2



Hawlfraint
Ni ellir copïo nac atgynhyrchu cynnwys y ddogfen hon yn llawn na'n rhannol heb ganiatâd ysgrifenedig Cyngor Sir y Fflint.
Mae'r holl gynlluniau wedi cael eu hatgynhyrchu o'r Map Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi. Cedwir hawlfraint y Goron.

# CYNNWYS

**01: DIBEN**

Beth yw Diben Cynllun Creu Lleoedd? ...... 5

**02: PAM CYNLLUN?**

Beth yw Creu Lleoedd? ...................... 7

**03: EIN PROSES CREU LLEOEDD**

Ein Proses Creu Lleoedd .................... 10


**04: DEALL Y LLE**

Bwcle – Deall y Lle ................................ 12
Hanes Bwcle ........................................ 13
Tirwedd a Chefndir Polisi ....................... 15
Proffil Cymunedol ac Economaidd .............. 40
Cynnig Masnachol ac Eiddo Gwag .............. 42
Dadansoddiad o Ffryntiad Strydoedd .......... 47
Crynodeb o 'Give my View' ...................... 48
Y Lle – Cyd-destun a Chysylltiadau ............ 50
Y Lle – Asedau'r Gymuned ....................... 51
Pyrth i Ganol y Dref ............................. 52
Heriau a Chyfleoedd .............................. 54
Dadansoddiad SWOT LLE ......................... 56
Dadansoddiad SWOT POBL ........................ 58

**05: ADEILADU AR EI SYLFAEN**

Blaenoriaethau/Themâu sy'n dod i'r Amlwg .......... 61
Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion Strategol ....... 66
Cyfleoedd Lle a Phobl ................................ 68
Fframwaith Cyfleoedd – yr Ardal Ehangach.......... 70
Fframwaith Cyfleoedd – Canol y Dref ................ 71
Cyhoeddi a Chyrraedd Canol y Dref ................. 72
Bywiogi'r Parth Cyhoeddus.......................... 76
Ailadeiladu Cymeriad a Hunaniaeth Bwcle .......... 80
Gwyrddu Bwcle ........................................ 81
Rôl Cynhyrchwyr Gweithgarwch ..................... 82
Cymunedau Cysylltiedig............................... 84
Atebion Lleol ........................................... 85
Adeiladu Brand Bwcle ................................ 86
Gweithio mewn Partneriaeth.......................... 87
Gweledigaeth o Lwyddiant............................. 88
Ffyrdd o Weithio....................................... 94

# 01: DIBEN




## BETH YW DIBEN CYNLLUN CREU LLEOEDD?

Diben y Cynllun Creu Lleoedd hwn yw nodi'r anghenion, y weledigaeth, y dull a'r fframwaith cyfleoedd a fydd yn helpu cynllunio a chyflawni gweithgarwch a buddsoddiad seiliedig ar le ym Mwcle. Er ei fod yn canolbwyntio ar ganol y dref, mae'r Cynllun yn edrych hefyd ar y berthynas ehangach gyda'i gymdogaethau a'i drigolion. Mae Bwcle yn un o saith o drefi ledled y Sir sy'n cynnwys Cei Connah, y Fflint, Treffynnon, yr Wyddgrug, Queensferry a Shotton.

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn helpu i ddangos ac adnabod anghenion lleol, ac felly rhoi tystiolaeth i sefydliadau cyflawni strategol wrth gydgyfeirio gwasanaethau o ddydd i ddydd, yn ogystal â throsoli cyllid grant ar gyfer prosiectau adfywio yn y dyfodol. Mae hefyd yn nodi ffyrdd o weithio sy'n pontio partneriaethau strategol a lleol a fydd yn helpu meithrin datblygu a gweithredu prosiectau ar y cyd a chynaliadwyedd mwy hirdymor tref fel Bwcle.



# 02: PAM CYNLLUN?



## BETH YW CREU LLEOEDD?

Dywed Polisi Cynllunio Cymru fod creu lleoedd yn:

*"ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf.*

*Mae creu lleoedd yn ystyried y cyd-destun, swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle datblygiad a'i amgylchedd ehangach. Bydd hyn yn wir am ddatblygiadau mawr sy'n creu lleoedd newydd yn ogystal â datblygiadau bach sy'n cael eu creu o fewn lle ehangach.*

*Ni ddylai creu lleoedd ychwanegu cost ychwanegol at ddatblygiad, ond bydd yn gofyn am feddwl craff, aml-ddimensiwn ac arloesol i'w weithredu a dylid ei ystyried ar y cam cynharaf bosibl. Mae creu lleoedd yn ychwangu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at gynigion datblygu gan arwain at fuddion sy'n mynd y tu hwnt i ffin datblygiad ffiseol ac sy'n ymwreiddio gwydnwch ehangach mewn penderfyniadau cynllunio."*

Mae Canllawiau Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru 2020 yn trafod yr angen am ddull holistig sy'n ystyried lleoedd cyfan yn hytrach na defnydd o ddarnau penodol o dir neu bob datblygad ar ei ben ei hun. Cafodd y cysyniad o greu lleoedd ei ddatblygu mewn ymateb i deimlad o 'nunlle', o unffurfiaeth o fewn yr amgylchedd adeiledig lle mae datblygiad newydd yn brin o hunaniaeth a chymeriad penodol, teimlad o gymuned na chydberchnogaeth. Mae creu lleoedd wedi tyfu mewn pwysigrwydd wrth i'r cysylltiadau ag iechyd a llesiant gael eu harchwilio a'u deall yn fwy trylwyr.

### Sut mae Cynllun o Gymorth i Greu Lleoedd Da?

Er nad Cynllun Creu Lleoedd yw'r unig ateb i reoli newid a rhoi cyfeiriad i dref fel Bwcle, mae'n bwysig fframio dyheadau hirdymor a hefyd meithrin perthynas rhwng y lle, y bobl, a'r gweithgareddau. Y nod yma yw gwneud y cyfan yn rhywbeth mwy na chyfanswm ei rannau. Mae strategaeth a chynllun hirdymor hefyd yn sicrhau bod materion ymarferol wedi cael eu hystyried a bod cynllun y lle yn gallu cynnwys yr amrediad tebygol o'r dibenion gofynnol yn y pen draw. Mae Cynllun yn ymwneud hefyd â chreu lle ac nid dim ond â dyluniad gan ei fod yn ymwneud â chreu a datblygu profiad mae pobl yn teimlo'n gysurus ynddo a'u bod yn cael eu croesawu iddo.

Dylid datblygu gweithgareddau creu lleoedd hirdymor gan ymgynghori â'r gymuned gan mai hwy yw'r arbenigwyr lleol a all gynnig barn a dealltwriaeth werthfawr o hanes, diwylliant, a swyddogaeth yr ardal, neu unrhyw agwedd sy'n golygu rhywbeth i'r bobl.

### Y Gofynion


Ym mis Mai 2022, fe wnaeth Llywodraeth Cymru hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ledled Cymru ddatblygu Cynlluniau Creu Lleoedd yn unol â chwe egwyddor Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru https://dcfw.org/creulleoedd.

Mae disgwyl i Gynlluniau Creu Lleoedd fod yn rhai y gellir eu cyflawni ac iddynt cael eu hadolygu'n rheolaidd a chynnwys gweledigaeth a rennir ar gyfer pob canol tref trwy broses drylwyr o gyd-drafod ac ymgynghori ag amrywiaeth helaeth o randdeiliaid a fydd yn arwain at y canlynol:


Adnabod heriau mae pob lle yn eu profi gan gynnwys archwilio ystyriaethau ehangach megis trafnidiaeth, teithio llesol, seilwaith gwyrdd, tai ac iechyd.

- Dadansoddiad o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau i ganol y dref a'i berfformiad.
- Sefydlu data llinell sylfaen ar gyfer canol y dref.
- Adnabod ffin glir sy'n diffinio craidd canol y dref yn ogystal ac ymylon y dref.
- Cysoni â chynlluniau lleol a rhanbarthol, strategaethau, a blaenoriaethau eraill.
- Deall materion fel lefel darpariaeth manwerthu a'r potensial ar gyfer ailganolbwyntio at gynnig cryfach / addasu safleoedd canol y dref at ddibenion eraill lle bo'n addas.

Mewn ymateb i gais Llywodraeth Cymru am Gynlluniau Creu Lleoedd, mae Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint wedi datblygu a chytuno ar ddull o gydlynu datblygiad Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer 7 o drefi ar draws y Sir: Bwcle, Cei Connah, Y Fflint, Treffynnon, Yr Wyddgrug, Queensferry a Shotton. Mae amserlen wedi cael ei chytuno gyda Chabinet Cyngor Sir y Fflint i gyflawni'r gwaith ar gyfer 7 Cynllun Creu Lle mewn 3 cham ar wahân, gyda'r cyntaf yn canolbwyntio ar drefi Bwcle, Treffynnon a Shotton yn 2023-24. Rhwng mis Ionawr 2025 a mis Mawrth 2026, bydd Cynlluniau Creu Lleoedd yn cael eu datblygu ar gyfer trefi yn rhan dau y rhaglen waith (trefi Cei Connah a Queensferry) a rhan tri (trefi'r Fflint a'r Wyddgrug).





*Llun: Canllaw i Greu Lleoedd*




*Llun: Canllaw i Greu Lleoedd*

# 03: EIN PROSES CREU LLEOEDD



## EIN PROSES CREU LLEOEDD

Mae Proses Creu Lleoedd Sir y Fflint wedi mabwysiadu dull o fuddsoddi mewn gwaith desg sydd wedi casglu gwybodaeth gan amryw o arbenigwyr mewn masnach, eiddo, ansawdd amgylcheddol, dadansoddi economaidd-gymdeithasol a chyda pwyslais penodol ar seilwaith gwyrdd. Mae'r Cyngor Sir gyda phartneriaid lleol hefyd wedi arwain at ymgynghori â rhanddeiliaid ac â'r gymuned, gan ddefnyddio cyfuniad o gysylltu wyneb yn wyneb ac yn ddigidol er mwyn sicrhau cael nifer a thrawstoriad digonol o safbwyntiau.

Mae'r dull hwn o weithredu ar y cyd wrth ymchwilio i Bwcle fel lle wedi cael ei ddatblygu'n Gynllun Creu Lleoedd sydd wedi ymateb i anghenion y lle, gan arwain at ei ddadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT), themâu allweddol i'w hystyried wrth lunio gweledigaeth benodol i'r lle, set o nodau ac amcanion a fframwaith cyfleoedd. Mae'r fframwaith hwn yn rhoi cyfeiriad ar gyfer troi cyfleoedd yn weithredoedd law yn llaw â phartneriaid strategol a lleol yn ymrwymo i gydgyflawni a gweithio mewn partneriaeth.

### Cam 1

**Casglu Gwybodaeth a Data**

- Asesiad Masnachol
- Asesiad Ansawdd Amgylcheddol
- Adolygiad Economaidd-Gymdeithasol
- Archwiliad Seilwaith Gwyrdd

### Cam 2

**Gwrando ar Farn y Gymuned a Rhanddeiliaid**


- •Ymgynghori â'r Cyhoedd
- Ymgynghori â Rhanddeiliaid
- Ymchwil i Ganfyddiadau o Dreffynnon

### Cam 3

**Addasu Gweledigaeth, Blaenoriaethau a Fframwaith y Cynllun Creu Lleoedd**

- Adolygiad Polisi a Strategaeth
- Dadansoddi'r Lle
- Dadansoddi'r Bobl
- SWOT a Themâu
- Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion
- Fframwaith Cyfleoedd
- Gweledigaeth o Lwyddiant
- Ffyrdd o Weithio

# 04:
# DEALL Y LLE



## BWCLE – DEALL Y LLE


Mae Bwcle wedi'i leoli tuag at ffin ddwyreiniol Sir y Fflint, gerllaw'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae'n anheddiad cymharol hunan-gynwysedig gyda'r A494 a Gwibffordd Gogledd Cymru yn mynd heibio iddo. Mae'r gyffordd rhwng y ddwy dref hon i'r gogledd o'r dref.

Yn fwy lleol, mae'r dref yn sefyll ychydig i'r dwyrain o'r Wyddgrug ac ar ben deheuol Glannau Dyfrdwy. Mae'r A549 yn rhedeg drwy ganol y dref ac yn cysylltu ar y naill ben a'r llall i'r A494 (Ffordd Osgoi'r Wyddgrug) a Gwibffordd Gogledd Cymru. Mae hyn yn rhoi cysylltiadau ffyrdd rhagorol i'r dref ar gyfer gogledd-orllewin Lloegr a gogledd Cymru. Mae'r dref yn sefyll tua 10 milltir o Gaer a thua 25 milltir o Lerpwl, prif ganolfannau cyflogaeth, hamdden a gwasanaethau'r ardal.

Mae canol tref Bwcle yn sefyll yng nghanol y dref ac mae ganddo amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau i ddiwallu anghenion trigolion o ddydd i ddydd. Ardal breswyl yn bennaf yw rhan ddeheuol y dref lle bo gan y rhan ogledd fwy o gymysgedd o ddibenion. Mae tiroedd comin a pharciau yn rhannu'r ardaloedd presennol ac maent yn gymysg â dibenion hamdden, ysgolion, a chyflogaeth.



# HANES BWCLE




***"Tref yn nwyrain Sir y Fflint yw Bwcle, ar y gadwyn o fynyddoedd rhwng dyffryn Afon Alyn a'r gwastadedd cul ger Aber Dyfrdwy. Bu pobl yn byw yn yr ardal ers yr Oes Efydd. Rhoddwyd Bwcle yn anrheg i Gatrin o Valois fel anrheg priodas gan ei gŵr, Harri V, brenin Lloegr. Tyfodd y dref yn ystod y chwyldro diwydiannol oherwydd datblygiadau'r diwydiant crochenwaith, glo a briciau. Allforiwyd briciau Bwcle o gwmpas y byd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, ac maent i'w gweld hyd heddiw mewn adeiladau yn Efrog Newydd a Shanghai."***

Bwcle fel y'i disgrifir yn Deall Lleoedd Cymru

### *Datblygiad Hanesyddol, Treftadaeth a Diwylliant*

Daeth y dref i amlygrwydd yn ystod yr 19eg ganrif a'r Chwyldro Diwydiannol yn sgil mwyngloddio glo a chlai a diwydiannau cysylltiedig. Tua'r adeg hon y tyfodd Bwcle ac yr ymsefydlodd ei brif boblogaeth, gyda phobl yn symud yma o Iwerddon a Lerpwl gerllaw. Dengys map hanesyddol o 1898 y gellir adnabod yr A549 (fel y'i gelwir nawr), y stryd fawr a'r Precinct Way heddiw.

Mae gan Bwcle hanes a threftadaeth falch. Mae'r llyfrgell leol, ac ynddi amgueddfa hanes lleol ar ei llawr uchaf sy'n cynnwys ychydig o fyrddau dehongli yn amlinellu hanes y dref, i'w gweld ychydig y tu allan i fynedfa Canolfan Siopa Bwcle.

Mae adeilad Cyngor Tref Bwcle ac adeilad yr Hen Lyfrgell sy'n gysylltiedig ag ef yn enghreifftiau cain a rhagorol o bensaernïaeth ddinesig Victoriaidd. Maent wedi eu lleoli o fewn estyniad y stryd fawr ond nid ydynt o fewn y parth sydd wedi ei led neilltuo i gerddwyr ac felly maent yn teimlo fel pe baent wedi eu datgysylltu oddi wrth barth cyhoeddus y stryd fawr. Eglwys Sant Mathew Bwcle yw'r eglwys blwyf hynaf a gysegrwyd yn 1822, ac mae wedi'i lleoli i'r gogledd-ddwyrain o'r dref a gerllaw'r Comin prif faes parcio Bwcle. Mae'r Eglwys yn adeilad rhestredig Graddfa II*.

## HANES BWCLE

Mae'r Tivoli yn dirnod allweddol yn nhreftadaeth ddiwylliannol y dref, fel clwb nos sydd wedi croesawu ac sy'n dal i groesawu llawer o fandiau poblogaidd i gigs a chyngherddau. Mae'r adeilad yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 20fed ganrif ac arferai fod yn sinema a neuadd gerdd. Cafodd ei adnewyddu yn 2000, ac mae ei ffasâd allanol bellach yn dangos arwyddion o draul. Mae'n dal i ddenu cynulleidfaoedd o drefi a dinasoedd mwy fel Caer, Wrecsam, Manceinion a Lerpwl.


Mae'r adeiladau a grybwyllir uchod yn rhan o nifer adeiladau rhestredig yn Bwcle. Mae'r rhestr yn cynnwys:

- Mae Swyddfeydd Cyngor Tref Bwcle a'r Llyfrgell (â'i ffasâd yn rhestredig Gradd II) yng nghanol Bwcle
- Eglwys Sant Mathew (Rhestredig Gradd II), wedi ei lleoli yng ngogledd-ddwyrain Bwcle
- Porth Lynch i Eglwys Sant Mathew (Rhestredig Gradd II)
- Eglwys Emaniwel (Rhestredig Gradd II), a saif i'r dwyrain o'r stryd fawr yng nghanol y dref
- Y Tivoli (Rhestredig Gradd II), sydd wedi'i leoli i'r gorllewin o'r stryd fawr yng nghanol y dref
- Hawkesbury Hall (Rhestredig Gradd II), i'r de o'r Comin, ger Mill Lane

Mae'n werth nodi hefyd fod Band Brenhinol Tref Bwcle, a sefydlwyd yn 1822, yn rhan bwysig o hunaniaeth y dref. Mae'r Band wedi ennill llawer o wobrau yn lleol ac yn genedlaethol.







# TIRWEDD A CHEFNDIR POLISI

## CENEDLAETHOL

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Polisi Cynllunio Cymru 2024

Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2008

Teithio Llesol Cymru 2013

Dyfodol Cymru – y Cynllun Cenedlaethol 2040

Canllaw Creu Lleoedd 2020

Canol Trefi: Datganiad Sefyllfa 2023

## RHANBARTHOL

Gweledigaeth Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Cynllun Adfywio Gogledd Cymru 2018-2035

Strategaeth a Chynllun Pobl: Mewn Undod mae Nerth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Actif Gogledd Cymru: Strategaeth 10 Mlynedd 2023-2033

## LLEOL

Cynllun y Cyngor 2022-23

Cynllun Llesiant 2022-23

Strategaeth Newid Hinsawdd 2022-30

Cefnogi Natur yn Sir y Fflint 2016

Strategaeth a Chynllun Gweithredu Tai Sir y Fflint 2019-24

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030

Diweddariad Astudiaeth Gwmpasu Dichonoldeb Hen Faddonau Bwcle

Strategaeth Fuddsoddi Bwlce, 2017

Papur Trafod Canol Tref Bwcle, 2015

Uwchgynllun Canol Tref Bwcle, 2011

Mae cefndir polisi lle fel Treffynnon yn bwysig gan ei fod yn dangos y berthynas ag agendâu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan roi cyfeiriad a chysondeb strategol. Mae hefyd yn dangos cyfleoedd a chyfyngiadau strategol lle a'i ddatblygiad.

## CENEDLAETHOL

### *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)*

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy.

Nid yw hyn yn gysyniad newydd i'r system gynllunio gan fod egwyddorion datblygu cynaliadwy wedi bod yn rhan greiddiol o bolisi cynllunio ers i Bolisi Cynllunio Cymru gael ei gyhoeddi gyntaf yn 2002. Fodd bynnag, mae'r cysyniad wedi cael ei ehangu o dan y Ddeddf Llesiant ac mae'n gofyn am welliant yn y ffordd y gweithredir pob un o bedair agwedd llesiant, sef yr agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.


Mae'r Ddeddf Llesiant wedi sefydlu saith nod llesiant a'u bwriad yw llywio gwaith pob corff cyhoeddus yng Nghymru.

Er mwyn dangos bod ystyriaeth addas wedi ei rhoi i'r nodau llesiant ac egwyddor datblygu cynaliadwy yn y broses o wneud penderfyniadau, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw i'r 'pum ffordd o weithio' yn y Ddeddf Llesiant. Mae'r rhain yn gofyn am ystyried: cynnwys; cydweithio; integreiddio; atal; a ffactorau hirdymor.

### *Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 – Chwefror 2024*

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Mae'n cael ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs), Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru, a llythyrau eglurhad polisi, sydd, ynghyd â Pholisi Cynllunio Cymru yn darparu'r fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer Cymru. Prif amcan Polisi Cynllunio Cymru yw sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol eraill a dyletswyddau canlyniadol fel y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Rhaid i bawb sy'n ymwneud â'r system gynllunio yng Nghymru neu'n gweithredu ynddi ymdrin â'r cysyniad o greu lleoedd mewn penderfyniadau cynllunio a rheoli datblygu er mwyn sicrhau creu lleoedd cynaliadwy a gwella llesiant cymunedau. Lleoedd Cynaliadwy yw nod y system gynllunio defnydd tir yng Nghymru; maent yn ganlyniad y system gynllunio yn hytrach na'r broses o'u cyflawni. Dylai pob penderfyniad datblygu, boed drwy gynlluniau datblygu, dewisiadau polisi neu benderfyniadau




rheoli datblygu unigol geisio cyfrannu tuag at wneud lleoedd cynaliadwy a gwella llesiant. Dylai'r system gynllunio greu lleoedd cynaliadwy sy'n ddeniadol, cymdeithasol, hygyrch, gweithredol, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar. Gall lleoedd unigol fod ar sawl ffurf, a bydd dehongli'r hyn sy'n gwneud lle da yn amrywio. Bydd gan bob lle ei nodweddion, ei hanes a'i hunaniaeth unigryw ei hun, yn seiliedig ar sut mae, a sut y bydd, pobl yn rhyngweithio â'r tirwedd a'r treflun. Mae'r synnwyr hwn o 'le' yn amrywio, o ardaloedd gwledig cefn gwlad sy'n darparu sail economaidd i amaethyddiaeth a thwristiaeth ffynnu, i ardaloedd trefol sy'n esblygu'n barhaus ac sy'n rhoi canolbwynt i ddatblygiadau sylweddol yn gymdeithasol ac economaidd. Mae gwerth cynhenid lle i bobl neu gymunedau yn neilltuol o bwysig, a all fod am resymau esthetig, diwylliannol, ysbrydol neu hanesyddol ac awdurdodau cynllunio sydd yn y sefyllfa orau i ddeall y rhain.

## Beth yw Creu Lleoedd?

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn diffinio "creu lleoedd" fel dull cyfannol o gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol. Mae'n manteisio ar botensial ardal i greu datblygiadau o ansawdd uchel a mannau cyhoeddus sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn yr ystyr ehangaf. Mae creu lleoedd yn ystyried y cyd-destun, swyddogaeth a'r berthynas rhwng dafle datblygu a'i amgylchedd ehangach. Bydd hyn yn wir am ddatblygiadau sy'n creu lleoedd newydd yn ogystal â datblygiadau bach sy'n cael eu creu o fewn lle ehangach. Ni ddylai creu lleoedd ychwanegu cost ychwanegol at ddatblygiad, ond bydd yn gofyn am feddwl craff, aml-ddimensiwn ac arloesol a dylid ei ystyried ac y cam cynharaf posibl. Mae creu lleoedd yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at gynigion datblygu gan arwain at fanteision sy'n mynd y tu hwnt i ffin datblygiad corfforol ac sy'n ymgorffori gwytnwch ehangach mewn penderfyniadau cynllunio.

## Canol Trefi – Datblygiadau Manwerthu a Masnachol

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi nifer o amcanion cyffredinol ar gyfer canolfannau manwerthu a masnachol, a dylai awdurdodau cynllunio geisio eu cyflawni trwy eu cynlluniau datblygu a'u penderfyniadau rheoli datblygu gan sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint ag y medrant at y nodau llesiant. Mae'n rhaid i'r system gynllunio:

- Hyrwyddo canolfannau manwerthu a masnachol trefol a gwledig hyfyw fel y lleoliadau mwyaf cynaliadwy i fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu a gweithredu busnes;
- Cynnal a gwella bywiogrwydd, hyfywedd a dengarwch canolfannau manwerthu a masnachol; a
- Gwella mynediad at, ac o fewn, canolfannau manwerthu a masnachol drwy bob math o drafnidiaeth, gan roi blaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Mae canolfannau manwerthu a masnachol yn ganolog i weithgarwch cymunedol a ffyniant lleol, ac er mwyn cynllunio ar eu cyfer yn effeithiol mae'n bwysig deall eu swyddogaeth, eu rolau a'u cysylltiadau. Gall defnyddio uwchgynlluniau, briffiau datblygu neu gynlluniau lle ategu strategaethau manwerthu drwy ddarparu manylion ychwanegol a helpu i roi polisïau cynlluniau datblygu ar waith. Wrth ddatblygu strategaethau, cynlluniau a pholisïau i adfywio canolfannau sy'n bodoli eisoes a'u gwneud yn fwy deniadol, dylai awdurdodau cynllunio ymgynghori â'r sector preifat a chymunedau lleol.

***Strategaeth Drafnidiaeth Cymru***

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn darparu'r fframwaith ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ac mae'n nodi blaenoriaethau strategol system drafnidiaeth ddiogel, integredig, gynaliadwy, effeithlon ac economaidd sy'n gwasanaethu Cymru. Mae'n rhoi cyd-destun i nod Llywodraeth Cymru o leihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn ceir preifat, ac mae'n cefnogi newid dulliau teithio at gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Adlewyrchir hyn ym Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol, sy'n rhoi creu lleoedd wrth wraidd y system gynllunio. Cefnogir y newid dulliau hwn gan yr hierarchaeth drafnidiaeth gynaliadwy, sy'n blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Cafodd Strategaeth Drafnidiaeth bresennol Cymru, Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl, ei gyhoeddi yn 2008. Ers hynny cyflwynwyd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, sy'n gynyddol ddylanwadol yn y ffordd rydym yn integreiddio teithio llesol â datblygiad newydd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn galluogi pobl i gerdded a beicio fel rhan o'u gweithgareddau bob dydd. Mae cynlluniau Metro hefyd yn cael eu datblygu yn y De-ddwyrain, y De-orllewin a'r Gogledd, sy'n cael eu hysgogi gan fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid gweithredu. Bydd y prosiectau metro yn cynnig cyfleoedd sylweddol i gymunedau a datblygiadau newydd gael eu cefnogi gan drafnidiaeth gyhoeddus o ansawdd da. Mae technolegau trafnidiaeth hefyd wedi camu ymlaen yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda gerbydau allyriadau isel iawn yn gallu cael effaith drawsffurfiannol ar ddatgarboneiddio trafnidiaeth. Bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Llwybr Newydd, yn cydnabod y newidiadau hyn ac yn pennu ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer trafnidiaeth. Mae Llwybr Newydd, ynghyd â'i bolisïau a phrosiectau trafnidiaeth cysylltiedig, wedi cyfrannu'n uniongyrchol at strategaeth ofodol, canlyniadau a pholisïau Dyfodol Cymru.

***Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013***

Mae Cerdded a Beicio wedi ennill cefnogaeth ers i Lywodraeth Cymru basio Deddf Teithio Llesol (Cymru), a dderbyniodd gydsyniad brenhinol ym mis Tachwedd 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod nifer o ddyletswyddau ar yr awdurdodau lleol i wella'n barhaus y cyfleusterau a llwybrau, yn rhai newydd a rhai sy'n bod eisoes, i gerddwyr a beicwyr a pharatoi mapiau yn nodi'r llwybrau presennol, a rhai posibl yn y dyfodol, y gallant eu defnyddio. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i gynlluniau ffyrdd newydd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr yn y camau cynllunio a dylunio. Dylid dylunio neu wella'r rhwydwaith teithio llesol i gyrraedd set o safonau'r arferion gorau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau:

Canllawiau Dylunio Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Canllawiau Statudol ar gyfer Gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013;

Y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol.

### *Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040*

Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol, sy'n gosod cyfeiriad datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer ymdrin â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi sy'n ffynnu, cyflawni datgarboneiddio a gwrthsefyll newid hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a llesiant ein cymunedau.

### *Datganiadau Ardal – Cyfoeth Naturiol Cymru*

Mae Datganiadau Ardal a gynhyrchir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol â'u dyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn nodi strategaeth ar gyfer rheoli Adnoddau Naturiol yn well er budd cenedlaethau'r dyfodol. Fel yr awgryma'r enw, mae'r datganiadau yn seiliedig ar ardaloedd gofodol.

Mae saith yn cwmpasu Cymru, gyda phedwar ohonynt yn ymestyn i ardal y Parc Cenedlaethol.

- De-ddwyrain Cymru
- Canol De Cymru
- De-orllewin Cymru
- Canolbarth Cymru

### *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2020) (SoNaRR)*

Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys asesiad o gyflwr Adnoddau Naturiol yng Nghymru (SoNaRR). Mae'r adroddiad hwn yn ddogfen allweddol wrth baratoi Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol. Mae'r adroddiad diweddaraf yn tynnu sylw at yr angen i sectorau cyhoeddus drosoli newid i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd gan ddefnyddio newid trawsnewidiol ar draws ecosystemau, a systemau economaidd a chymdeithasol.

### *Deddf yr Amgylchedd 2016 Rhan 1 Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Rhan 2 Newid yn yr Hinsawdd.*

Mae adnoddau naturiol yn hanfodol ar gyfer yr aer rydyn ni'n ei anadlu, y dŵr rydyn ni'n ei yfed a'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta. Maent yn gwella ansawdd y lleoedd lle'r ydym yn byw, yn gweithio ac yn ymweld â nhw ac yn creu'r tirweddau a'r bioamrywiaeth sy'n gwneud yr ardaloedd hyn yn arbennig.

Mae adnoddau naturiol sy'n iach ac yn ffynnu hefyd yn iachach i bobl, eu cymunedau ac i'r economi, ond mae'r galw ar ein hadnoddau naturiol yn cynyddu. Os na fyddwn yn gweithredu ar unwaith i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, bydd canlyniadau difrifol a fydd effeithio ar bob un ohonom. Mae angen i ni newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau fel ein bod yn parhau i elwa o'n hadnoddau naturiol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae Deddf yr Amgylchedd yn ein helpu i ymateb i'r her hon drwy gyflwyno rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol fel dull newydd sy'n sicrhau nad yw'r ffordd rydym yn defnyddio ein hadnoddau naturiol ac yn effeithio arnynt yn arwain at eu dirywiad hirdymor. Rydym wedi dysgu o brofiadau ein partneriaid rhyngwladol ac rydym yn defnyddio'r arferion gorau rhyngwladol drwy weithredu dull ecosystemau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol er mwyn helpu Cymru i arwain y ffordd ar Ddatblygu Cynaliadwy. Ein nod yw rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy ac ar raddfa sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb amharu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol ac sy'n cyfrannu at y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf – A6 Dyletswydd Bioamrywiaeth - yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo ecosystemau cydnerth. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ymgorffori ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau mewn polisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau. Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gwent yn cyflwyno canllawiau mwy manwl ar sail Gwent gyfan. Bydd cydymffurfio â'r ddyletswydd A6 hon yn helpu manteisio i'r eithaf ar gyfraniadau i'r nodau Llesiant. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r canllawiau canlynol:

- Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru 2013
- Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr: Adolygiad 2013-2018 a Gweithredoedd y Dyfodol (llyw.cymru)
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2015
- Cyfoeth Naturiol Cymru 2017
- Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040

### *Canllaw i Greu Lleoedd 2020 – Comisiwn Dylunio Cymru*

Mae canllaw Comisiwn Dylunio Cymru wedi'i anelu at bawb sy'n ymwneud â chreu lleoedd llwyddiannus, gan gynnwys y gymuned leol, dylunwyr trefol, cynllunwyr, penseiri, penseiri tirwedd, datblygwyr, cynllunwyr trafnidiaeth, peirianwyr priffyrdd ac ecolegwyr ymhlith eraill. Mae angen i bob proffesiwn a phob unigolyn sy'n ymwneud â chynllunio, dylunio, datblygu neu reoli lleoedd gydweithio ar bob cam tuag at agenda creu lleoedd gyffredin. Cydnabyddir bod natur lleoedd yn amrywio ar draws Cymru, bod pentrefannau gwledig yn wahanol i

ganol trefi, ac y gall coetir fod yn lle, llawn cymaint â sgwâr trefol. Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar aneddiadau ar bob graddfa ac ymhob lleoliad sy'n cael eu newid neu eu datblygu o'r newydd.

Yn aml, mae'r theori o ddeall lle yn priodoli'r elfennau allweddol canlynol y dylid rhoi sylw iddynt wrth gyflawni lleoedd da a chreu lleoedd yn effeithiol:

### Gweithgarwch

Y gweithgareddau sy'n digwydd yn y lle a gefnogir gan wahanol fathau o ddefnydd tir, symudiad cerddwyr a beicwyr, chwarae a bywyd cymdeithasol o fewn y parth cyhoeddus a digwyddiadau.

### Ffurf Ffisegol

Y cefndir ffisegol sy'n ffufio'r lle gan gynnwys y treflun, ffurf adeiledig, tirwedd, topograffeg, ecoleg, micro-hinsawdd a'r parth cyhoeddus.

### Ystyr

Nodweddion unigryw lle gan gynnwys y cyd-destun, hunaniaeth lleoedd presennol, ymdeimlad unigryw o le, nodweddion sylweddol, adeiledig a naturiol, cymdeithasau diwylliannol, profiadau synhwyraidd, diogelwch a chynhwysiant a theimlad o berthyn.

Y meysydd sydd angen i greu lleoedd eu hystyried yw

### Pobl a'r gymuned

Mae'r gymuned leol yn ymwneud â datblygu'r cynigion. Caiff anghenion, dyheadau, iechyd a llesiant pawb eu hystyried ar gychwyn y broses creu lleoedd. Caiff cynigion eu llunio i helpu i ddiwallu'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio, gwarchod a/neu gwella teimlad o gymuned a hyrwyddo cydraddoldeb.

### Lleoliad

Mae lleoedd yn tyfu ac yn datblygu mewn ffordd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, yn cefnogi ac yn gwella lleoedd sy'n bodoli eisoes, ac sydd â chysylltiadau da. Mae lleoliad tai, cyflogaeth, hamdden a chyfleusterau eraill yn cael eu cynllunio er mwyn helpu i leihau'r angen am deithio.

### Symud

Mae cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu blaenoriaethu i ddarparu dewis o ddulliau trafnidiaeth, ac osgoi gorfod dibynnu ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol, diogel sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ehangach, ac mae gorsafoedd ac arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu hintegreiddio'n gadarnhaol.

### Dibenion cymysg

Mae gan leoedd amrywiaeth o ddibenion sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus. Mae dwysedd datblygu a chymysgu defnyddiau a daliadaethau yn helpu i gefnogi cymuned amrywiol a pharth cyhoeddus bywiog.

### Y Parth Cyhoeddus

Mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol, gyda hunaniaeth unigryw. Maen nhw wedi'u cynllunio i fod yn gadarn ac yn hyblyg gyda thirwedd, seilwaith gwyrdd a draeniad cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Maen nhw wedi'u cysylltu'n dda â lleoedd presennol, ac maen nhw'n hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac amrywiaeth o weithgareddau i bawb.

### Hunaniaeth

Mae rhinweddau cadarnhaol, nodedig lleoedd presennol yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Nodir nodweddion a chyfleoedd unigryw lleoliad, yn cynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith, priodoleddau ffisegol adeiledig a naturiol, ac ymatebir iddynt.

### *Canol trefi: datganiad sefyllfa, Mai 2023, Llywodraeth Cymru*

Ym mis Mai 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad sy'n nodi'r heriau sy'n wynebu canol trefi a sut y byddant yn helpu i'w hadfywio.

Mae'r datganiad yn agor trwy ddweud bod canol trefi'n wynebu heriau cymhleth sydd weithiau'n unigryw i leoedd penodol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r problemau a wynebir gan drefi yng Nghymru sy'n ei chael yn anodd, yn gallu cael eu priodoli i gyfuniad o ddirywiad yng nghanol y dref a datblygiadau y tu allan i'r dref ar ôl y 1980au. Mae angen i ni gydnabod cymhlethdod y problemau hyn a gweithio gyda'n gilydd ym mhob sector ledled y wlad i adfywio canol ein trefi. Mae'r datganiad hwn yn nodi'r heriau sy'n wynebu trefi, yn ogystal â'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i osod y sylfeini ar gyfer newid a galluogi cyflawni'n lleol i ddatblygu ein canol trefi fel lleoliadau ar gyfer ystod o wasanaethau, menter economaidd, gwaith ac i fod yn gymunedau cysylltiedig.

Caiff yr heriau sy'n wynebu canol trefi eu diffinio fel:

- Symud gwasanaethau o ganol trefi i'r cyrion
- Heriau modelau busnes
- Lleoliadau y tu allan i drefi yn cael eu hatgyfnerthu gan ddibyniaeth ar geir preifat
- Argyfyngau hinsawdd a natur
- Gallu i gyflawni'n lleol
- Roedd y datganiad sefyllfa'n amlinellu rhai o Gamau Gweithredu Llywodraeth Cymru.

### Polisïau canol trefi yn gyntaf

Mae tynnu busnesau a sefydliadau'r sector cyhoeddus o ganol trefi wedi cyfrannu at ddirywiad canol trefi. Bydd lleoli neu adleoli'r sefydliadau angor hyn yn strategol i ganol trefi yn cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant cwsmeriaid er mwyn cefnogi sector adwerthu cadarn, yn ogystal â chreu galw am wasanaethau eraill. Bydd hyn yn gwneud trefi'n fwy deniadol i fewnfuddsoddi yn ogystal ag i fusnesau presennol a newydd.

### Polisïau ar gyfer datblygiadau y tu allan i drefi a'u cysylltedd â chanol trefi

Rhaid i nod sylfaenol unrhyw bolisi ar gyfer datblygu y tu allan i drefi ymwneud ag annog mantais ariannol a chyfleoedd datblygu tuag at ganol y dref, neu sicrhau bod datblygiadau y tu allan i drefi wedi'u cysylltu'n gymdeithasol ac yn ofodol â chanol trefi. Fodd bynnag, ni all hyn olygu dymchwel neu ailddatblygu datblygiadau y tu allan i drefi, oherwydd nid yw hynny'n ddymunol nac yn amgylcheddol gyfrifol.

## Cyflawni mewn ffordd gydgysylltiedig

Yn ogystal â'r heriau a nodir uchod, bydd pob tref hefyd yn wynebu problemau a chyfleoedd penodol eraill, ac mae deall y cyd-destun lleol yn hollbwysig er mwyn penderfynu pa fath o fuddsoddiad sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol o ran cefnogi llwyddiant tref. Bydd y pethau sylfaenol yn debyg ar gyfer y rhan fwyaf o drefi – fel gwasanaeth bysiau digonol, cynnig gwasanaethau amrywiol, cysylltedd digidol da – ond bydd y ffordd orau o'u darparu a'u blaenoriaethu yn wahanol. Nid oes datrysiad syml, na model sy'n addas i bawb. Felly, mae'n hanfodol cael dull sy'n caniatáu i bob tref ddod o hyd i atebion lleol sy'n manteisio i'r eithaf ar fenter a gwybodaeth leol.

**Cam Gweithredu - Gweithio ar draws y llywodraeth i ddatblygu cynllun hirdymor ar gyfer lleoli a/neu adleoli amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus i ganol trefi, gyda chefnogaeth strategaethau rheoli asedau priodol a strwythurau llywodraethu cysylltiedig cyrff gwasanaethau cyhoeddus.**

**Cam Gweithredu - Gweithio ar draws y llywodraeth, deall refeniw a gwariant cyfalaf, a fframweithiau caffael sefydliadau allweddol yn y sector cyhoeddus (ee iechyd, addysg) er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r polisi Canol Trefi yn Gyntaf.**

**Cam Gweithredu - Sefydlu consortia o landlordiaid cymdeithasol a datblygwyr preifat i alluogi datblygiadau tai mewn lleoliadau priodol mewn trefi ac o'u cwmpas, sy'n dilyn egwyddorion creu lleoedd.**

**Cam Gweithredu - Rhaid targedu'r cyllid Trawsnewid Trefi yn yr ardaloedd lle mae'n gallu cefnogi cyfleoedd trawsnewidiol ac o dan gynllun creu lleoedd sydd wedi cael ei ddatblygu'n lleol ar draws pob sector.**

**Cam Gweithredu - Ystyried opsiynau i gefnogi'r capasiti ar gyfer cyflawni a darparu cymorth arbenigol, gan gynnwys ystyried cylch gwaith Comisiwn Dylunio Cymru yn y dyfodol.**

**Cam Gweithredu - Gweithio gyda phartneriaid cyhoeddus, cymdeithasol a phreifat i ddadansoddi'r rhwystrau a chanfod cyfleoedd i sicrhau bod seilwaith gwyrdd ac atebion sy'n seiliedig ar natur – gan ddefnyddio egwyddorion economi gylchol – yn cael eu gwreiddio a'u blaenoriaethu yn y broses o wneud penderfyniadau wrth ymgymryd â gwaith mewn mannau cyhoeddus yng nghanol trefi.**

**Cam Gweithredu - Cryfhau gweithrediad y polisi Canol Trefi yn Gyntaf wrth gynllunio a grymuso cynllunwyr lleol i wrthod datblygiadau nad ydynt yn bodloni'r polisi ac i gynnig cynlluniau newydd ar gyfer ailddefnyddio datblygiadau y tu allan i drefi mewn modd addasol.**

**Cam Gweithredu - Bydd ein canllawiau ar gyfer paratoi Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried polisïau ehangach, gan gynnwys Canol Trefi yn Gyntaf.**

**Cam Gweithredu - Byddwn yn edrych ar ddull 'pecynnau buddion a chodi tâl' teg a chyfartal o gyflwyno unrhyw gynlluniau rheoli'r galw newydd, gan edrych ar ffyrdd o wella gwasanaethau cyn codi tâl, neu gyflwyno prisiau is pan fydd y cyfnod codi tâl yn dechrau.**

## RHANBARTHOL

### *Strategaeth Ofodol Is-ranbarthol Gorllewin Swydd Gaer a Gogledd-ddwyrain Cymru (2006)*

Er ei fod yn perthyn i'w gyfnod, roedd y gwaith cydweithredol, trawsffiniol hwn yn cydnabod diffyg perthnasedd y ffin genedlaethol wrth ystyried sut mae'r economi isranbarthol yn gweithredu, ac yn rhoi rôl flaenllaw  i Sir y Fflint fel canolbwynt economaidd isranbarthol. Mae llawer o'i amcanion yn dal i fod yn berthnasol fel sail ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), yn enwedig gan fod y gweithio hwn mewn partneriaeth yn parhau fel rhan o Gynghrair Mersi - Dyfrdwy.

Cynghrair Mersi a Dyfrdwy (Mersey Dee Alliance - MDA) - Mae'r Cyngor hefyd yn bartner allweddol yn yr MDA a ddeilliodd allan o gydnabod buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a rennir ar draws ardal Gorllewin Swydd Gaer, Cilgwri a gogledd-ddwyrain Cymru. Ffurfiwyd y Gynghrair ym mis Ebrill 2007 ac mae'n cynnwys Gorllewin Swydd Gaer a Chaer, Sir y Fflint, Wrecsam a Chilgwri, ynghyd â Phrifysgol Caer, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Llywodraeth Cymru a Mersey Travel. Er ei fod eistedd bob ochr i ffin genedlaethol, mae rhanbarth Twf Mersi a Dyfrdwy wedi cael ei gydnabod fel un isranbarth economaidd, gyda phoblogaeth yn agos at 1 miliwn. Rôl yr MDA yw gwella proffil a hunaniaeth rhanbarth ffin Gogledd-ddwyrain Cymru / Gogledd-orllewin Lloegr a chynnal a datblygu cystadleurwydd y rhanbarth.

Mae wedi cyhoeddi nifer o strategaethau gan gynnwys Strategaeth Ofodol Isranbarthol (2006-2021). Mae Prosbectws Twf Mersi a Dyfrdwy a gyhoeddwyd yn ddiweddar – Unlocking Our True Potential yn nodi'r buddsoddiad seilwaith trafnidiaeth sydd ei angen i ryddhau'r potensial o dwf economaidd yn ogystal â'r buddsoddiad rheilffordd a nodwyd ym mhrosbectws Growth Track 360. Mae'r prosbectws yn nodi safleoedd Datblygu Strategol gan gynnwys Warren Hall a Phorth y Gogledd, oherwydd eu lleoliadau strategol a'u potensial ar gyfer twf sylweddol.

### *Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Gweledigaeth Twf a Chais Datblygu)*

Cyhoeddodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru Weledigaeth Twf ar gyfer economi Gogledd Cymru yn 2016 ac iddo'r nodau canlynol:

- Gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- Cefnogi a chadw pobl ifanc yng nghymunedau'r rhanbarth.
- Mynd i'r afael â diweithdra ac anweithgarwch ar draws y rhanbarth.
- Cefnogi a galluogi buddsoddiad gan y sector preifat yn y rhanbarth i hybu cynhyrchiant economaidd a gwella perfformiad economaidd a chyflogaeth.

Bydd y rhain yn cael eu gwireddu trwy gynlluniau penodol sy'n ymwneud â seilwaith, sgiliau a chyflogaeth a chefnogi twf busnesau. Bydd Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru yn creu miloedd o swyddi, hybu'r economi, gwella cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu digidol, canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy, cefnogi twristiaeth a mwy. Yn fras, y weledigaeth yw tyfu gwerth yr economi 2.8% y flwyddyn i £20 biliwn a chreu dros 120,000 o gyfleoedd swyddi newydd. Mae'r Cais yn cynnwys cyfres o brosiectau o dan wyth rhaglen ac mae prosiectau allweddol yn Sir y Fflint yn cynnwys cefnogi safleoedd cyflogaeth strategol yn Warren Hall, Brychdyn a'r Porth Gogleddol, Glannau Dyfrdwy a chreu Canolfan Gweithgynhyrchu Uwch.

### *Cynllun Adfywio Gogledd Cymru 2018-2035*

Mae'r Strategaeth hon yn nodi gweledigaeth ac amcanion a rennir ar gyfer buddsoddiad a gweithgarwch sector cyhoeddus cydlynol yng ngogledd Cymru hyd 2035. Mae'r cyd- ddatganiad o weledigaeth wedi ei nodi isod.

Mae'r Strategaeth yn rhoi arweiniad ar sut ddylid blaenoriaethu'r cyllid sydd ar gael, ac yn ein helpu i alinio'r broses adfywio â mentrau eraill i gefnogi twf economaidd, gan gynnwys Cynllun Twf Gogledd Cymru. Yn ogystal, mae'n ceisio sicrhau bod cyfleoedd economaidd ar gael i gymaint o bobl a chymunedau â phosib ar draws y rhanbarth.

> *"Erbyn 2035, bydd Gogledd Cymru yn profi llai o anghydraddoldeb, mwy o gyflogaeth, canol trefi wedi'u moderneiddio, gwell cynnig tai, economi ymwelwyr cryfach, economi gwledig gwydn, a gwell iechyd i bobl leol."*

### Amcanion

Mae Strategaeth Adfywio Gogledd Cymru yn ceisio:

- **Lleihau anghydraddoldeb –** drwy helpu mwy o bobl i rannu buddion twf yn y dyfodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi'r rhai gyda'r incwm aelwyd isaf i gael mynediad at gyfleoedd.
- **Cynyddu cyflogaeth -** creu cyfleoedd am gyflogaeth drwy brosiectau adfywio.
- **Moderneiddio canol trefi -** drwy adeiladu ar eu swyddogaeth fel canolfannau am gyfleoedd economaidd lleol, darpariaeth gwasanaeth a chynhwysiad cymdeithasol. Adnabod eu swyddogaeth yn yr economi sylfaenol a'u helpu i addasu i newid economaidd.
- **Datblygu'r economi wledig -** helpu i greu cymunedau gwledig cynaliadwy drwy gael mynediad at gyfleoedd economaidd a mynediad at wasanaethau.
- **Gwella'r cynnig tai -** drwy sicrhau fod y datblygiad yn digwydd lle mae galw, gan ddarparu opsiynau tai o ansawdd da i drigolion presennol, pobl ifanc a phobl sy'n symud i'r ardal.
- **Cryfhau'r economi twristiaid -** drwy adeiladu ar y cynnig twristiaid a'r cryfderau sy'n bodoli yn y rhanbarth gan gynnwys y marchnadoedd twristiaeth antur a threftadaeth, ynghyd â darparu lleoliad atyniadol i ddigwyddiadau mawr mewn safleoedd sydd o bwys rhanbarthol megis Parc Eirias a Chae Ras Wrecsam. Drwy annog mwy o ymwelwyr i ogledd Cymru a darparu canol trefi modern, byddwn yn cynyddu nifer yr ymwelwyr a ddaw i'n trefi ac sy'n gwario yn yr economi lleol.
- **Gwella iechyd pobl leol -** drwy greu mannau sy'n hyrwyddo gweithgarwch corfforol, drwy ddarparu amgylcheddau a mannau gwyrdd o ansawdd a thrwy drechu tlodi yn ein cymunedau mwyaf eithriedig.

### *Strategaeth a Chynllun Pobl: Mewn Undod mae Nerth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr*

Gweledigaeth y Bwrdd Iechyd yw creu gogledd Cymru iachach, gyda chyfleoedd i bawb wireddu eu llawn botensial. Golyga hyn y dylai pobl gogledd Cymru, dros amser brofi bywyd hirach ac o ansawdd gwell.

Caiff y weledigaeth hon ei harwain a'i llywio gan gynllun Llywodraeth Cymru "Cymru Iachach", dogfen drosolwg strategol y Bwrdd, "Byw'n Iachach, Aros yn Iach", a'u Strategaeth Gwasanaethau Clinigol esblygol yng ngogledd Cymru. Mae'r Pandemig Covid-19 wedi cael effaith anferthol mewn llawer ffordd:

- Cefnogi unigolion yn y gogledd sydd â Covid-19 a/neu symptomau o Covid-19.
- Yr effaith ar y rheini heb Covid-19 sydd wedi profi oedi mewn triniaeth oherwydd yr angen i ymdrin â'r Pandemig.
- Yr effaith ar ein staff, sydd wedi ymateb yn wych dros 2 flynedd o amodau parhaus y Pandemig.
- Mae wedi cyfyngu ar ein gallu i gyflawni rhai o'n blaenoriaethau a grybwyllwyd o'r blaen, trwy'r angen i ailflaenoriaethu.
- Mae wedi'n hatgoffa ni i gyd, pe bai angen atgoffa, y bydd angen inni i gyd ymateb yn wahanol i'r heriau o ddarparu gofal iechyd mewn ffordd gynaliadwy.

Mae'r effeithiau hyn wedi dylanwadu'n drwm ar ei flaenoriaethau yn y blynyddoedd sydd o'n blaenau.

Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, a'i atodiadau cysylltiedig, gyda'r Strategaeth a'r Cynllun Pobl hwn yn un ohonynt, yn nodi sut y byddwn yn gwneud hyn trwy flaenoriaethu meysydd penodol i'w datblygu a gaiff eu cyflawni gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo. Mae'r manylion ynghylch y camau y byddwn ni'n eu cymryd yn y flwyddyn sy'n dod gyda'r Cynllun Tymor Canolig Integredig hefyd yn nodi, mewn ffurf ddangosol, sut y byddwn yn adeiladu ar ein camau gweithredu yn 2022/23 yn ystod 2023/24 ac ymlaen i 2024/25.  Yr hyn roedd y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio arno'n bennaf yn 2022/23 oedd:

- Dychwelyd yn llawn at fusnes craidd, gan gynnwys mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cysylltiedig â'r panedmig,
- Cadarnhau gwaith datblygiadol sydd eisoes wedi cychwyn ond heb ei orffen eto, gan gynnwys gwaith i gyflawni tuag at fframwaith Ymyriad Wedi'i Dargedu Llywodraeth Cymru.

### *Gogledd Cymru Actif, Strategaeth 10 Mlynedd – 2023-2033*

Gogledd Cymru Actif yw'r bartneriaeth gweithgarwch corfforol a chwaraeon gyntaf i fynd

yn fyw yng Nghymru. Rydym yn cynnwys ystod eang o sefydliadau sydd wedi dod ynghyd i gytuno i weithio'n wahanol er mwyn cyflawni diben a rennir o gym unedau mwy actif yng ngogledd Cymru.

Mae'n cefnogi'n gryf ddull systemau cyfan o gyflawni gogledd Cymru mwy actif, gan adeiladu ar enw da'r rhanbarth am gydweithio ar draws sectorau i gyflawni newid systemau cyfan.

Mae yn golygu gweithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid i ddeall yr her ac adnabod a phrofi atebion gan weithio ar draws ffiniau sectorau, sefydliadau a lleoedd i gyflawni gwelliannau hir eu pharhad i iechyd a llesiant.

Ei weledigaeth yw

***"pawb yng ngogledd Cymru yn fwy actif, yn byw bywydau iachach a hapusach".***

Ei genhadaeth yw "pawb yng ngogledd Cymru yn cael mynediad i fannau a lleoedd diogel a chyfleoedd amrywiol i fod yn actif bob dydd".

Mae ei fframwaith gweithredu'n canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth:

### POBL ACTIF

**Creu a hyrwyddo cyfleoedd i bawb fod yn egnïol.**

Nod: Gweithio gyda phartneriaid i dyfu a hyrwyddo cyfleoedd ar draws amrywiaeth o leoliadau i helpu pobl o bob oed a gallu i fod yn actif yn eu hardal leol, fel unigolion, teuluoedd a chymunedau.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

1. 1. Adolygu'r cyfleoedd lleol presennol i gefnogi pobl i fod yn actif.
2. Profi a thyfu cyfleoedd newydd sy'n helpu pobl i fod yn actif yn eu hardal leol.

### AMGYLCHEDDAU ACTIF

**Gwneud y defnydd gorau o leoedd a mannau lleol i fod yn actif.**

Nod: Profi ffyrdd newydd o weithio ar lefel leol i ddarparu cyfleoedd i bobl fod yn actif yn eu hardal leol drwy ddefnyddio dull gweithredu seiliedig ar le'.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

1. Treialu 'dulliau sy'n seiliedig ar leoedd' mewn ardaloedd y cytunwyd arnynt (yn seiliedig ar ddata a dealltwriaeth) ar draws y rhanbarth er mwyn:

- Deall yn well y rhwystrau a'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu wrth fod yn actif
- Cyd-greu a chyd-ddatblygu ymyriadau gyda'r bobl sy'n byw yn yr ardal i gynyddu cyfleoedd iddynt fod yn egnïol.

2. Cefnogi a helpu darparwyr gwreiddiau gwirfoddol a gweithgareddau cymunedol presennol i oroesi a ffynnu, a'r rhai sydd â'r gallu i wneud mwy i dyfu cyfleoedd yn lleol.
3. Mapio lleoedd a chyfleusterau lleol y gellir eu defnyddio i helpu i gyflawni ein nodau a llywio cynllunio a datblygu cyfleusterau yn y dyfodol.

### CYMDEITHASAU ACTIF

**Cynnal, cynnal a thyfu drwy wrando, cefnogi a gweithio gyda chymunedau i wneud 'bod yn actif' yn norm.**

Nod: Defnyddio ein llwyfan rhanbarthol a gweithio gyda phartneriaid i gysylltu â'r boblogaeth, gan godi proffil y manteision ehangach o fod yn weithgar i gynulleidfaoedd gwahanol ac amrywiol.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

1. Arwain ymgyrchoedd cyfathrebu a diwrnodau ymwybyddiaeth drwy ddangos bod pobl go iawn yn actif mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw, fel y gall eraill weld pobl fel nhw yn symud mwy a mwynhau'r manteision.
2. Adolygu'r gweithlu presennol ar draws y rhanbarth a mapio anghenion (gweithlu a chymorth yn y dyfodol) i gyflawni'r strategaeth.

### SYSTEMAU ACTIF

**Cydlynu a chydweithio rhwng sawl sector.**

Nod: Codi proffil strategaeth ar y cyd Actif Gogledd Cymru a rhoi goleuni ar fanteision ehangach bod yn actif i'w hymgorffori mewn polisi ac ymarfer ar draws y rhanbarth.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

1. Datblygu cynllun cyfathrebu cydlynol gyda phartneriaid i dynnu sylw at fanteision eang bod yn actif gyda'i gilydd.
2. Profi ffyrdd newydd o weithio ar draws y rhanbarth, i uno sectorau i ymrwymo i sbarduno newid ar lefel system.
3. Adolygu data, tystiolaeth a dealltwriaeth ar draws sectorau.
4. Defnyddio'r strategaeth i dargedu cyfleoedd buddsoddi ychwanegol i'r rhanbarth.

## LLEOL

### *Cynllun y Cyngor, 2022-23, Cyngor Sir y Fflint*

Caiff y blaenoriaethau ar gyfer Sir y Fflint fel Sir eu pennu gan y Cyngor a'i bartneriaid sector cyhoeddus lleol. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan gyfuno'n hadnoddau er budd Sir y Fflint. Gan weithio i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor yn cydweithio â phartneriaid sector cyhoeddus lleol fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint yn chwarae rhan ganolog wrth hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o weithio gyda'n gilydd, pennu blaenoriaethau a rennir a chyfuno adnoddau er budd Sir y Fflint, gyda nod cyffredinol o wella llesiant lleol. Mae'r Cynllun yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor fel:

#### Pobl – Mae trigolion yn Sir y Fflint yn teimlo'n hapus, diogel ac iach

- Lleihau effaith tlodi ar bobl sy'n byw yn Sir y Fflint
- Galluogi darpariaeth o'r cartrefi iawn yn y lle iawn
- Helpu pobl i fanteisio ar gymorth i gynnal a gwella eu llesiant
- Galluogi dysgu a chyflawni llwyddiannus
- Helpu pobl i gadw eu tai a byw yn dda, gan sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin, byr ac na chaiff ei ailadrodd
- Deall anghenion a blaenoriaethau pobl trwy gyd-drafod effeithiol

#### Lleoedd – Mae Sir y Fflint yn lle mae pobl eisiau byw, ymweld a gweithio

- Galluogi dewisiadau teithio llesol a chynaliadwy ar gyfer teithiau rheolaidd pawb
- Helpu pobl a busnesau i addasu i newid hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol
- Adfywio canol trefi a mannau gwyrdd i gefnogi llesiant a chyflogaeth lleol
- Cynnal a chadw ein rhwydwaith ffyrdd yn dda a diogel
- Cefnogi'n cymunedau i wella'u hardaloedd lleol i greu amgylcheddau glanach, gwyrddach ac iachach
- Parhau ein taith i ddod yn Gyngor carbon sero net gan ddylanwadu ar ein cymunedau i weithredu ar yr hinsawdd
- Creu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig, arloesol a chynhwysol

#### Ffyniant – Cymunedau llewyrchus a busnesau ffyniannus yn Sir y Fflint


- Denu buddsoddiad busnes i hyrwyddo cynaliadwyedd a thwf swyddi
- Archwilio ffyrdd o gynhyrchu incwm newydd ac ychwanegol
- Helpu pobl i mewn i'r farchnad lafur
- Tyfu buddion yr economi ymwelwyr
- Cyngor wedi'i Reoli'n Dda

### *Cynllun Llesiant Sir y Fflint a Wrecsam 2022-23*

Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw lle mae sefydliadau sector cyhoeddus ar draws Sir y Fflint a Wrecsam yn dod at ei gilydd. Rydym yn gweithio gyda'n cymunedau i newid y ffordd rydym yn gwneud pethau, er mwyn sicrhau y byddwn yn gallu wynebu'r heriau sydd o'n blaenau megis yr argyfwng hinsawdd a natur, a sut y byddwn yn sicrhau iechyd meddwl da a llesiant i bawb.

Ar ôl gweithio mewn partneriaeth drwy gydol COVID, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam bellach wedi dod at ei gilydd fel un corff. Rydym wedi ymrwymo i weithio'n egnïol a brwdfrydig a gwrando ar eraill. Mae hyn yn golygu cynnwys ein cymunedau, felly maen nhw bob amser yn rhan greiddiol o gynllunio a darparu ein gwasanaethau. Fel hyn, gall pawb elwa'n deg o'n hadnoddau, ein hasedau a'n gwasanaethau hygyrch. Rydyn ni'n gryfach gyda'n gilydd.

Mae gennym bartneriaeth strategol sy'n canolbwyntio'n gryf ar fabwysiadu dull ar y cyd o ddysgu, gwneud penderfyniadau a gweithredu. Gyda'i gilydd, mae ein sefydliadau'n cyflogi llawer o bobl leol. Mae pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sefydliad angor, yma ar gyfer y tymor hir ac yn gweithio i'n hardal, gan edrych ar sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau yn well i adeiladu lle tecach ac iachach. A sut y gallwn ddefnyddio ein grym gwario i bweru'r economi leol ac adeiladu llesiant.




Prif faes thematig a chanlyniadau y Cynllun Llesiant yw “Ein Cymunedau” sy’n canolbwyntio ar ddefnyddio sgiliau a doniau pawb i fynd i’r afael â’r argyfwng newid hinsawdd a natur ac adeiladu economi leol gref, deg a chynaliadwy. Mae’r Cynllun yn datgan bod yn rhaid iddo gipio’r cyfle i adeiladu economi leol gynaliadwy, gan weithio ar draws ein rhanbarth ac ar draws y ffin i dyfu busnesau lleol, gwella bioamrywiaeth a chanolbwyntio ar datblygu seiliau a seilwaith gwyrdd. Bydd hyn yn helpu lliniaru effeithiau newid hinsawdd, addasu’n cymunedau i effeithiau hinsawdd sy’n newid a chefnogi gwell canlyniadau llesiant.

Mae hefyd yn nodi sgiliau gwyrdd fel cyfran sylweddol o farchnad swyddi’r dyfodol ac felly mae angen inni roi’r cyfle i bawb yn ein cymunedau i fanteisio ar y cyfleoedd anferthol ac amrywiol yn y sector hwn. Caiff teithio llesol hefyd ei weld fel rhywbeth sy’n allweddol er mwyn manteisio ar y nifer a’r amrywiaeth sylweddol o gyfleoedd cyflogaeth sefydlog, sy’n talu’n dda, a fydd ar gael, gyda’r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn hyrwyddo’r syniad o’r gymdogaeth 20 munud lle mae swyddi, cyfleusterau a siopau yn haws eu cyrraedd heb eistedd mewn tagfeydd.


### *Strategaeth Newid Hinsawdd, 2022-2030, Cyngor Sir y Fflint*

Mae’r hinsawdd yn newid ac er ei fod bob amser wedi newid trwy brosesau amgylcheddol naturiol, caiff ei dderbyn yn helaeth bellach fod gweithgarwch dynol yn effeithio ar yr hinsawdd mewn ar raddfa sy’n cael effeithiau niweidiol ar bopeth byw. Roedd Cytundeb Paris 2015 ar Newid yn yr Hinsawdd yn cydnabod yr angen i gyflymu gweithredoedd a buddsoddi mewn lleihau effeithiau ar yr amgylchedd. Os na fyddwn ni’n gwneud dim, bydd y goblybiadau posibl yn niweidiol i’n cymuned trwy risg i iechyd a llesiant, llifogydd, gwres eithafol, tarfu ar seilweithiau mewn ynni, trafnidiaeth a diwydiant.

Mae’r Cyngor yn cefnogi’r datganiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i’r Sector Cyhoeddus ddod yn garbon niwtral erbyn 2032, ac ym mis Rhagfyr 2019, cymeradwyodd Aelodau’r Cabinet gynnig i ddatblygu strategaeth glir ar gyfer Newid Hinsawdd a fydd yn gosod nodau a chamau gweithredu allweddol ar gyfer greu sefydliad carbon niwtral. Roedd y Cyngor yn gyfrifol am allyriadau nwyon tŷ gwydr o 46,434 $tCO_2e$ yn 2018/2019 o’r gwasanaethau mae’n eu darparu, yr adeiladau mae’n eu gweithredu a’r nwyddau/gwasanaethau mae’n eu prynu. Mae nifer o gamau y gall y Cyngor eu cymryd i leihau ei allyriadau nwyon tŷ gwydr fel sefydliad ac mae’r ddogfen hon yn dangos nodau a gweithredoedd camau cyntaf y Cyngor at ddod yn sefydliad carbon niwtral.

Mae amcanion y thema yn canolbwyntio ar adeiladau, symud a thrafnidiaeth, caffael, defnydd tir ac ymddygiad. Mae'r camau o nodwyd o fewn pob un o'r themâu hyn wedi ystyried barn Aelodau, y cyhoedd, a gweithwyr y Cyngor er mwyn creu llwybr sy'n uchelgeisiol a chyraeddadwy gyda'r buddsoddiad a'r adnoddau iawn, cydweithio ac arweiniad.

Mae'r Cyngor wedi pennu nodau o fewn pob un o themâu'r amcanion allweddol. Mae gan bob un o'r amcanion hyn nifer o gamau amrywiol. Mae'r nodau lleihau yn seiliedig ar linellau sylfaen 2018/19 ar gyfer pob thema.




### Cefnogi Natur yn Sir y Fflint – Ein cynllun i gynnal a gwella bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Cefnogi Natur yn Sir y Fflint yw ail gynllun Sir y Fflint ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth yn Sir y Fflint. Gwnaeth y Cyngor gynnydd da mewn 67% o'r ardaloedd targed o dan ei gynllun 2016-2019 ac mae'n symud ymlaen â'n gwaith ers 2020 mewn sefyllfa gryfach ar ôl parhau i sicrhau nifer o grantiau ar gyfer gweithredu dros natur a chynyddu swydd ein Swyddog Bioamrywiaeth i fod yn llawn-amser. Mae Sir y Fflint wedi chwarae rhan allweddol mewn sicrhau parhau'r Bartneriaeth Natur Ranbarthol (Bionet) a fydd yn arf pwysig wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol, o ran gweithredu targedau o'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cenedlaethol, blaenoriaethau o'r Datganiadau Ardal ac amcanion llesiant.

Mae ein cynllun yn uchelgeisiol. Bydd yn cynnwys gweithio ar draws adrannau'r Cyngor, gyrru newid a fydd yn arwain at nifer o fanteision a hyrwyddo ffyrdd newydd o feddwl a gweithio. Fe fydd yna gysylltiadau penodol gyda'r rhaglen lleihau carbon a maes blaenoriaeth datblygol newid hinsawdd.

Mae'r cynllun yn trafod glaswelltir a thir comin, coetir a choed a hefyd bwysigrwydd seilwaith wledig a gwyrdd sy'n ffurfio rhan o gynlluniau creu lleoedd.

## Seilwaith Gwyrdd Gwledig a Threfol

Mae yna nifer o safleoedd nad ydynt wedi eu dynodi a rhannau gwasgaredig o gynefinoedd sydd â gwerth o ran gwarchod natur a sy'n hanfodol ar gyfer natur. Mae hyn yn ffurfio ein hisadeiledd gwyrdd. Mae'n cynnwys nentydd a phocedi bach o goetiroedd gwlyb, hen wrychoedd, sy'n gweithredu fel coridorau ar gyfer bwyd gwyllt mewn caeau sydd fel arall yn wael o ran rhywogaethau, coetiroedd hynafol sy'n gartref i gannoedd o rywogaethau gan gynnwys clychau'r gog. Gyda'i gilydd mae'r cynefinoedd hyn yn darparu ar gyfer ein rhywogaethau mwy cyffredin a phrin fel Madfallod y Twyni, llyffantod Cefnfelyn, Ystlumod, Pathewod, Dyfrgwn, Madfallod Dŵr Cribog a miloedd o adar hirgoes ar aber Afon Dyfrdwy. Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd trefol o fewn y Sir yn ymgorffori 'mannau gwyrdd' anffurfiol sy'n bwysig i fywyd gwyllt a hamdden. Mae llawer o'r rhain yn waddol hen safleoedd diwydiannol neu waith mwynau sydd wedi datblygu fflora naturiol a sy'n gartref i rywogaethau niferus o drychfilod. Mae Dyffryn Maes Glas, Treffynnon a Pharc Gwepra, Cei Connah yn 'fannau gwyllt' neilltuol o werthfawr.

***Strategaeth a Chynllun Gweithredu Tai Sir y Fflint, 2019-2024***

Ar adeg datblygu'r Cynllun Creu Lleoedd hwn, roedd Strategaeth Tai Sir y Fflint 2025-2030 wrthi'n cael ei datblygu ond heb ei chwblhau felly 2019-24 oedd y strategaeth ddiweddaraf. Mae'r Cyngor wedi nodi tair blaenoriaeth strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a fydd yn eu barn hwy yn darparu'r fframwaith iawn ar gyfer darparu cartrefi, cefnogi pobl a hyrwyddo cynaliadwyedd lle. Y rhain yw:

- Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math iawn o gartrefi yn y lleoliad iawn.
- Blaenoriaeth 2: Rhoi cymorth i sicrhau bod pobl yn byw ac yn aros yn y math iawn o gartref; a
- Blaenoriaeth 3: Gwella ansawdd a chynaliadwyedd ein cartrefi.

Mae blaenoriaethau'r Strategaeth Tai yn cydgyfeirio â'r rheini a bennir yn ein Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Lleol, yn ogystal â'r Cynlluniau Comisiynu Rhanbarthol a Lleol ar gyfer Cefnogi Pobl. Mae'r dogfennau strategol hyn wedi cael eu datblygu ar y cyd â'i gilydd er mwyn sicrhau bod eu gwaith yn ategu'i gilydd a'r egwyddorion gweithredu yn cael eu rhannu yn cynnnwys;

- Rhwystro digartrefedd;
- Bod, ac y bydd, llety addas ar gael i bobl sydd, neu a allai ddod, yn ddigartref;
- Bod cymorth boddhaol ar gael i bobl sydd, neu allai ddod, yn ddigartref.

Ffeithiau allweddol ar ansawdd tai:

- Mae 10.1% o anheddau a feddiennir yn y sector preifat ledled Sir y Fflint yn cynnwys aelwyd sydd mewn tlodi tanwydd
- Mae 1.6% o anheddau preifat heb wres canolog
- Mae chwarter yr anheddau a rentir yn breifat yn methu'r safonau cartrefi gweddus
- Gelli cywiro 30% o beryglon oerfel gormodol gydag ymyrraeth a fydd yn cael ei wrthbwyso gan arbedion i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol o fewn un flwyddyn
- Y deiliadau gyda'r ganran uchaf o anfodlonrwydd gyda chyflwr eu heiddo yw stoc tai y Cyngor a stoc a rentir yn breifat (2014)
- Mae'r Cyngor a Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £50m yn Safonau Ansawdd Tai Cymru i wella cyflwr gwael y stoc tai Cymru

Gweledigaeth y Strategaeth Tai yw:

***"Gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol i arwain a darparu'r math iawn o dai o ansawdd uchel a'r cymorth mwyaf addas i ddiwallu anghenion tai ein poblogaeth."***

Blaenoriaethau Allweddol

- Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math iawn o gartrefi yn y lleoliad iawn
- Blaenoriaeth 2: Rhoi cymorth i sicrhau bod pobl yn byw ac yn aros yn y math iawn o gartref
- Blaenoriaeth 3: Gwella ansawdd a chynaliadwyedd ein cartrefi.

***Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030, Cynllun Mabwysiedig, 24 Ionawr 2023***

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn dilyn ymlaen o'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd (2000-2015) ac mae'n ymwneud â'r cyfnod 2015 i 2030. Mae'r Cyngor wedi paratoi ei Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn unol â Chanllawiau a Pholisi Cynllunio cenedlaethol. Mae'r cynllun yn cynnig fframwaith cynllunio clir ar gyfer defnydd tir i ymdrin â phroblemau a chyfleoeddd sy'n wynebu Sir y Fflint, gan anelu i roi sicrwydd i'w chymunedau a sail gadarn a chyson ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio.

Nod y cynllun yw galluogi cyflawni datblygu cynaliadwy mewn modd sy'n cydbwyso'r holl ofynion Llesiant mewn ffordd synhwyrol a chymesur, er mwyn galluogi'r datblygiad iawn i ddigwydd yn y lleoedd iawn.

Mae polisïau (strategol a manwl) a chynigion y cynllun wedi eu trefnu mewn modd thematig sy'n cynnwys y canlynol:

- Creu Lleoedd a Chymunedau Cynaliadwy
- Cefnogi Economi Lewyrchus
- Diwallu Anghenion Tai
- Gwerthfawrogi'r Amgylchedd.

Y prif heriau cynllunio a nodir ynddo yw:

- Anghenion poblogaeth sy'n tyfu ond yn heneiddio ac sydd ag anghenion tai penodol, ac angen cyffredinol am dai mwy fforddiadwy
- Yr angen i sicrhau cyflenwad o lafur medrus amrywiol i fodloni uchelgeisiau twf swyddi ac economaidd y Sir
- Economi cryf a ffyniannus, sy'n sbardun ac yn ganolfan ar gyfer yr is-ranbarth economaidd ehangach
- Cefnogi seilwaith, gan gynnwys tai, i ddiwallu'r uchelgais twf hwn
- Cymysgedd a math o dai i fodloni ystod o anghenion a dyheadau cymunedau
- Yr angen i leoli datblygiad yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy, ac iddo fod yn ddichonadwy a danfonadwy
- Yr angen i ddatblygu rhywfaint mewn cymunedau gwledig i helpu cadw bywiogrwydd y gymuned
- Datblygiad sy'n swyddogaethol, wedi'i ddylunio'n dda, yn lleihau ei ôl-troed carbon, a lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd
- Cymunedau cynaliadwy a chydlynol, gan gydnabod rôl a swyddogaeth ein hardal drefol, trefi marchnad, pentrefi, a phentrefannau gwledig yn yr hierarchaeth anheddiad cynaliadwy, a'r berthynas rhyngddynt.

- Gwell seilwaith trafnidiaeth a chyfleusterau sy'n cynnig gwell ddewis moddol a hygyrchedd at gymunedau
- Amddiffyn a chyfoethogi ein hamgylchedd naturiol, adeiledig, a hanesyddol, ei gymeriad, ansawdd ac amrywiaeth, a nodweddion arbennig lleol
- Cyfleoedd i bobl ein cymunedau arwain bywydau actif, iach, saff a diogel.

Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol yw:

***"Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud â phobl a lleoedd. Mae'n ceisio creu cydbwysedd cynaliadwy a pharhaol rhwng anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Sir y Fflint a'i thrigolion, trwy wireddu ei safle unigryw fel porth rhanbarthol ac ardal ar gyfer buddsoddi economaidd, gan warchod ei threftadaeth hanesyddol ddiwylliannol gref a'i hamgylchedd naturiol."***

Caiff Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol eu diffinio fel a ganlyn:

### Gwella Bywyd Cymunedol

1. Sicrhau bod gan gymunedau fynediad at gymysgedd o wasanaethau a chyfleusterau, fel addysg ac iechyd, i alluogi bywyd y gymuned i ffynnu, a diwallu anghenion grwpiau penodol fel yr henoed.
2. Annog datblygiad canol trefi ac ardaloedd fel canolbwynt adfywio.
3. Hyrwyddo system drafnidiaeth gynaliadwy a saff sy'n lleihaud dibyniaeth ar geir.
4. Hwyluso darpariaeth seilwaith trafnidiaeth, cyfleusterau a chymdeithasol / cymunedol angenrheidiol.
5. Hwyluso rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy.
6. Diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg.
7. Creu lleoedd sy'n saff, hygyrch ac sy'n annog a chefnogi iechyd da, llesiant a chydraddoldeb.

### Cyflawni Twf a Ffyniant

1. Hwyluso twf ac amrywiaeth yn yr economi leol a chynnydd mewn cyflogaeth medrus a gwerth uchel mewn sectorau allweddol.
2. Cefnogi datblygu sy'n gosod Sir y Fflint fel lle cystadleuol yn economaidd ac yn sbardun economaidd i'r is-ranbarth.
3. Ailbwrpasu rôl a swyddogaeth canol trefi Sir y Fflint yn gyrchfannau bywiog ar gyfer siopa, hamdden, diwylliant, dysgu, busnes a thrafnidiaeth.
4. Sicrhau bod gan Sir y Fflint y nifer, maint a math cywir o dai newydd i gefnogi datblygiad economaidd a diwallu ystod lawn o anghenion tai.
5. Sicrhau bod datblygu tai yn digwydd mewn lleoliadau cynaliadwy lle bo safleoedd yn ddichonadwy ac ymarferol ac yn cael eu cefnogi gan y seilwaith cymdeithasol, amgylcheddol a ffisegol angenrheidiol.
6. Hyrwyddo a chyfoethogi economi wledig a chynaliadwy.
7. Cefnogi darpariaeth twristiaeth gynaliadwy.

### Gwarchod yr Amgylchedd

1. Lleihau achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd a llygredd.
2. Cadw a chyfoethogi asedau amgylcheddol ansawdd uchel Sir y Fflint gan gynnwys tirwedd, treftadaeth ddiwylliannol ac amgylcheddau naturiol ac adeiledig.
3. Cynnal a chyfoethogi rhwydweithiau seilwaith gwyrdd.
4. Hyrwyddo dylunion da sy'n unigryw yn lleol, yn arloesol ac yn sensitif i leoliad.
5. Cefnogi diogelu adnoddau naturiol fel dwr a'u defnyddio'n gynaliadwy a hyrwyddo datblygiad tir llwyd.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi cyfres o bolisïau cynaliadwy y mae angen i'r Cynllun Creu Lleoedd ymateb iddynt. Y rhain yw:

- Creu Lleoedd a Chymunedau Cynaliadwy
- Cefnogi Economi Lewyrchus
- Diwallu Anghenion Tai
- Gwerthfawrogi'r Amgylchedd.

Mae creu lleoedd cynaliadwy yn egwyddor bwysig sy'n cadarnhau strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol. Caiff lleoedd cynaliadwy eu creu o gydbwysedd o nodweddion cyfeillgar i'r amgylchedd, bywiog yn economaidd, a chynhwysol yn gymdeithasol, ac iddynt y nod o fod o fudd i genedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r trigolion presennol.

Nod lleoedd o'r fath yw eu bod yn cyflawni'r canlynol:

- Diwallu anghenion holl aelodau eu cymuned;
- Cynnig mynediad at gyfleoedd;
- Sicrhau bod gwasanaethau, seilwaith a chymorth ar gael;
- Darparu amrywiaeth o dai fforddiadwy o ansawdd uchel,
- Eu bod yn gydnerth ac yn gallu addasu i newid;
- Cynnwys datblygiadau a llecynnau o ansawdd uchel;
- Unigryw gyda synnwyr o le;
- Deniadol, cymdeithasol, hygyrch, gweithgar, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar;
- Wedi ystyried materion byd-eang a lleol;
- Ystyried y cyd-destun, swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle datblygu a'i amgylcheddau ehangach.

### PE7: Hierarchaeth Manwerthu

Bydd datblygiadau manwerthu, hamdden a masnachol yn cael eu cyfeirio tuag at yr hierarchaeth ganlynol fel y nodir ar y map cynigion.

| Haen | Canolfannau | |
|---|---|---|
| Canol Trefi | Bwcle, y Fflint, Treffynnon, Yr Wyddgrug, Shotton | |
| Canolfannau Ardal | Cei Connah, Queensferry, Saltney | |
| Canolfannau Lleol | Bagillt – Stryd Fawr | Garden City – Welsh Road |
| | Brychdyn – Broughton Hall | Maes Glas – Parade Penarlâg |
| | Rd Bwcle – Lane End | Treffynnon - Holway Yr Hôb |
| | Caergwrle Caerwys | Mostyn – Maes Pennant |
| | Cei Connah – Thornfield | Mynydd Isa – The Square |
| | Ave Cei Connah – | Penyffordd / Penymynydd |
| | Englefield Ave Cei Connah | Treffynnon – Aston Park Road |
| | – Ffordd Llanarth Ewlo – | Treffynnon - Central Drive |
| | The Highway | |
| | Ewlo – Holywell Road | |
| | Fflint – Northop Road | |
| | Ewloe – The Highway | |
| | Ewloe – Holywell Road | |
| | Flint – Northop Road | |

Bydd cynigion sy'n addas o ran graddfa a math ar gyfer canolfan benodol yn cael eu cefnogi.

Mae rhai polisïau penodol seiliedig ar le a amlinellir yn cynnwys:

### STR9: Canolfannau Manwerthu a Datblygiad

Bydd datblygiadau manwerthu yn cael eu harwain gan HierarchaethManwerthu'r Sir. Bydd y dull yma yn amcanu at gynnal a gwella bywiogrwydd,hyfywedd ac apêl canolfannau tref, rhanbarth a lleol Sir y Fflint, gan gefnogidarparu cyfleusterau manwerthu cyfleus, swyddfeydd, hamdden, adloniant adiwylliannol priodol.

Canolfannau manwerthu fydd y lleoliad a ffafrir ar gyfer dibenion manwerthu,hamdden, swyddfeydd, cymdeithasol newydd ac eraill mewn canol trefi. Byddangen i ddatblygiadau mawr gydymffurfio ag egwyddorion 'canol trefi yn gyntaf'Polisi Cynllunio Cymru o ran Prawf Angen, Prawf Dilyniannol ac Asesiad o Effaith Manwerthu.

O ystyried rôl gyfnewidiol canol trefi, mae Canol Trefi ac Ardaloedd Siopa Sylfaenol yn cael eu diffinio drwy gydnabod yr angen am beth hyblygrwydd o ran cynnal meddiannaeth a nifer ymwelwyr, ac er mwyn galluogi defnyddio dull wedi ei deilwra ar gyfer pob canolfan gan ystyried gwiriadau iechyd, uwch gynlluniau a chynlluniau gweithredu.

## LEFEL TREF

### *Diweddariad Astudiaeth Gwmpasu Dichonoldeb Hen Faddondai Bwcle*

Roedd Astudiaeth Gwmpasu Dichonoldeb Hen Faddondai Bwcle yn dasg ar y cyd rhwng Cyngor Tref Bwcle a Thîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint, rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2024, gydag arian gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (SPF).

### Nod yr astudiaeth

Gan ddefnyddio amrywiol ddulliau ymgynghori cyhoeddus, nod yr astudiaeth oedd deall graddau'r diddordeb a'r brwdfrydedd lleol ynghylch dyfodol Hen Adeilad Baddondai Bwcle. Mae dyfodol yr adeilad yn ddibynnol ar ddigon o bobl leol yn rhoi o'u hamser a'u brwdfrydedd i'w ddatblygu fel prosiect adnewyddu. Os oes digon o gefnogaeth leol yna gallai Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint, y Cyngor Tref ac Ymddiriedolwyr yr adeilad weithio gyda'r gwirfoddolwyr hyn i ddatblygu dyfodol cynaliadwy i'r adeilad.

### Ymateb cyhoeddus i'r astudiaeth

Yn dilyn ymgyrch cyfryngau cymdeithasol wedi'i thargedu, derbyniodd yr arolwg astudio ar-lein ymatebion gan gyfanswm o 1554 o bobl, gyda 1083 o'r rheini yn dweud eu bod yn drigolion Bwcle. Cafwyd presenoldeb da mewn dau ddigwyddiad ymgynghori personol a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Hawkesbury a Llyfrgell Bwcle ym mis Gorffennaf a buont yn gynhyrchiol gyda 27 o'r rheini a oedd yn bresennol yn cwblhau 'Ffurflenni Cofrestru Diddordeb yn y Gweithgor '.

### Canfyddiadau'r astudiaeth


Dywedodd ychydig dros 90% [n=1298] o gyfranogwyr yr astudiaeth fod adfer hen adeilad Baddonau Bwcle yn bwysig i Fwcle, gyda 71% [n = 1025] yn nodi ei fod yn bwysig iawn. Rhoddodd 196 o gyfranogwyr astudiaeth (168 ar-lein a 28 yn bersonol) fanylion cyswllt gwirfoddoli i fod yn rhan o ddatblygu prosiect ar gyfer adeilad Hen Faddondai Bwcle.

### Camau nesaf/Rhagor o wybodaeth

Yn dilyn yr ymateb llethol o gadarnhaol gan y cyhoedd i'r astudiaeth, mae pawb o'r rhanddeiliaid fu'n cymryd rhan yn awyddus i gynnal y lefel o frwdfrydedd a momentwm lleol a rhoi cymorth ar frys i'r gymuned ddatblygu prosiect ar gyfer yr adeilad. Gan ddefnyddio cronfeydd SPF, mae'r Tîm Adfywio wedi caffael gwasanaethau Do-Well (UK) Cyf i sefydlu gweithgor cymunedol effeithiol i ddatblygu prosiect sy'n ddigonol ar gyfer cais am gyllid cyfalaf. Mae Do-Well wedi gweithio gyda'r grŵp lleol o wirfoddolwyr rhwng mis Medi 2024 a mis Mawrth 2025. Bydd gwaith parhaus i archwilio dewisiadau dichonadwy ar gyfer yr adeilad, a chyflawni mwy o waith archwilio yn parhau o wanwyn 2025 ymlaen.

Mae tasgau allweddol yn cynnwys:

- Comisiynu arolygon / gweithiau technegol
- Penodi tîm dylunio: pensaer / syrfëwr meintiol i ddatblygu camau 1-2 RIBA fel cychwyn.
- Astudiaeth Ddichonoldeb ac Arfarniad Opsiynau – fel arfer caffael ymgynghorydd allanol.
- Gweithiau arfarnu costau amlinellol,
- Canfod ffynonellau ariannu – cyd-drafod â chyllidwyr.
- Codi a sicrhau cyllid cyfatebol (fel arfer o leiaf 30% o gyfanswm gwerth y prosiect).
- Datblygu dyluniadau/costau ymhellach i RIBA camau 3-5.
- Cael caniatâd / cymeradwyaeth statudol ee cymeradwyaeth cynllunio gan Adran Gynllunio Cyngor Sir y Fflint.
- Cynllun Busnes – fel arfer trwy gaffael ymgynghorydd allanol.
- Sefydlu strwythur priodol (ee Cwmni Budd Cymunedol) i reoli'r prosiect/ased yn ystod y cyfnod cyllido a thu hwnt iddo.
- Datblygu cynllun cynaliadwyedd/ strategaeth ymadael y tu hwnt i'r cyfnod a ariennir.
- Datblygu a chyflwyno cais am gyllid – angen amrywiaeth o ddogfennau tystiolaeth
- Sicrhau cyllid – gan gynnwys cyd-drafod parhau â chyrff ariannu.



### *Strategaeth Buddsoddi Bwcle, 2017*

Comisiynwyd y Strategaeth Buddsoddi i brofi graddau galw'r farchnad a'r diddordeb ym Mwcle a pharatoi deunydd marchnata i hyrwyddo cyfleoedd Bwcle.

### Marchnad Eiddo

Canolbwynt siopa cyfleustra a groses yw canol tref Bwcle yn bennaf, ond mae hefyd yn darparu swyddogaeth bwysig o ran gwasanaethau lleol i'w ddalgylch o amgylch gan gynnwys trin gwallt, atgyweirio nwyddau, gwerthwyr tai, swyddfa bost, banc a chyfreithwyr.

Mae canol y dref wedi gweld amryw o newidiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a'r rheini'n rhai cadarnhaol a negyddol i'r dref. Mae denu brandiau allweddol fel Aldi a Costa Coffee ac adnewyddu prydles hirdymor Iceland yn ddatblygiadau cadarnhaol iawn i'r ganolfan. Fodd bynnag, mae'r rhain wedi cael eu gwrthbwyso gan golli'r Ganolfan Iechyd, cau Budgens a chyflwyno taliadau parcio ceir, sydd wedi cyfuno i leihau nifer yr ymwelwyr yng nghanol y dref.

Yr adborth gan asiantau eiddo oedd mai marchnad fach yw Bwcle, sy'n ei chael hi'n anodd denu rhagor o denantiaid manwerthu, yn enwedig canghennau siopau mawr. Er y cydnabuwyd bod hanfodion canol y dref a'i dalgylch yn gadarn, mae cystadleuaeth fwy gerllaw yn golygu nad Bwcle yw'r lleoliad a ffefrir ar gyfer gweithredwyr manwerthu. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd swyddogaethau heblaw manwerthu Bwcle i'w bwysigrwydd cyffredinol yn y dyfodol.

Mae'r farchnad eiddo preswyl yn y dalgylch yn perfformio'n gadarn, gyda throsiant rhesymol o anheddau a buddsoddiad gan y sector datblygu yn darparu anheddau newydd o fewn dalgylch canol y dref.

O ran marchnata canol tref Bwcle, y pwyntiau i'w pwysleisio ynghylch marchnad eiddo Bwcle ddylai fod:

- Y rhestr o brandiau cenedlaethol a rhanbarthol;
- Datblygiadau diweddar Aldi a Costa Coffee ac adnewyddu prydles Iceland;
- Mae unedau ar gael i symud iddynt ar unwaith, gan gynnwys yng Nghanolfan Siopa Bwcle ac ar hyd y stryd fawr;
- Mae bylchau penodol yn y farchnad ym Mwcle, y gallai busnesau newydd fanteisio arnynt, yn cynnwys siopau nwyddau rhad, siopau bwyd arbenigol a chyfleoedd hamdden (mae campfa sydd wedi gweld dyddiau llawer gwell yn gweithredu o ganolfan siopa Bwcle);
- Mae'r dalgylch o gwmpas yn tyfu, gyda datblygiadau preswyl presennol yn ychwanegu aelwydydd sy'n agos at ganol tref Bwcle.

## Dewisiadau i Bwcle

Archwiliwyd opsiynau ar gyfer adnewyddu ac adfywio Bwcle, gan gydnabod yr angen i gynyddu atyniad canol y dref i ddefnyddwyr a busnesau. Paratowyd hyn o fewn cyd-destun diffyg diddordeb gan ddarpar frandiau manwerthu cenedlaethol. Felly, roedd yr opsiynau a archwiliwyd yn canolbwyntio ar ddull 'o'r gwaelod i fyny'.

Mae cynlluniau siopa'n lleol yn helpu i ailgysylltu'r boblogaeth leol â'u stryd fawr draddodiadol, gan geisio tynnu rhywfaint o wariant oddi wrth barciau manwerthu a siopa ar-lein. Mae'n bwysig bod Bwcle yn hyrwyddo ei hunaniaeth ei hun a bod stori gadarnhaol i annog pobl leol yn ôl i ganol y dref.

Mae amrywiaeth o ffyrdd o ddefnyddio safleoedd gwag dros dro wedi cael eu harchwilio, sy'n cynyddu gweithgarwch cyffredinol canol y dref, yn creu delwedd fwy cadarnhaol nag unedau gwag, yn annog grwpiau cymunedol i ganol y dref, yn caniatáu i entrepreneuriaid brofi'r farchnad a darparu lefel fach o incwm i landlordiaid.


Bydd cynyddu'r rhesymau dros ddod i Bwcle yn bwysig er mwyn sicrhau ei gynaliadwyedd hirdymor. Er y bydd yn parhau i fod yn ganolfan siopa, mae pwysigrwydd manwerthu yn debygol o wanhau yn y blynyddoedd i ddod, gyda dibenion heblaw manwerthu, megis gwasanaethau, bwyta allan, digwyddiadau a chymdeithasu yn dod yn fwyfwy pwysig.

Felly, mae opsiynau i gynyddu economi'r nos wedi cael eu harchwilio, gan gynnwys annog perchnogion bwytai lleol i sefydlu presenoldeb ym Mwcle. Ar ben hynny, gallai Bwcle fanteisio ymhellach ar y Tivoli, ased cerddorol allweddol i ranbarth gogledd Cymru.

## Argymhellion

Y prif argymhellion oedd:

1. Ehangu rhesymau dros fynd i Bwcle
2. Cefnogi busnesau presennol
3. Canolbwyntio ar gynyddu gweithgarwch yn ardal bresennol canol y dref, yn hytrach nag ehangu'r ardal
4. Symud ymlaen gyda chynnig Grŵp Cynefin
5. Hyrwyddo datblygiad defnydd cymysg ar gyfer y tir gwag i'r dwyrain o Ffordd Precinct
6. Datblygu cynllun hirdymor ar gyfer adeilad y Baddonau Nofio
7. Datblygu rhaglen o hyrwyddo Canol Tref Bwcle
8. Adolygu lefel yr adnoddau a'r gefnogaeth i Reolwr Canol Tref Bwcle



### *Papur Trafod Canol Tref Bwcle, 2015*

Yn 2015 sefydlodd Cyngor Tref Bwcle weithgor i archwilio'r opsiynau ar gyfer symud ymlaen i adfywio canol y dref. Mae'r papur trafod hwn yn cyfleu elfennau allweddol y ddadl a gellir ei ddefnyddio i ddatblygu'r drafodaeth o fewn y Cyngor Tref ymhellach, a chyda rhanddeiliaid allweddol. Roedd yn ceisio amlinellu cyfleoedd y dref ac yn benodol nodwyd yr angen i ymwneud yn llwyddiannus â thirfeddianwyr a'r farchnad er mwyn ennyn diddordeb mewn buddsoddi yn y dref.

Ers i'r Uwchgynllun gael ei gynhyrchu yn 2011 bu nifer o newidiadau ym Mwcle, rhai yn gyson â'r Uwchgynllun, ac eraill yn mynd ar drywydd gwahanol iddo.  Y cyfle fel rhan o'r papur hwn yw nodi'r newidiadau hyn i gyflwyno cyd-destun diwygiedig Adfywio a Buddsoddi Canol Tref Bwcle.

Mae yna sgwâr newydd "amlbwrpas wedi'i adnewyddu a all wella estheteg y dref a chynnwys digwyddiadau pan na chaiff ei ddefnyddio fel maes parcio arhosiad byr i siopwyr. Mae cyflawni'r sgwâr yn fuddsoddiad ariannol sylweddol i'r parth cyhoeddus sy'n costio tua £190,000 gan gynnwys ffioedd adeiladu, dylunio a chyflawni." Roedd gwelliannau eraill i'r parth cyhoeddus yn cynnwys ychwanegu meinciau yn ddiweddar ar hyd Ffordd Brunswick.

Roedd y Papur Trafod a gwblhawyd yn flaenorol hefyd wedi nodi bod dyheadau i ddod â'r adeilad yn ôl i ddefnydd i ddibenion y gymuned.





## *Uwchgynllun Canol Tref Bwcle, 2011*

Yn 2011 cynhyrchwyd Uwchgynllun Canol Tref ar gyfer Bwcle sy'n tynnu sylw at y potensial ar gyfer newid yn y dref ac sy'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu. Mae'r uwchgynllun yn cynnwys cynigion uchelgeisiol, a fyddai wedi cael eu hwyluso'n bennaf gan Gyngor Sir y Fflint fel tirfeddiannwr allweddol, ynghyd â chefnogaeth perchnogion tir preifat.

Nodir tair elfen graidd o fuddsoddi a gwella yn y ddogfen i helpu i gyflawni'r uwchgynllun. Y rhain yw:

- "Canolfan fanwerthu wedi'i hadnewyddu – yn canolbwyntio ar estyniad o'r ganolfan siopa bresennol gydag archfarchnad angor newydd gyda datblygiad defnydd cymysg pellach ar ddwyrain Precinct Way a fydd yn fwy cyfeillgar i gerddwyr;
- Canolbwynt cymunedol newydd – yn canolbwyntio ar hen adeilad Baddondai Bwcle, swyddfeydd y Cyngor Tref a chyfleuster siop un stop newydd ar safle Gorsaf yr Heddlu;
- Prif lwybr gwell yng nghanol y dref – sy'n cysylltu'r ddwy ganolfan weithgareddau atodol hyn, rhaglen gydgysylltiedig o welliannau amgylcheddol a threfol yn canolbwyntio ar hyd Ffordd Brunswick ac yn canolbwyntio ar sgwâr newydd i'r dref wedi'i gynllunio o amgylch Cofeb Rhyfel Bwcle ar safle newydd."

Mae cynllun gweithredu'n mynd law yn llaw â dogfen yr Uwchgynllun ac yn tynnu sylw at gamau allweddol sydd eu hangen i symud ymlaen â'r uwchgynllun. Mae'r partner arweiniol yn cael ei nodi er y bydd yn hanfodol gweithio mewn partneriaeth yn y rhan fwyaf o achosion. Rhoddir asesiad i'r flaenoriaeth a'r raddfa amser sy'n gysylltiedig â phob un o'r gweithredoedd. Camau blaenoriaeth uchel yw'r rhai yr ystyrir eu bod bwysicaf wrth symud ymlaen i gyflawni elfennau allweddol yr uwchgynllun.

Mae gweithgarwch datblygu dilynol ym Mwcle wedi gwyro rhywfaint oddi wrth fwriadau Uwchgynllun 2011, yn fwyaf nodedig lleoliad yr archfarchnad newydd, sydd, yn hytrach na bod o fewn y ganolfan estynedig, (y siop Aldi) wedi lleoli ymhellach i'r de. Nid yw bwriadau'r Uwchgynllun ar gyfer canolbwynt cymunedol newydd wedi'u cyflawni eto ac mae'r siopau pellach arfaethedig i'r dwyrain o Precinct Way yn dal heb eu datblygu.

# PROFFIL CYMUNEDOL AC ECONOMAIDD

### Poblogaeth

Mae 19,703 o bobl yn byw yng Nghymuned Bwcle

(Cyfrifiad 2021)

### Dosbarthiad Oed

Mae Bwcle â chyfran is na chyfartaledd Cymru o unigolion 0-19 oed (21.8% o gymharu â 22.3%). Yn debyg i'r hyn a welir yn nhrefi eraill Sir y Fflint mae Bwcle yn dangos gostyngiad bach yn y nifer o unigolion yn y grwp oedran 20-34 (17.1%), y gellir efallai ei briodoli i allfudo pobl ifanc mewn oedran gweithio, fel yr awgrymwyd yn anecdotaidd. Mae'r boblogaeth 50-64 oed ym Mwcle (20.6%) yn unol â chyfartaledd Cymru (20.5%), ac mae gan y dref yr un gyfran â chyfartaledd Cymru o unigolion 65 oed a throsodd hefyd (21.3%).

### Iaith

Mae canrannau sylweddol is o drigolion Bwcle yn gallu darllen Cymraeg (10.2%), siarad Cymraeg (10.1%) ac ysgrifennu Cymraeg (8%) na'r canrannau ar gyfer Cymru gyfan (17.3%, 17.8%, a 15.2%).

### Tai

Mae'r gyfran o deuluoedd sy'n berchen eu cartrefi ym Mwcle (73.2%) yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru (66.1%), a chyfartaledd Cymru a Lloegr (61.6%). Mae gan y dref gyfran is o deuluoedd sy'n byw mewn llety rhent cymdeithasol (11.6%) o gymharu â Chymru gyfan (16.5%) a Chymru a Lloegr (17.1%) ac mae ganddi gyfran is o deuluoedd mewn llety rhent preifat ar 14.7% o gymharu â Chymru gyfan ar 17.0% a Chymru a Lloegr ar 20.3%.

### Cerbyd

Mae'r gyfran o aelwydydd heb gar ym Mwcle (13.7%) yn sylweddol is na Chymru gyfan (19.4%) a Chymru a Lloegr (23.3%). Gellir priodoli hyn i angen i deithio yn hytrach na chyfoeth cymharol. Mae myndiad uwch na'r cyfartaledd i fwy na 2 gar neu fan (34%) o gymharu â chyfartaledd Cymru (27%).

### Troseddu

Nid yw canol tref Bwcle'n cael ei daro gymaint â'r rhan fwyaf o droseddau o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol. Troseddau treisgar a rhywiol ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol yw'r troseddau mwyaf cyffredin gyda 18 o ddigwyddiadau yr un o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol o 40 a 20, mewn un flwyddyn.

## Cymwysterau

Mae Bwcle â lefelau is o unigolion 16+ heb ddim cymwysterau (16.4%) o gymharu â chyfartaledd Cymru (19.9%), gyda 16.4% o'r trigolion dros 16 oed ym Mwcle â chymwysterau Lefel 2 fel eu lefel cyrhaeddiad uchaf o gymharu â 14.4% yng Nghymru gyfan. Mae gan y dref y lefelau uchaf o brentisiaethau fel eu lefel uchaf o gyrhaeddiad (8%) o gymharu â Chymru gyfan (5.6%) a Chymru a Lloegr (5.3%). Mae gan y dref gyfran is o drigolion gyda chymwysterau lefel 4 neu uwch (28%) o gymharu â Chymru gyfan (31.5%). Mae'n bosibl y gellir priodoli hyn i fynediad cyfyngedig at gyfleusterau addysg bellach ac addysg uwch yn Sir y Fflint.

## Gweithgarwch Economaidd

Ymddengys fod cyfran y gweithgar economaidd (ac eithrio myfyrwyr) ym Mwcle (60.2%) yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru (54.4%). Mae Bwcle â chyfran is o unigolion sy'n ddi-waith (3.9%) o gymharu â Chymru gyfan (4.6%), a Chymru a Lloegr (4.9%), gyda 10.7% o'r trigolion hyn yn ddi-waith oherwydd salwch neu anabledd hirdymor.

## Galwedigaethau

Mae'r nifer o drigolion Bwcle sy'n gweithio ar lefelau uwch neu mewn galwedigaethau proffesiynol yn sylweddol is ar 10%, o gymharu â chyfartaledd Cymru ar 18.2%. Mae 17% o boblogaeth waith Bwcle yn ystyried eu hunain fel rhai sy'n gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol yn is na chyfartaledd Cymru (18.2%). Mae 8.8% o'r boblogaeth waith yn Mwcle mewn rolau gweithredu prosesau a pheiriannau o gymharu â 7.9% yng Nghymru gyfan.

## Iechyd

Byddai cyfran uwch o drigolion Bwcle o'r farn fod ganddynt 'iechyd da iawn' (47.7%) na Chymru ar gyfartaledd (46.2%), gyda chyfran is o drigolion Bwcle o'r farn eu bod mewn 'iechyd gwael iawn' (1%) o gymharu â Chymru gyfan (1.7%).

## Teithio

Mae 57% o boblogaeth Bwcle yn teithio llai na 20km i'r gwaith o gymharu â 49% yng Nghymru ar gyfartaledd. Dim ond 18.5% o'r boblogaeth waith sy'n teithio llai na 5km i fynd i'r gwaith ym Mwcle sy'n dangos fod llai o bobl ym Mwcle yn gallu neu'n dewis gweithio o gartref. Mae'r rheini sy'n teithio llai na 2km (sef byw a gweithio ym Mwcle) yn llai na'r cyfartaleddau cenedlaethol, gan awgrymu bod llai o gyfleoedd cyflogaeth gerllaw ym Mwcle.

# CYNNIG MASNACHOL AC EIDDO GWAG

Mae'r stryd fawr yn gryno, yn cynnig amrywiaeth o siopau y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fanwerthwyr annibynnol neu leol, mae ambell i enw cenedlaethol fel Spar a Rowlands yn bresennol. Mae adran Ffordd yr Wyddgrug o'r stryd fawr yn cynnwys nifer o ddosbarthiadau defnydd A1 ac A3 (gweler allwedd) ynghyd â dwy dafarn, yn ogystal â'r swyddfeydd y Cyngor Tref ac adeilad yr Hen Lyfrgell. Ychydig iawn o unedau gwag sydd ar gael, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y data masnachol.

Mae Canolfan Siopa Bwcle yn cynnwys 19 o siopau ac ychydig dros 30,000 troedfedd sgwâr o arwynebedd manwerthu. Mae tenantiaid yn cynnwys brandiau cenedlaethol mewn siopau masnachol ac elusennol; Iceland, Savers, Barnardos, Tenovus a Mencap, gydag Iceland y manwerthwr mwyaf. Mae yna hefyd rai manwerthwyr lleol llai gan gynnwys Siop Fferm Bistre, sy'n boblogaidd ac yn cael cefnogaeth dda.

Mae'r ganolfan siopa yn llawn tuag at y lle parcio ceir yn y cefn gyda'r rhan fwyaf o'r unedau gwag wedi'u lleoli tuag at y stryd fawr sydd ar gyfer cerddwyr. Mae'r ganolfan hefyd yn

### *Oriau Agor Masnachol*

Mae'r stryd fawr ar waith rhwng 9am a 6pm gyda'r siopau bwyd mwyaf yn parhau i fod ar agor gyda'r nos.

Mae un bwyty ar y stryd fawr, ynghyd â dwy dafarn a chynnig amrywiol o ran cludfwyd gydag amseroedd cau amrywiol. Mae'r Tivoli Venue yn agos ac yn cynnig adloniant amrywiol gyda'r nos.

### *Gwerthoedd Ardrethol*

Rydym wedi cymharu'r ardrethi sylfaenol a fabwysiadwyd ym Mwcle â lleoliadau cystadleuol cyfagos lle mae meddianwyr yn debygol o ystyried a chymharu wrth ystyried gweithredu busnes yn yr ardal. Mae'r ardrethi sylfaenol a ddefnyddir ar draws y tri lleoliad yn weddol gyson, gyda'r Wyddgrug â'r ystod uchaf o ystyried ei ddeinameg marchnad gryfach. Mae'r dystiolaeth gymaradwy a nodwyd yn amlygu bod lefel sylweddol o'r eiddo masnachol yn is na'r trothwy o £12,000 lle mae meddianwyr yn elwa o ychydig o ryddhad ardrethi busnes ac felly, mae lleoedd yn dod yn llawer mwy fforddiadwy a hygyrch.

Gwnaethom hefyd gofnodi symudiad ardrethi rhwng asesiad 2017 a'r asesiadau amwyaf diweddar yn 2023 a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Ar gyfer Bwcle, mae'n ymddangos bod ardrethi'n gostwng ychydig, sy'n adlewyrchu perfformiad gwanach y segment o'r farchnad dros y 5 mlynedd diwethaf.

| | Manwerthu / Troedfedd Sgwâr ITZA | Swyddfeydd / Troedfedd Sgwâr |
|---|---|---|
| Bwcle | £17-£19 | £5.5-£9 |
| Treffynnon | £13-£18 | £5.5-£8 |
| Shotton | £15-£18 | £5.5-£8 |
| Yr Wyddgrug | £17-£28 | £6-£10 |
| Y Fflint | £15-£18 | £5.5-£8 |

Mae'r craidd manwerthu wedi'i ganoli o amgylch Ffordd Brunswick a Chanolfan Siopa Bwcle, sydd hefyd oddi ar Heol Brunswick. Mae'r meddianwyr yn bennaf ar gyfamodau lleol neu ranbarthol, gyda rhai siopau cenedlaethol wedi'u gwasgaru. Yn union i'r de o Ganolfan Siopa Bwcle mae Iceland ac ar draws y maes parcio o'r Ganolfan Siopa mae Aldi, a agorodd yn 2015 ac sy'n rhannu mynedfa a maes parcio gydag Iceland oddi ar The Precinct Way lle mae Home Bargains gyferbyn.

Mae'r ardaloedd cyflogaeth wedi'u cyfyngu i ddwy brif ardal oddi ar Standard Road a Brookhill Way (Ystad Ddiwydiannol Pinfold), gydag Ystad Ddiwydiannol Pinfold y mwyaf o'r ddau. Mae'r farchnad swyddfa yn gyfyngedig iawn ac yn unol â'r hyn y gellid ei ddisgwyl o farchnad leol.

### *Rhenti Busnes a Chymariaethau*

Ychydig iawn o gymariaethau a oedd ar gael ym Mwcle ar gyfer data, felly dibynwyd i raddau helaeth am dystiolaeth o dref gyfagos yr Wyddgrug. Mae hyn yn rhannol oherwydd mai cymharol ychydig o drafodion sydd wedi digwydd. Mae'r Wyddgrug yn farchnad manwerthu sy'n perfformio'n gryfach, gyda Chanolfan Siopa Daniel Owen a Stryd Fawr yr Wyddgrug yn hawlio gwerthoedd rhent o £ 28-35 / y droedfedd sgwâr ITZA.

Mae siopau a gaiff eu gosod ym Mwcle wedi eu lleoli'n bennaf yng Nghanolfan Siopa Bwcle a Ffordd Brunswick. Ychydig iawn yw'r dystiolaeth sydd ar gael, fodd bynnag, nodwyd nifer o osodiadau i ddangos ystod o renti. O'u dadansoddi, dangosodd trafodion manwerthu ystod dynn o rhwng £9-£11/y droedfedd sgwâr ar gyfradd wastad a rhwng £13-£27/y droedfedd sgwâr pan ddadansoddwyd O Ran Parth A (ITZA). Mae'r rhenti ITZA uchaf ym Mwcle a enillir yng Nghanolfan Siopa Bwcle a'r prif graidd manwerthu yn adlewyrchu £20-27 y droedfedd sgwâr.

Mae marchnad swyddfeydd Bwcle yn fach iawn ac yn gyfyngedig i'r galw lleol. Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r stoc wedi'i lleoli uwchben unedau manwerthu neu ambell i adeilad y tu allan i'r dref. Ar ben hynny, mae'r stoc swyddfa yn tueddu i fod yn llai ac wedi'i dyddio heb fawr o apêl i weithredwyr mwy. Yn gyffredinol, dangosodd rhenti swyddfeydd ystod o rhwng £8.40-£12.50 y droedfedd sgwâr, ar draws 3 o gytundebau ac o fewn y 3 blynedd diwethaf. Roedd yr holl dystiolaeth yn dod o dref gyfagos Yr Wyddgrug, heb unrhyw dystiolaeth o osod swyddfeydd o fewn Bwcle ei hun.

Gwelwyd brig yr ystod mewn bloc swyddfeydd modern, a oedd yn hawlio £12.50 y droedfedd sgwâr ac fe'i hystyrir fel y lle am renti uchaf yr ardal. Ar ben arall y sbectrwm, y gyfradd isaf a gafwyd oedd £8.40 y droedfedd sgwâr, a gafwyd am osod swyddfeydd uwchben siop ar Stryd Fawr yr Wyddgrug. Heb ddim ond ychydig o ddatblygiadau swyddfa diweddar yn y rhanbarth hwn, ymddengys bod hyn yn adlewyrchu'r rhan fwyaf o'r stoc yn yr ardal ac yn adlewyrchu cyfraddau eilradd.

I grynhoi, mae rhenti gorau yn y sector hwn mor uchel â £12.50 y droedfedd sgwâr ar gyfer stoc modern sydd â'r safon uchaf o gyfleusterau. Yn gyffredinol, mae swyddfeydd eilradd yn denu gwerthoedd is oddeutu £8-10 y droedfedd sgwâr, ond mae'r union gyfraddau yn dibynnu ar ffactorau fel lleoliad, ansawdd a pharcio ymhlith eraill.

### *Arenillion Masnachol a Chymariaethau*

Mae arenillion masnachol ym Mwcle rywle rhwng 8% a 13%; fodd bynnag, os ydym yn ehangu ein meini prawf chwilio i gynnwys trafodion buddsoddi o leoliadau perthnasol cyfagos, mae'n dechrau dangos ystod llawer tynnach o rhwng 8% a 10%, gydag 8% yn adlewyrchu buddsoddiadau mwy diogel a'r 10% yn adlewyrchu adeiladau mwy hanesyddol gyda chyfamodau gwannach.

Y cytundeb a gyflawnodd yr arenillion uchaf o 13%, oedd y trafodiad diweddaraf a welodd Ganolfan Siopa Bwcle yn newid dwylo drwy ocsiwn ym mis Tachwedd 2022 am £1,625,000. Y rhent ar adeg y gwerthu oedd £210,634 y flwyddyn. Cafodd y ganolfan ei meddiannu gan gymysgedd o fathau o denantiaid ac o'r 30,854 troedfedd sgwâr, roedd 3,510 troedfedd sgwâr yn wag.

Ar ben arall y sbectrwm, cyflawnodd Hibberts Corner arenillion o 8.22%. Mae'r eiddo yn cwmpasu mangre manwerthu aml-osod (i bedwar o wahanol denantiaid) gydag apêl amlwg yn y dref.

Er bod yr Wyddgrug yn perfformio'n well na Bwcle o safbwynt galw gan feddianwyr, mae'r arenillion cyffredinol yn ymddangos yn debyg i Fwcle a marchnad ehangach Sir y Fflint.

Roedd yn ymddangos bod galw buddsoddwyr am Fwcle gan fuddsoddwyr lleol/rhanbarthol yn hytrach na chronfeydd buddsoddi cenedlaethol. Mae cronfeydd buddsoddi mawr yn tueddu i ganolbwyntio o amgylch ardaloedd busnes canolog lle mae marchnadoedd yn cael eu profi'n fwy. Swydd Gaer yw'r farchnad agosaf sy'n debygol o ddenu'r math hwn o fuddsoddiad mewnol.

Rydym wedi gweld nifer cynyddol o fuddsoddwyr lleol/rhanbarthol yn ymuno â'r farchnad trwy Pensiynau Personol Hunanfuddsoddedig. Mae Pensiwn Personol Hunanfuddsoddedig yn caniatáu i fuddsoddwyr brynu adeilad masnachol ac elwa o gynilion treth na fyddent o reidrwydd yn eu cyflawni trwy fuddsoddi mewn eiddo preswyl.

### *Cymysgedd o Ddibenion a Gweithgareddau*

Mae'r siartiau gyferbyn yn dangos y gymysgedd o ddibenion a gweithgareddau o fewn ffin Canol y Dref.


Mae Ffigur 2 a Ffigur 3 yn dangos bod Bwcle yn dilyn tueddiadau'r DU o fod yn gynnig sy'n cael ei arwain gan wasanaethau, gydag iechyd a harddwch, siopau cludfwyd a gwasanaethau proffesiynol eraill sydd wedi'u lleoli yn ardal canol y dref ar 56%. Mae'r rhain i gyd yn fusnesau lleol heb ddim cynrychiolaeth o frandiau rhanbarthol na chenedlaethol. Nid oes banciau cenedlaethol na chymdeithasau adeiladu ar ôl yng nghanol y dref gyda rhai o'r adeiladau hyn naill ai'n cael eu hailbwrpasu neu ar gael i'w gosod. Nid oes patrwm na chlwstwr o gwmpas y math hwn o ddefnydd ac maent i'w gweld yma ac acw ar hyd Ffordd yr Wyddgrug a Ffordd Brunswick ac i mewn i ganolfan siopa Bwcle.

Mae'r cynnig cyfleustra yn cael ei gynrychioli gan nifer o siopau cyfleustra / tybaco / siopau newyddion a rhai siopau bwyd/cynnyrch ffres sy'n cynnwys Aldi, Home Bargains, Iceland, Gerrards the Bakers a Bistre Farm Shop Butchers. Er bod Ffigur 1 yn dangos bod dosbarth defnydd A1 ar gyfer siopau yn gryf, mae'r elfen gymhariaeth o hyn yn wan o ran niferoedd ac ehangder y nwyddau a werthir. Mae Homeware, dodrefn a DIY yn gryf gyda H R Roberts and Sons yn siop deuluol sefydledig yn ogystal â siop Bevans Home and Gardens o fewn y ganolfan. Mae enghreifftiau o siopau cymhariaeth eraill mewn dillad ffasiwn priodas, llyfrau, anrhegion a chardiau ond mae'r rhain yma ac acw ac yn brin o unrhyw gydlyniant. Yr unig frandiau cenedlaethol yw siopau elusen gyda Mencap, Tenovus a Barnardo's wedi'u lleoli yn y ganolfan siopa.

Mae'r cynnig bwyd a diod yn brin o ran amrywiaeth, gyda siopau cludfwyd yn brif segment a gynrychiolir gan Bysgod a Sglodion, Kebab, Pizza a bwyd Indiaidd. Mae un neu ddau o gaffis lleol a bar brechdanau sy'n ymddangos fel petai ganddynt deyrngarwch lleol. Yr unig fwyty yw un Indiaidd ar ben uchaf Ffordd yr Wyddgrug. Mae un dafarn sy'n ymddangos yn fwy fel lle i yfed yn hytrach na lle bwyta allan. Er bod y tywydd yn wael ar adeg yr ymweliad safle, roedd y tywydd yn wael, mae'n amlwg nad oes ehangder nac ansawdd uchel i'r arlwy bwyd a diod a fyddai'n denu pobl leol i ymweld amser cinio neu gyda'r nos ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddosbarthiadau defnydd gweithredol a fyddai'n gorlifo allan i'r parth cyhoeddus agos, gan ddod â gweithgarwch iddo.


Er bod cyfraddau eiddo gwag canol y dref ychydig yn is na chyfartaledd y DU o 14%, ar 13%, mae sawl eiddo gwag ar ôl y llall yn rhan ganol Ffordd yr Wyddgrug, a rhai gwagleoedd amlwg gyda hen adeilad Kwik Save a hefyd nifer o leoedd gwag yn y ganolfan siopa sy'n tueddu i amharu ar atyniad a chydlyniant y cynnig dan do.

Ffigur 1 – Dadansoddiad o Ddefnyddiau Canol y Dref yn ôl Dosbarth Defnydd





Ffynhonnell: Chris Jones Regeneration

Ffigur 2 – Dadansoddiad o'r defnydd a wneir o Ganol y Dref yn ôl segment;




Ffynhonnell: Chris Jones Regeneration

Ffigur 3- Dadansoddiad o'r defnydd a wneir o Ganol y Dref yn ôl gweithgaredd;




Ffynhonnell: Chris Jones Regeneration

## *Strydlun Canol Tref Bwcle*























Source: Chris Jones Regeneration

# DADANSODDIAD O FFRYNTIAD STRYDOEDD

Mae gan ganol tref Bwcle gymysgedd o adeiladau dinesig, treftadaeth a mwy modern. Gall hyn helpu i greu amrywiaeth a chymeriad o fewn stryd, ond nid yw ansawdd y ffryntiadau ar hyn o bryd yn cyfleu delwedd gadarnhaol o'r dref, a fyddai'n ddeniadol ac yn gwahodd defnyddwyr i mewn.

Wrth ddod i mewn o'r gorllewin rydych chi'n cael argraffiadau cyntaf gwael trwy ffryntiadau masnachol gwael yr olwg a safleoedd gwag. Fodd bynnag, ymhellach ymlaen mae nifer o adeiladau Fictorianaidd/dinesig sylweddol sy'n ychwanegu cymeriad i'r stryd ond sydd angen buddsoddiad.

Gellir gweld eiddo mwy modern yn y pen sydd wedi'i led-neilltuo i gerddwyr o Ffordd yr Wyddgrug. Fodd bynnag, nid yw'r parth cyhoeddus dyddiedig yn gwneud fawr ddim i dynnu pobl i mewn. Mae Canolfan Siopa Bwcle yn angori pen dwyreiniol y stryd, ac mae ei golwg sydd wedi dyddio, ffasadau llwm ac uned fawr wag ar y pen, yn dod â'r cymeriad cyffredinol i lawr

- Ffryntiad Stryd o Ansawdd Da
- Ffryntiad Stryd o Ansawdd Gweddol
- Ffryntiad Stryd o Ansawdd Gwael
- Cyfeiriad Traffig
- Ardal wedi'i neilltuo'n rhannol i gerddwyr



## CRYNODEB O 'GIVE MY VIEW'

Fel rhan o'r ymgynghoriad cymunedol, defnyddiodd Cyngor Sir y Fflint y platfform digidol 'Give My View' a hyrwyddwyd drwy ymgyrch cyfryngau cymdeithasol. Cynhyrchodd yr ymgyrch hon:

- 146,407 o argraffiadau
- 25,020 o gyraeddiadau, gyda
- 1,594 o bobl yn clicio ar yr arolwg

Ar ôl clicio ar yr arolwg, cwblhawyd 1143 o arolygon a derbyniwyd 830 o sylwadau agored a oedd yn cefnogi'r dadansoddiad o anghenion lleol a'r blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Creu Lleoedd.

Roedd yr ymgyrch cyfryngau cymdeithasol yn fwyaf effeithiol gyda chynulleidfaoedd mwy aeddfed, gyda'r rhai dros 65 oed yn dangos y lefel uchaf o gymryd rhan, ac yna'r rhai rhwng 55 a 64 oed. Facebook oedd y platfform mwyaf llwyddiannus gydag Instagram yn dod yn ail.




**Un gair cadarnhaol am ganol tref Bwcle ar hyn o bryd**




**Un gair negyddol am ganol tref Bwcle ar hyn o bryd**

**35%** *Pobl yn teimlo bod canol tref Bwcle yn groesawgar*

**17%** *Pobl yn teimlo'n gadarnhaol am yr hyn sydd gan ganol y dref i'w gynnig ar hyn o bryd*

**13%** *Pobl o'r farn fod gan Bwcle gysylltiadau da â gwasanaethau a chyfleusterau lleol*

*Ansawdd bywyd a diogelwch yw'r flaenoriaeth uchaf i drigolion*

### Y prif welliannau i'w gwneud yng nghanol tref Bwcle yw:

| | |
|---|---|
| Eiddo gwag | 79% |
| Gwasanaethau | 63% |
| Parcio | 14% |
| Mwy o wyrddni | 11% |
| Parciau | 8% |
| Palmentydd | 8% |

### Y 3 phrif reswm dros ymweld â chanol tref Bwcle yw:

| | |
|---|---|
| Siopa groser | 70% |
| Gwasanaethau | 40% |
| Cyfarfod teulu a ffrindiau | 16% |
| Gweithio | 8% |
| Dw i'n defnyddio'r mannau cymunedol | 7% |

### Beth yw'r 5 prif beth i fuddsoddi ynddo ar gyfer y dyfodol?

| | |
|---|---|
| Cyfleoedd siopa | 88% |
| Gwelliannau i adeiladau | 41% |
| Digwyddiadau cymdeithasol a chymunedol | 41% |
| Cyfleusterau hamdden | 35% |
| Iechyd a llesiant | 26% |

### Pa mor aml mae pobl yn ymweld â chanol tref Bwcle?

| | |
|---|---|
| Bob dydd | 15% |
| Sawl gwaith yr wythnos | 11% |
| Unwaith yr wythnos | 23% |
| Anaml | 11% |

### Sut mae pobl yn mynd i ganol tref Bwcle?

| | |
|---|---|
| Car | 77% |
| Cerdded | 57% |
| Bws | 3% |

### Pa amser o'r dydd mae pobl yn ymweld?

| | |
|---|---|
| Bore | 42% |
| Amser cinio | 17% |
| Prynhawn | 43% |
| Gyda'r nos | 20% |

### Pa mor hir mae pobl yn aros?

| | |
|---|---|
| Dw i mewn ac allan | 82% |
| Treulio ychydig oriau | 10% |


## Y LLE – CYD-DESTUN A CHYSYLLTIADAU

Mae Bwcle wedi'i leoli ar gadwyn o fryniau rhwng afon Alun ac aber Afon Dyfrdwy tua 6 milltir o'r ffin gyda Lloegr. O'r herwydd mae o fewn pellter cyrraedd agos iawn i ddinasoedd mawr yr ardal, sef Caer i'r dwyrain a Lerpwl i'r gogledd.

Saif y dref ychydig i'r de o'r gyffordd rhwng Gwibffordd Gogledd Cymru a'r A494. I'r dwyrain mae'r wibffordd yn rhoi Caer o fewn taith 20 munud mewn car a Wrecsam 30 munud. I'r gorllewin mae'n cynnig mynediad i'r trefi a'r pentrefi ar hyd arfordir gogledd Cymru. Mae'r A494 yn rhedeg i'r gogledd i'r M53 a Lerpwl, 45 munud mewn car i ffwrdd. I'r de mae'n cysylltu â'r Wyddgrug, y dref agosaf i Bwcle, 10 munud i ffwrdd, ac ymhellach i ganolbarth Cymru. Mae'r A549 yn rhedeg trwy galon y dref gan gysylltu ar y naill ben a'r llall i'r coridorau symud mawr hyn. Mae hyn yn golygu bod gan Bwcle fynediad a chysylltiadau da iawn â'i drefi a dinasoedd cyfagos.

Saif Gorsaf Reilffordd Bwcle ar ymyl ddwyreiniol y dref. Mae'n darparu gwasanaeth rheolaidd i Shotton (gyda chysylltiadau ymlaen i Gaer a Chaergybi), Bidston (gyda chysylltiadau ymlaen i Lerpwl) a Wrecsam. Er ei fod yn adnodd allweddol ar gyfer y dref, saif yr orsaf drenau ar ei chyrion ac mae'n ymddangos fel pe bai wedi'i hysgaru o'r dref ei hun.

Mae hyn yn gwneud Bwcle yn dref allweddol i gymudwyr, gyda llawer o drigolion yn teithio i mewn ac allan o'r dref yn ddyddiol.



# Y LLE – ASEDAU CYMUNEDOL


Mae ffurf drefol Bwcle yn ymestyn allan o graidd canol y dref. Mae cyfres o gyfleusterau a gwasanaethau yn cael eu gwasgaru wedyn drwy'r holl dref ac ar hyd ei hymylon.

Mae nifer o ardaloedd diwydiannol/cyflogaeth wedi'u lleoli o amgylch ymylon y dref, gan gynnwys Buckley Foods, cyflogwr pwysig yn yr ardal.

Mae ardaloedd mawr o barciau a thiroedd comin i'w cael ledled rhan ogleddol Bwcle, wedi eu gwasgaru drwy'r ardaloedd preswyl. Mae hyn yn rhoi trigolion gogledd Bwcle o fewn cyrraedd hawdd i fannau gwyrdd. Mae hyn yn llai cyffredin yn ne Bwcle sydd â mwy o fannau gwyrdd lleol llai eu maint.

Mae Canolfan Hamdden Bwcle, Ysgol Uwchradd Elfred, Canolfan Feddygol Bwcle a Theatr Hawkesbury i gyd ychydig i'r gogledd o ganol y dref. Maent wedi eu lleoli'n agos at ei gilydd, yn y Comin ac o'i gwmpas, gan eu gwneud yn hygyrch iawn trwy gerdded neu feicio (teithio llesol).

Mae Stadiwm Glôb Clwb Pêl-droed Bwcle wedi ei leoli ar ymyl gogledd-ddwyreiniol y dref ac mae ar fin derbyn rhan o'r buddsoddiad £3 miliwn gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru a ddefnyddir i wella cyfleusterau ledled gogledd Cymru fel rhan o'r paratoi ar gyfer Pencampwriaeth UEFA 19 y dynion 2026. Bydd y stadiwm yn cael ei ddefnyddio fel lleoliad ymarfer yn ystod y twrnameint. Y gobaith yw y bydd hyn yn gweithredu fel catalydd am fuddsoddiad pellach ac adnoddau yn y cyfleusterau a'r ardal ehangach.



## PYRTH CANOL Y DREF




**A549**

Wrth i'r A549 ymlwybro o amgylch canol y dref mae ansawdd yr amgylchedd yn dirywio ac yn cael ei nodweddu gan gefnau adeiladau, ffasadau gwag a waliau. Mae cyffordd 4-ffordd Mill Lane yn borth allweddol (ond o ansawdd gwael) ar hyd y ffordd wrth iddi gysylltu canol y dref â'r man gwyrdd, y ganolfan hamdden a'r ysgol uwchradd i'r gogledd.

**Porth Gorllewinol**

Mae'r brif ffordd yn ymlwybro o amgylch pen gogleddol canol y dref gan greu llecyn porth yng nghyffordd Bistre Ave sy'n cynnig golygfeydd i lawr y stryd fawr. Mae nifer y cyffyrdd, y ffyrdd llydan a'r meysydd parcio yn gwneud hwn yn lle sydd o dan oruchafiaeth ceir, amgylchedd trefol gwael a phorth anghroesawgar i gerddwyr.

**Gorllewin yr A549**

Mae pen gorllewinol yr A459 Ffordd yr Wyddgrug wedi ei nodweddu ag adeiladau preswyl o wahanol raddau o ansawdd. Mae eiddo brics coch Fictorianaidd yn uchafbwynt nodedig ar hyd y rhan hon o'r ffordd.

**Mill Lane**

Mae Mill Lane yn rhedeg i lawr ac yn rhannu'r stryd fawr yn ddwy. Mae'r stryd yn cael ei nodweddu gan gymysgedd o safleoedd preswyl a manwerthu o ansawdd amrywiol. Lle mae'n cwrdd â'r stryd fawr nid oes fawr o ymdeimlad o gyrraedd na chyhoeddi. Dylai hyn fod yn gyswllt allweddol i gerddwyr a beicwyr i ganol y dref oherwydd ei gysylltiad â'r cyfleusterau lleol i'r gogledd.




**Porth Dwyreiniol**

Mae ardaloedd mawr o briffyrdd, parth cyhoeddus gwael a ffasadau gwag o adeiladau yn creu porth gwael ac anghroesawgar i ganol y dref. Mae cipolwg ar y stryd fawr yn cyhoeddi dechrau canol y dref ond nid yw'r ffurf drefol a'r man cyhoeddus yn hwyluso mynediad iddo.

**Dwyrain yr A549**

Ardal breswyl ei natur yn bennaf gyda rhai cartrefi Fictoraidd brics coch o ansawdd da. Mae canolfan gerddoriaeth Tivoli yn adeilad allweddol sy'n dynodi dechrau canol y dref, ond mae'n ymddangos fel pe bai wedi ei wahanu ohono.

**Gogledd Ffordd Padeswood**

Mae'r mynediad deheuol i ganol y dref trwy Fforđd Padeswood yn fwy cymhleth ac mae mynediad iddo oddi ar amrywiol ffyrdd ochr. Dylai hyn fod yn llwybr allweddol i gerddwyr/beicio o'r de gan nad yw'n llwybr trwodd ar gyfer cerbydau.

**Precinct Way/Maes Parcio Aldi**

Mae hyn yn ffurfio'r prif le i barcio ceir yn y dref ac yn fan cyrraedd allweddol i lawer o bobl. Fodd bynnag, ychydig o arwyddion sydd i ddangos y ffordd allan o'r maes parcio ac i'r stryd fawr. Canolfan Siopa Bwcle yw'r prif bwynt mynediad ar y stryd fawr ond nid yw'n apelgar yn weledol. Mae'n cau yn gynnar gyda'r nos gan wthio pobl i lwybrau eraill a llai dymunol gyda'r nos.

## HERIAU A CHYFLEOEDD

Mae gan Bwcle nifer o gyfleusterau allweddol yn y dref. Mae'r rhain yn helpu i greu anheddiad eithaf hunangynhwysol sy'n diwallu anghenion trigolion o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae'r cyfleusterau hyn yn tueddu i gael eu gwasgaru ledled rhan ogleddol y dref ac nid oes cysylltiad da rhyngddynt a'i gilydd, â chanol y dref na thrigolion de Bwcle.

Mae'r A549 yn ffordd allweddol drwy ganol y dref ac mae'n cysylltu â'r rhwydwaith symud ehangach. Mae ansawdd y ffordd hon tuag at ymylon y dref yn gyffredinol gadarnhaol, fodd bynnag, nid yw hyn gystal o amgylch canol y dref. Wrth i'r ffordd gylchu tua'r gogledd o amgylch y canol yr hyn a welir ohoni yw cefnau adeiladau a waliau gwag di-nodwedd. Mae hyn yn rhoi argraff wael o ganol y dref a'r dref gyfan.



Mae Gorsaf Reilffordd Bwcle ar gyrion y dref a gall fod yn anodd cael mynediad iddi os nad yw rhywun yn defnyddio car. Gallai gwell cysylltiadau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus roi hwb i'w ddefnydd a helpu i leihau nifer y ceir sy'n defnyddio'r A549.



Mae'r Tivoli yn ganolfan gerddoriaeth eiconig yn yr ardal. Fodd bynnag, saif ar ymyl ac ar wahân i ganol y dref. Gallai creu cysylltiad cryfach rhwng y ddau annog ei ddefnydd ac annog mwy o ymwelwyr i ganol y dref.

Mae'r pyrth dwyreiniol a gorllewinol i ganol y dref yn gyffredinol wael. Fe'u nodweddir gan gerbytffyrdd llydan a chyffyrdd ac amgylchedd trefol gwael. Nid ydynt yn creu amgylchedd croesawgar i bobl sy'n agosáu at ganol y dref na'u hannog i fynd i mewn.


Mae cyswllt Mill Lane i ganol y dref yn borth allweddol i'r gogledd tuag at y Comin, y Ganolfan Hamdden a'r Ysgol uwchradd. Nid yw'r gyffordd 4-ffordd â'r A549 yn helpu i annog teithio llesol rhwng canol y dref a'r cyfleusterau a'r cyrchfannau allweddol hyn.

Mae mynediad o brif faes parcio Precinct Way i ganol y dref yn wael. Gall ymwelwyr naill ai fynd i mewn trwy Ganolfan Siopa ddi-nodwedd Bwcle (pan fydd ar agor) neu groesi'r maes parcio ac o gwmpas cefn siopau a'r llyfrgell cyn croesi maes parcio arall.



Mae gan ben dwyreiniol y stryd fawr, sydd wedi'i led-neilltuo i gerddwyr, ddigon o le ar gyfer seddi awyr agored, tirlunio a chyfleoedd i ymestyn allan i'r stryd ond ychydig iawn sydd i'w weld ar hyd y stryd.Mae'r barrau a'r bolardau yn rhwystr i symudiad rhydd a rhwydd cerddwyr ac nid ydynt yn gydnaws ag egwyddorion cynllunio trefol modern. Mae angen i'r uned wag fawr ar ddiwedd y stryd a lleiniau gwag eraill helpu i atgyfnerthu canol y dref.

Mae pen gorllewinol y stryd fawr o ansawdd salach ac mae ganddi nifer o adeiladau gwag. Fodd bynnag, mae'r stryd yn gartref i nifer o adeiladau Fictoraidd brics coch o ansawdd uchel sy'n ychwanegu cymeriad a hunaniaeth i'r ardal gan gynnwys yr hen Lyfrgell Gyhoeddus a'r Baddonau Nofio. Fodd bynnag, mae blaenau siopau o ansawdd gwael yn tynnu sylw oddi wrth yr adeiladau deniadol hyn.


Cyfle i gysylltu asedau cymunedol yn well trwy fannau gwyrdd a chysylltiadau teithio lleol
Angen gwella'r pyrth i ganol y dref fel eu bod yn fwy croesawgar ac uchelgeisiol
Cyfle i wella cylch yr A549 i helpu rhoi gwell argraff o ganol y dref a Bwcle yn ei gyfanrwydd
Creu gwell argraff gyntaf o ganol y dref
Cyfle i wella cysylltiadau teithio llesol i'r orsaf drenau ar gyrion y dref
A549
Mold Road
A549
Mae ffasadau a blaenau gwael i siopau yn gwneud i ganol y dref edrych fel pe bai wedi ei hesgeuluso, ac maent yn tynnnu oddi wrth yr adeiladau Victoriaidd deniadol
Angen lleihau gwrthdaro rhwng cerddwyr a cherbydau ar gyffordd allweddol a rhoi blaenoriaeth yn ôl i bobl sy'n defnyddio canol y dref
Cyfle am fwy o seddau, tirlunio a lleoedd i dreulio amser ar hyd y stryd fawr
Mae'r Tivoli yn gyrchfan allweddol yn yr ardal ond mae'n teimlo ar wahân i ganol y dref. Gallai gwelliannau i'r parth cyhoeddus ei gysylltu'n well â'r stryd fawr
Creu cysylltiadau clir a deniadol rhwng meysydd parcio canol y dref a'r stryd fawr
Gwneud gwell defnydd o adeiladau gwag ac ardaloedd datblygu posibl i helpu atgyfnerthu canol y dref

# DADANSODDIAD SWOT LLE

## CRYFDERAU

- Cysylltedd da â Wrecsam a Chaer a phorth i mewn i ogledd Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri
- Gorsaf drenau tua 1.3 milltir o ganol y dref gyda chysylltiadau â Wrecsam a'r Wirral ac arfordir gogledd Cymru
- Yr ail gymuned fwyaf yn Sir y Fflint gyda 0.13% o dwf poblogaeth
- Mae canol y dref yn gryno ac yn wastad, ac yn hawdd ei gyrraedd
- Rhaglenni buddsoddi ac adfywio blaenorol yng nghanol y dref yn y 1990au a dechrau'r 2000au
- Adeiladau hanesyddol nodedig fel swyddfeydd y Cyngor Tref a hen Bwll Nofio Bwcle
- Treftadaeth falch mewn cynhyrchu brics, glo, band pres lleol y dref (wedi ennill gwobrau lawer) a chlwb nos / canolfan gerddoriaeth Tivoli
- Mae'r cyfleusterau a'r cyfleusterau lleol yn cynnwys llyfrgell, swyddfeydd y Cyngor Tref, Amgueddfa Hanes Lleol
- Mae'r eglwys blwyf hynaf, Sant Mathew, yn agos i'r Comin
- Darpariaeth maes parcio mawr i'r de o'r ganolfan siopa
- Mae'r Comin yn fan agored mawr gyda phwll hwyaid a maes chwarae
- Pedair ysgol gynradd, ysgol uwchradd a thair meddygfa gofrestredig
- Mae gan ganolfan siopa Bwcle rai manwerthwyr a defnyddwyr gweithredol
- Mae cyfradd eiddo gwag o 13% ychydig yn is na chyfartaledd y DU ond mae yna gyfres o adeiladau gwag yn Ffordd yr Wyddgrug
- Mae ymgynghoriad cymunedol yn nodi bod pobl yn teimlo bod Bwcle yn lle croesawgar (35%)

## GWENDIDAU

- Mae agosrwydd at yr A55 a'r A494 yn cynnig dewis ac yn arwain at golli masnach
- Mae canol y dref yn teimlo'n rhanedig rhwng ei ardal i gerddwyr a diwedd Ffordd yr Wyddgrug, gyda rheiliau a annibendod stryd
- Nid yw hen adeilad gwag Kwik Save yn cyfrannu at argraffiadau cyntaf da o'r dwyrain
- Mae seilwaith priffyrdd wedi'i gynllunio ar gyfer y car modur ac nid ar gyfer â cherdded a beicio
- Nid oes gan ganol y dref fywiogrwydd o fewn y strydoedd
- Nid oes gan du blaen siopau na'r strydlun gydlyniaeth na hunaniaeth
- Mae gan ganolfan siopa Bwcle rywfaint o le gwag ar flaen Ffordd Brunswick ac ar y llawr cyntaf
- Cyfyng yw'r cynnig o siopau cymhariaeth (heb fod yn fwyd), gydag ychydig iawn o frandiau cenedlaethol wedi'u lleoli
- Mae'r cynnig o ran bwyd a diod yn brin o amrywiaeth ac mae'n siopau cludfwyd yn bennaf
- Diffyg gweithgarwch gyda'r nos, dim ond 20% sy'n ymweld bryd hynny
- Darpariaeth gyfyngedig i'r sector marchnad swyddfa, sy'n dyddio ac yn fach o ran maint
- Mae'r galw yn lleol a rhanbarthol yn bennaf ac nid gan fuddsoddwyr cenedlaethol
- Tref sy'n gwneud "iawn" ond a allai fod yn well, gyda dim ond 17% o bobl ag agwedd gadarnhaol at yr hyn sydd gan ganol y dref i'w gynnig

- Angen darparu mwy o ddehongli hanesyddol o stori'r dref
- Mae adeilad nodedig Tivoli yn adnabyddus fel lleoliad cerddoriaeth, gan ddenu torfeydd o ogledd-orllewin Lloegr a gogledd Cymru – angen atgyweirio ei ffasâd allanol
- Dylunio ffyrdd yn strydoedd a llwybrau ar gyfer cerdded a beicio
- Hen adeilad y Pwll Nofio Hanesyddol
- Twf yn y boblogaeth gyda'r angen i ddenu'r gymuned leol i ganol y dref ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a dyddiol
- Mannau agored ac amwynderau ar ymylon y canol sy'n cysylltu cymunedau allanol
- Ansawdd bywyd a diogelwch yw'r flaenoriaeth uchaf i breswylwyr
- Trigolion yn dymuno gweld gweithredu ar y gyfradd uchel o 79% o safleoedd gwag
- Mae 88% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn dymuno gweld buddsoddi mewn cyfleoedd am siopau

## CYFLEOEDD

## BYGYTHIADAU

- Cyrchfannau manwerthu mwy sy'n brofiad ac yn atyniad sefydledig
- Cynnydd parhaus mewn siopa digidol
- Sefyllfa economaidd gyffredinol, costau byw ac ansicrwydd
- Canfyddiad a hyder yng nghanol tref Bwcle heb unrhyw alw sylweddol sy'n arwain at esgeulustod pellach a dadfuddsoddi

# DADANSODDIAD SWOT POBL

## CRYFDERAU

- Cyflogwyr mawr yn agos at Bwcle sy'n cefnogi ac yn denu ei rôl fel lle i fyw e.e. Airbus ym Mrychdyn
- Mae'r rhan fwyaf o ddeiliaid tai yn berchnogion tai, a'r aelwydydd yn rhai i deuluoedd sengl yn bennaf (60%)
- Mae'r rhan fwyaf o breswylwyr o fewn 5km i ganol y dref, gan ei gwneud yn hygyrch
- Bwcle yn cael ei ystyried yn lle diogel, gyda dim ond ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau lefel isel wedi'u cofnodi
- Lefelau isaf o unigolion heb gymwysterau (16.4%)
- Mae preswylwyr yn ystyried eu hiechyd yn dda iawn i dda (47.7%) o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan
- Lefelau uchel o weithgarwch economaidd ar 60.2%

## GWENDIDAU

- Mae cyfradd uchel o berchnogaeth car yn dda ar gyfer symudedd ond mae'n golygu bod gan bobl dewis
- 57% o'r trigolion yn teithio dros 20 km i'r gwaith
- Dim ond 18.5% sy'n teithio o dan 5km i weithio ym Mwcle

## CYFLEOEDD

- Cyfle i hyrwyddo a datblygu seilwaith teithio llesol
- Adeiladu ar weithgarwch iechyd a llesiant
- Y gymuned yn byw'n hirach – rôl preswylwyr mewn gwirfoddoli a bywyd cymunedol

## BYGYTHIADAU

- Dibyniaeth ar gyflogaeth y tu allan i'r dref a'r dalgylch
- Sefyllfa economaidd gyffredinol, costau byw ac ansicrwydd
- Gostyngiad yn y boblogaeth rhwng 20 a 34 oed oherwydd allfudo pobl ifanc sydd mewn oedran gweithio

# 05: ADEILADU AR EI SYLFAEN



# BLAENORIAETHAU / THEMÂU SY'N DOD I'R AMLWG

## ANGEN/TYSTIOLAETH

**Mae poblogaeth y dref wedi tyfu dros y deng mlynedd diwethaf ond mae ei chysylltedd a'i hagosrwydd at drefi eraill a siopau atyniadol yn arwain at ddargyfeirio gweithgarwch a llai o deyrngarwch i ganol y dref. O fewn cymdogaethau Bwcle ac ar gyrion y dref mae rhai asedau allweddol fel clwb pêl-droed y dref, y Comin a'r pwll hwyaid, a nifer o ysgolion cynradd a'r Stryd Fawr sy'n denu preswylwyr ond nad ydynt yn edrych i ganol y dref trwy rwydwaith o gysylltiadau ffisegol.**

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Cyhoeddi a Chyrraedd Canol y Dref

Mae cymuned o fewn cyrraedd canol y dref sydd angen teimlo ei bod yn hygyrch iddyn nhw ac ymdeimlad o berthyn iddi. Mae buddsoddi mewn teithio llesol a dod o hyd i ffyrdd o gysylltu dibenion er budd i'r ddwy ochr yn ffordd o adeiladu perthynas. Datblygu cyfres o gerrig camu ffisegol sy'n cysylltu'r orsaf drenau, gyda Ffordd Caer, y Clwb Criced, y Tivoli a chanol y dref. Yn yr un modd, cyswllt tebyg gan Glwb Pêl-droed y Dref i Bwll Mount a'r Comin i'r Ysgol Uwchradd / Canolfan Hamdden a Theatr ac yn olaf canol y dref. Gallai hefyd fod cyfle i roi blas ar fywyd cymunedol yng nghanol tref Bwcle ee siop clwb pêl-droed.







## ANGEN/TYSTIOLAETH

**Mae'r rhwydwaith priffyrdd yn mynd â chi o gwmpas cefnau canol y dref, gyda golygfeydd o iardiau gwasanaeth a chefnau adeiladau nad ydynt yn gadael i chi edrych i mewn i ganol y dref. Mae rhai adeiladau gwag allweddol mewn lleoedd amlwg ar y ddau ben yn ychwanegu at yr argraffiadau cyntaf gwael hyn o'r naill gyfeiriad a'r llall. Hyd yn oed wrth gyrraedd mae'r meysydd parcio allanol yn ddi-liw a di-nod, ac nid yw'r llwybr cerddwyr yn eglur nac yn ddeniadol.**

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Agored i Fusnes – o Ffyrdd i Stryd

O'r rhan allanol o Ffordd Brunswick i'r dwyrain ac i ffordd fynedfa orllewinol Ffordd yr Wyddgrug, mae angen cyhoeddi canol y dref ymhellach allan gyda phorth mwy nodedig wrth gyrraedd, yn benodol cyn Elfed Drive o'r gorllewin a chyn cyrraedd y Tivoli o'r dwyrain.

Dros y blynyddoedd, fel gyda llawer o lefydd yn y DU, mae symudiad ceir wedi cael blaenoriaeth dros symudiad pobl. Mae hyn wedi arwain at rwydwaith 'ffyrdd' sydd o dan oruchafiaeth priffyrdd o amgylch ymylon y dref gyda'r A459 yn ymgymryd â rôl ffordd osgoi. Mae ardaloedd allweddol lle mae angen newid y cydbwysedd hwn. Er enghraifft - Ffordd Brunswick a Precinct Way - mae angen blaenoriaethu symudiad pobl rhwng y dwyrain a'r gorllewin yma.

Mae enghraifft arall yng nghanol y dref lle amharir ar lif naturiol pobl rhwng Ffordd yr Wyddgrug a Ffordd Brunswick gan y gymysgedd o briffyrdd a blaenoriaeth cerbydau Mill Lane a Padeswood Road. Dylai'r Cyffordd hon fod yn lle sy'n uno dwy ardal o gymeriad gwahanol yn hytrach nag ychwanegu ymhellach at eu harwahanrwydd.

Mae angen canolbwyntio strategol ar rai prif adeiladau sydd â chysylltiad cryf â'r dref fel y Tivoli, yn ogystal â'r rhai sy'n wag megis y Kwik Save, ar fynedfeydd allweddol ac mae angen creu negeseuon mwy cadarnhaol am ganol y dref.

Mae cyrraedd y meysydd parcio mwy i'r de o ganol y dref yn rhoi argraff wael heb unrhyw deimlad o gysylltiad rhwng y lle ac ardal canol y dref, gyda ffyrdd ac nid troedffyrdd yn eich cyfarwyddo, heb goed, planhigion nac arwyddion. Mae angen mynd i'r afael â hyn.

Mae angen archwilio rôl y Ganolfan Siopa wrth helpu i fywiogi ffryntiadau canol y dref. Mae'r llyfrgell bresennol wedi'i chuddio'n gyffredinol o'r safle ond gallai chwarae rôl allweddol wrth roi hunaniaeth gyhoeddus ar y stryd gyda strategaeth dibenion / gosodiadau gweithredol eraill yn cyfuno i helpu i ddod ag ymdeimlad o weithgarwch a deinameg i'r brif stryd siopa.

## ANGEN/TYSTIOLAETH

**Mae'r profiad o ganol y dref wedi ei ddarnio'n ddwy ardal o gymeriad gwahanol – Ffordd yr Wyddgrug a Ffordd Brunswick nad ydynt yn cyflwyno cynnig unedig i'w ddefnyddwyr, gydag eiddo gwag a ffryntiadau o ansawdd gwael nad ydynt cyflwyno hunaniaeth gydlynol. Mae yna hefyd rai cynhyrchwyr gweithgarwch allweddol e.e. y Tivoli a siop fwyd Aldi sydd wedi eu hysgaru o'r brif ardal siopa.**

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Uno Cymeriad Bwcle

Mae cymeriad y dref yn stori o ddau hanner nad ydynt yn cyfarfod ar hyn o bryd. Mae gan ochr Stryd Yr Wyddgrug gymysgedd o adeiladau dinesig a threftadaeth sy'n gryf ond cael eu gadael i lawr gan ffryntiadau masnachol cyfagos o ansawdd gwael. Mae hyn hefyd yn cysylltu â'r gerbytffordd a'r llwybrau troed sy'n dreuliedig a golwg flinedig arnynt. Mae angen mynd i'r afael â'r gyffordd â Mill Lane/Ffordd Padeswood gan ei bod yn creu toriad oddi wrth yr ardal i gerddwyr, gyda'r angen i dacluso a thrin y man canolraddol hwn. Fel yr uchod, dylai hwn fod yn lle sy'n uno yn hytrach na chyfrannu at arwahanu pellach.

Mae cymeriad yr adeiladau ym mhen Ffordd Brunswick sydd wedi'i neilltuo i gerddwyr yn dod o'r degawdau diwethaf, mae'n dameidiog ac nid yw'n cyflwyno cod dylunio unedig. Mae angen mynd i'r afael â hyn gyda landlordiaid a thenantiaid ac mewn cydgysylltiad â gweithredu tir cyhoeddus fel bod profiad o Fwcle yn cael ei ddatblygu sy'n cyfleu naws leol, ansawdd a gwasanaeth.





## ANGEN/TYSTIOLAETH

**Er ei fod mewn cyflwr cymharol dda, mae'r parth cyhoeddus presennol yn dangos ei oed ac nid yw'n cynnig strwythur ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol awyr agored sy'n gysylltiedig â safleoedd masnachol neu at ddefnydd cymunedol. Nid oes unrhyw ymdeimlad o le i dreulio amser yn yr awyr agored na chyfleoedd i fywiogi'r parth cyhoeddus hwn.**

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Bywiogi'r Parth Cyhoeddus

Mae Ffordd Brunswick yn cynnig lle wedi ei neilltuo i gerddwyr, er bod cerbydau'n cael eu caniatáu rhwng 4-30pm a 10am. Mae mannau llwytho a pharcio i bobl anabl ar y stryd yn tynnu sylw at fynediad i gerbydau ac nid am le i bobl, ac mae angen datblygu cyfleoedd ar gyfer llecyn cymdeithasol, digwyddiadau, marchnadoedd a gwyliau tref. Byddai syniadau fel llwyfan band yn hyrwyddo'r dreftadaeth yn nhraddodiad bandiau pres Bwcle yn ogystal â lle ar gyfer digwyddiadau cymunedol. Y mathau hyn o ymyrraeth sydd angen eu treialu a'u cyflwyno.

Dylid archwilio rôl tirwedd a seilwaith gwyrdd. Byddai strategaeth tirwedd syml ar draws y ddwy brif stryd, ynghyd ag ymdriniaeth newydd o'r parth cyhoeddus a fydd yn tacluso a rhoi 'phobl yn gyntaf', yn helpu i'w huno yn ogystal â chyfrannu at fioamrywiaeth, iechyd a lles a lliniaru newid yn yr hinsawdd.









chris jones rl. creu lleoedd SIRYFFLINT


## ANGEN/TYSTIOLAETH

**Mae cyfleusterau dinesig a chymunedol wedi'u cuddio, nid ydynt yn weladwy neu maent wedi cael eu hadleoli o ganol y dref heb unrhyw ymdeimlad o wasanaethau cyhoeddus na chyfleusterau eraill y gall trigolion a defnyddwyr canol y dref droi atynt. Er enghraifft, mae llyfrgell y dref a swyddfeydd y cyngor tref yng nghanol y dref ond nid oes ganddynt unrhyw ryngweithio cymunedol, gyda gorsaf yr heddlu yn cau a'r ganolfan gofal iechyd sylfaenol yn symud allan. Mae angen archwilio lleoliad gwasanaethau cyhoeddus fel sbardun i ymwelwyr a chanolfannau gweithgareddau a chymunedol.**

## BLAENORIAETH/THEMA SY'N DOD I'R AMLWG

### Sefydlu Calon Ddinesig

Mae uwchgynlluniau blaenorol ac astudiaethau diweddar yn cydnabod rôl a swyddogaeth y Cyngor Tref ac Adeilad Hen Faddondai Bwcle. Mae gan yr adeilad hwn bresenoldeb cryf gyda'r angen i wireddu defnydd cymunedol hyfyw sy'n cynhyrchu gweithgarwch, sy'n gynaliadwy ac sy'n dathlu treftadaeth Bwcle. Gan ddibynnu ar y gymysgedd o ddibenion, byddai gan ganolfan gymunedol o'r fath fuddion uniongyrchol ac anuniongyrchol i ganol y dref trwy wasanaethau sylfaenol, gwirfoddoli ac o bosibl yn gweithredu fel sbardun ar gyfer buddsoddiad a dibenion eraill i ganol y dref. Er gwaethaf y pwysau cyllidol presennol yn y sector cyhoeddus, mae angen cyflawni arfarniad o'r ddarpariaeth gymunedol bresennol o fewn y ganolfan siopa a bylchau eraill mewn darpariaeth e.e. mannau cydweithio, darpariaeth ieuenctid, siop clwb Pêl-droed y Dref, ymhlith eraill. Dylid ystyried arfarniadau opsiynau ar adeiladau mwy gweladwy ac atyniadol yng nghanol y dref e.e. yr hen Kwik Save sy'n dod â sawl math o ddefnydd ynghyd yng nghanol y dref fel canolbwynt lleol ac integredig.



# GWELEDIGAETH, NODAU AC AMCANION STRATEGOL



## Gweledigaeth

**Bwcle – lle sy'n galon i fywyd y gymuned, gyda'i chymdogaethau cyfagos yn cael mynediad hawdd at siopau a lleoedd bwyta lleol, lle bywiog o ran iechyd, llesiant, y celfyddydau a diwylliant, a'r cyfan wedi ei atgyfnerthu gan dreftadaeth falch mewn diwydiant a cherddoriaeth a chysylltiadau da ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr.**



## Nodau Allweddol

Gwella ansawdd ac amrywiaeth yr hyn sydd gan ganol y dref i'w gynnig, fel y bydd yn teimlo'n lleol, apelgar ac yn cyffwrdd â bywyd cymunedol.

Codi ymwybyddiaeth o'r profiad "lleol" yng nghanol y dref i drigolion, creu a datblygu ei apêl, adeiladu dilyniant a mentrau a gweithgareddau hyfyw.

Bywiogi'r parth cyhoeddus sy'n cysylltu gwahanol fannau o gerddoriaeth, diwylliant, siopa, cymuned a bwyta allan trwy leoedd perfformio, marchnadoedd, defnyddio coed a phlanhigion ac ymestyn gweithgareddau masnachol.

Amlygu a gwella'r amrywiaeth o wasanaethau cymunedol sy'n cefnogi iechyd a llesiant, dysgu, cymdeithasu a chreu cymuned gydlynol ym Mwcle.





## Amcanion

Datblygu atebion lleol sy'n agor cyfleoedd i fusnesau, cymunedau a mannau cymdeithasol newydd i lenwi bylchau yn y cynnig presennol.

Gwella'r ffordd y mae pobl yn cyrraedd canol y dref, mewn ffordd sy'n canolbwyntio mwy ar bobl, o gymdogaethau Bwcle a dod ag asedau sy'n eistedd ar yr ymyl drwodd i ganol y dref.

Manteisio ar asedau ymylol trwy newidiadau dylunio ffisegol sy'n eu troi i ganol y dref ac yn gwneud iddynt deimlo'n rhan o'r profiad, yn ystod y dydd a gyda'r nos.



Datblygu canolfannau ar ddau ben canol y dref sy'n weladwy, yn cynhyrchu gweithgarwch ac yn arwain at dreulio mwy o amser ac arian a manteision eilaidd eraill.

Manteisio i'r eithaf ar draddodiad a gwerthoedd brand Bwcle a'u cyflwyno drwy farchnata, digwyddiadau, gwyliau, perfformiadau a gweithgarwch e.e. brics, crochenwaith, bandiau pres, treftadaeth gerddoriaeth yn The Tiv, etc.

# CYFLEOEDD LLE A PHOBL

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth, nodau ac amcanion, canfuwyd y cyfleoedd canlynol.

## Cyfleoedd Lle



**Cyhoeddi a Chyrraedd Canol y Dref**



**Bywiogi'r Parth Cyhoeddus**



**Ailadeiladu Cymeriad a Hunaniaeth Bwcle**



**Gwyrddu Bwcle**



**Rôl Cynhyrchwyr Gweithgarwch**

## Cyfleoedd Pobl



**Cymunedau Cysylltiedig**



**Atebion Lleol**




**Adeiladu Brand Bwcle**




**Gweithio mewn Partneriaeth**

## FFRAMWAITH CYFLEOEDD – YR ARDAL EHANGACH


Saif canol tref Bwcle yn union yng nghanol y dref gyda llawer o gyfleusterau allweddol eraill wedi eu lleoli i'r gogledd, gan gynnwys y Ganolfan Hamdden, yr Ysgol Uwchradd a'r Ganolfan Feddygol. Mae cyfle i gysylltu'r cyfleusterau allweddol hyn â chanol y dref yn well trwy gysylltiadau teithio llesol. Mae nifer o fannau gwyrdd a thir comin yn yr ardal yn caniatáu cyfres o gysylltiadau cerdded a beicio oddi ar y ffordd cyn belled i'r gogledd â'r clwb pêl-droed.

Mae angen gwella'r pyrth gorllewinol a dwyreiniol i'r dref i greu argraff fwy croesawgar a helpu i ddenu pobl i'r dref. Bydd lleihau effaith y car a gwneud yr ardaloedd yn fwy cyfeillgar i gerddwyr yn gwella hygyrchedd canol y dref o'r ardaloedd cyfagos.


Mae cyffordd Mill Lane/Ffordd yr Wyddgrug/Ffordd Padeswood /Ffordd Brunswick yn bwynt allweddol yn y dref. Dyma'r prif gyswllt rhwng dau ben y stryd fawr a'r gogledd i'r Comin a chyfleusterau allweddol. Ar hyn o bryd mae o dan oruchafiaeth ceir ac mae ganddo nifer o rwystrau rhag symudiad, a byddai eu lleihau yn helpu i hwyluso symudiad yn well trwy ganol y dref.



# FFRAMWAITH CYFLEOEDD – CANOL Y DREF



## CYFLEOEDD LLE – CYHOEDDI A CHYRRAEDD CANOL Y DREF






Lleihau effaith y car ar safleoedd pyrth



Croesfannau uniongyrchol heb ddim rhwystrau rhag symud

### Safleoedd Pyrth


Ar y naill ben a'r llall i ganol y dref mae dau borth lle mae Ffordd Argoed/A549 yn dargyfeirio traffig i'r gogledd, o'r ffordd linellol hanesyddol drwy'r dref. Mae hyn yn arwain at fannau amwys o dan oruchafiaeth ceir gyda chysylltiadau gweledol ar hyd y stryd fawr ond amgylchedd gwael i gerddwyr sy'n gwneud mynediad iddi'n fwy anodd ac yn ddigroeso.

Mae arwynebeddau mawr wedi eu neilltuo i geir, gyda chyffyrdd llydan sy'n gwneud croesi'r ffordd yn anodd. Mae hyn yn cael ei waethygu gan reiliau a phalmentydd gwrth-gerdded sy'n cyrchu cerddwyr i groesfannau, oddi ar y llwybrau uniongyrchol o symud. Mae angen ailddiffinio'r ffyrdd fel y gellir rhoi mwy o le yn ôl i gerddwyr a chroesi yn dod yn haws. Bydd cyffyrdd culach, dileu rhwystrau a phwyntiau croesi uniongyrchol yn helpu gyda hyn.

Gall y lle hwn a adfeddiennir helpu i ffurfio mannau cyhoeddus newydd sy'n fywiog ac yn ddeniadol ac sy'n helpu i groesawu pobl i ganol y dref. Bydd mwy o le ar gyfer tirlunio, seddi a chelf gyhoeddus yn helpu i greu mannau deniadol a bywiog sy'n creu argraff dda o ganol y dref ac yn helpu i ddenu pobl i mewn. Gall celf gyhoeddus a murluniau sy'n gallu adlewyrchu treftadaeth Bwcle, fywiogi ffasadau gwag a chreu amgylchedd mwy lliwgar a bywiog.



chris jones
rl.
creu lleoedd SIR Y FFLINT



Celf gyhoeddus sy’n dathlu treftadaeth y dref




Gellir defnyddio lleoedd a dirlunir ar gyfer chwarae




Creu nodweddion croesawgar




Gwella waliau gwag trwy gelf a murluniau



Mwy o le i bobl dreulio amser ac i fusnesau ymestyn allan

## CYFLEOEDD LLE – CYHOEDDI A CHYRRAEDD CANOL Y DREF




### Y Porth Canolog

Mae cyffordd Mill Lane/Ffordd yr Wyddgrug/Ffordd Padeswood yng nghanol y stryd fawr ac mae'n lle allweddol wrth gysylltu dwy ochr y stryd fawr. Mill Lane i'r gogledd yw'r cyswllt allweddol rhwng canol y dref a'r cyfleusterau o amgylch y Comin, Canolfan Feddygol Bwcle, y Ganolfan Hamdden a'r Ysgol Uwchradd. Mae Ffordd Padeswood yn rhedeg i'r de ac yn rhoi mynediad i Faes Parcio Ffordd Brunswick.

Mae'r gyffordd hon wedi'i chynllunio o amgylch anghenion y car ac mae'n llesteirio'n fwriadol symudiad cerddwyr trwy rwystrau a phalmentydd gwrth-gerdded. Mae'r rhain yn creu rhwystr rhwng ochr orllewinol a dwyreiniol y stryd fawr ac yn ei gwneud yn anodd i bobl symud rhyngddynt.

Mae angen i'r gyffordd ddod yn lle sy'n rhoi pobl yn gyntaf, sy'n cynorthwyo i symudiad cerddwyr drwodd i ganol y dref ac i mewn ac allan ohono. Bydd hyn yn annog pobl i ymweld â hyd llawn y stryd fawr a gwneud teithiau cysylltiedig rhwng canol y dref a'r ardaloedd cyfagos. Mae angen cael gwared ar rwystrau a byddai bwrdd / pwyntiau croesi dyrchafedig yn caniatáu symudiad di-dor yno.

Gall deunyddiau o ansawdd uchel helpu i ddiffinio pwyntiau croesi a'r gerbytffordd fel y gellir rhannu'r gofod yn fwy effeithiol rhwng pobl a cherbydau. Mae hwn hefyd yn lleoliad allweddol ar gyfer gwybodaeth i helpu pobl ganfod ffyrdd i mewn a thrwy Bwcle.


Deunyddiau o ansawdd uchel a ddefnyddir i helpu i ddiffinio ardaloedd



Pobl a cheir yn rhannu'r un lle yn llwyddiannus



Blaenoriaethu croesfannau i gerddwyr/beicwyr




Lleoliad allweddol ar gyfer arwyddion i ddangos y ffordd




Nodweddion llinellol cryf sy'n helpu i gysylltu dwy ochr y stryd




Lle i bobl a lle mai ceir yw'r gwesteion

## CYFLEOEDD LLE – BYWIOGI'R PARTH CYHOEDDUS





Celf gyhoeddus i helpu i ddiffinio ac amgáu'r gofod

### Llecyn Canolog

Mae cyfle i greu llecyn sy'n ganolbwynt o weithgarwch yng nghanol y dref, o amgylch Maes Parcio Ffordd Brunswick a Chanolfan Siopa Bwcle. Byddai hyn yn helpu i fywiogi canol y dref a helpu i ddenu pobl i mewn.

Byddai hyn yn canolbwyntio ar bafiliwn/llwyfan lle gallai gwahanol weithgareddau ddigwydd megis perfformiadau cerddoriaeth neu wyliau. Byddai ardaloedd eistedd a thirwedd yn cael eu trefnu i ganiatáu ar gyfer golygfeydd o'r pafiliwn hwn, gyda'r opsiwn ar gyfer seddi dros dro ychwanegol i'w defnyddio hefyd. Byddai hyn yn creu canolbwynt o fewn y stryd y gall pobl ymgynnull ynddo a chymdeithasu trwy gydol y dydd a gyda'r nos.

Byddai siopau a chaffis cyfagos yn cael eu hannog i lifo allan iddo, er mwyn ychwanegu ymhellach at weithgarwch a bywiogrwydd y llecyn.

Gellid uno'r gofod trwy ddefnyddio celf gyhoeddus ar hyd wynebau waliau gwag yr adeiladau cyfagos. Byddai hyn yn helpu i greu hunaniaeth go iawn i'r lle ac yn annog pobl i aros a threulio amser.


Cyfle am fwy o weithgareddau gyda'r nos


Seddau sefydlog wedi eu trefnu ar gyfer man digwyddiadau


Cyfle am seddau lliwgar dros dro


Annog mwy o le i fusnesau ymestyn allan









Pafiliwn / llwyfan ar gyfer perfformiadau cerddorol a digwyddiadau


Lle i farchnadoedd …


… tirlunio a seddau

## CYFLEOEDD LLE – BYWIOGI'R PARTH CYHOEDDUS




### Ailddychmygu hen siop ddisgownt fel adeilad tirnod allweddol

Saif yr hen siop ddisgownt ar ddiwedd Ffordd Brunswick ac mae'n dirnod allweddol rhwng canol y dref a safle'r porth dwyreiniol. Fodd bynnag, mae'n methu yn ei botensial i gyflwyno argraff gadarnhaol o'r dref ac annog pobl i mewn iddi.

Gallai'r adeilad hwn ddod yn dirnod allweddol i'r dref. Gellid ei ail-ddychmygu fel canolbwynt o weithgarwch sy'n cyflwyno ffryntiad cadarnhaol ac iddo arwyddocâd pensaernïol ar y stryd fawr a'r porth. Gallai arwynebeddau mawr o wydr a gweithgareddau llawr gwaelod helpu i gysylltu'r adeilad â'i amgylchedd a bod yn ganolbwynt ac yn atyniad i bobl sy'n mynd i mewn i ganol y dref. Defnydd posibl i'r adeilad hwn fyddai adleoli gwasanaethau cyhoeddus, gyda gweithgareddau yn ymestyn allan i'r stryd ac yn adfywio'r ardal.


Defnydd a wneir y tu mewn i'r adeilad yn rhyngweithio â'r stryd


Gweithgarwch yn ymestyn allan i'r stryd



chris jones rl. creu lleoedd SIRYFFLINT




Gellid adleoli gwasanaethau cyhoeddus



Cyfle i greu adeilad tirnod



Creu ffryntiad cadarnhaol i'r stryd



Gweithgarwch yn ymestyn allan i'r stryd



Cysylltu'r tu allan â'r tu mewn

# CYFLEOEDD LLE – AILADEILADU CYMERIAD A HUNANIAETH BWCLE

Mae cyfle i helpu i wella ac uno hunaniaeth Bwcle trwy ei amgylchedd adeiledig a'i barth cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae gan graidd manwerthu canol y dref ddwy ardal gymeriad wahanol. I'r gorllewin mae'r Hen Ffordd: gwead ac amgylchedd hanesyddol. I'r dwyrain mae Ffordd Brunswick: cymysgedd tameidiog o ddatblygiadau hanesyddol a mwy diweddar. Mae cyfle i atgyfnerthu'r ardaloedd â chymeriad gan hefyd roi rhywfaint o undod ar draws canol y dref. Gallai hyn fod ar ffurf Cod Dylunio Strydlun.

Gall Cod Dylunio helpu i sicrhau y bydd newidiadau a chynigion dylunio, wrth iddynt gael eu cyflwyno, yn manteisio ar weledigaeth a hunaniaeth gyffredinol i'r dref ac yn sicrhau eu bod o'r ansawdd a'r safonau uchaf. Rhan o'r cod dylunio hefyd fydd helpu i greu strydlun a chymeriad ystyrlon, trwy ddefnyddio ei ddeunyddiau, tirlunio ac egwyddorion dylunio. Gall hefyd helpu i greu canllawiau dylunio unedig ar gyfer blaen siopau, gyda'r nod o leihau'r gwrthdaro presennol o arddulliau i un mwy cydnaws, gan ddal i gydnabod yr ardaloedd sydd â'u cymeriad arbennig eu hunain.

- **Creu canllawiau dylunio ar gyfer y stryd gyfan i helpu i egluro hunaniaeth a gweledigaeth Bwcle.**
- **Pennu'r defnydd o ddeunyddiau a thirlunio er mwyn creu strydlun ystyrlon ac unedig.**
- **Canllawiau dylunio blaen siopio i annog symud tuag at ddyluniad unedig sy'n lleihau annibendod.**
- **Datblygu strategaeth lle mae adeiladau allweddol, ffryntiadau a manylion hanesyddol yn cael eu gwella a'u dathlu ar y stryd.**


ENGHREIFFTIAU O GOD DYLUNIO — CYNT




WEDYN



ENGHREIFFTIAU O GOD DYLUNIO — CYNT




WEDYN





chris jones  rl  creu lleoedd SIRYFFLINT

## CYFLEOEDD LLE – GWYRDDU BWCLE

Mae gwyrddu strydoedd canol tref trwy greu ffurf a strwythur yn flaenoriaeth allweddol wrth ychwanegu at y parth cyhoeddus, lleoedd i eistedd yn ogystal â rhoi cysgod rhag yr haul, amsugno dŵr ffo a chefnogi dulliau eraill o addasu i'r hinsawdd, natur leol a gwytnwch ehangach. Gall strydoedd hefyd hyrwyddo tyfu lleol, blychau perlysiau a chardiau ryseitiau i hyrwyddo'r defnydd o lysiau tymhorol a defnyddio cadwyni cyflenwi lleol. Mae'r gweithgareddau hyn hefyd yn cadarnhau llesiant mewn tref fel Bwcle.

Mae angen cysylltu mannau gwyrdd, parciau, meysydd hamdden a chwaraeon, llwybrau troed, ymylon ffyrdd ac ardaloedd eraill o wyrddni fel y gall trigolion gael eu defnyddio a manteisio arnynt. Mae cyfleoedd yng nghanol y dref i blannu coed ychwanegol, ardaloedd peillio a phlanhigion daear i ychwanegu at fioamrywiaeth leol a chadwraeth natur. Byddai ardal gerddwyr Ffordd Brunswick yn fwy apelgar gyda choed ychwanegol sy'n denu pobl drwy'r stryd, gan greu mwy o strwythur a lleoedd i gysgodi.

Dylid archwilio cyfleoedd ar gyfer tyfu cymunedol lle mae grwpiau yn cael eu ffurfio ac yn gallu rheoli tir segur at ddibenion cynhyrchiol. Gall hyn fod yn rhan o presgripsiynu cymdeithasol sy'n gysylltiedig â phrosiectau iechyd cymunedol. Gallai fod yn gysylltiedig hefyd â gweithgarwch menter ieuenctid sy'n ymwneud â siopau bwyd dros dro a gweithgareddau hyfforddi.

- **Planhigion ychwanegol ar ddynesfeydd a phyrth allweddol i ganol y dref;**
- **Plannu coed o fewn yr ardal a neilltuir i gerddwyr;**
- **Defnyddio tirwedd gynhyrchiol i gefnogi gweithgarwch cymunedol, hyfforddiant a defnydd o fentrau cymunedol sy'n seiliedig ar fwyd;**
- **Cefnogi plannu dinesig sy'n gwella balchder mewn lle ac sy'n ymarferol fel gerddi dŵr glaw wrth addasu i'r hinsawdd.**



## CYFLEOEDD LLE – RÔL CYNHYRCHWYR GWEITHGARWCH

Mae'r angen i ddatblygu hunaniaeth canol y dref fel cymdogaeth o fewn cymdogaethau yn ffactor llwyddiant allweddol i'r trefi hynny sydd wedi canfod ffyrdd o addasu ac ailddarganfod eu hunain. Lle mae pobl yn cwrdd ac yn ymwneud â'i gilydd, mae hynny'n arwain at ymdeimlad o berthyn, teimlo'n dda mewn lle a chreu bwrlwm ac egni.

Mae gan Bwcle boblogaeth sylweddol o'r dref sydd, oherwydd eu gallu i symud, yn cael dewis o ran eu hamdden a'u hamser siopa. Maent yn cael eu denu gan brofiad sy'n cael ei greu, ei wneud, ei grefftio, ei gynhyrchu fel taith allan neu sy'n gysylltiedig â'u hwythnos waith. Ar hyn o bryd, nid ydynt yn gweld canol tref Bwcle fel eu dewis cyntaf.

Mae'r angen i gyflwyno profiad amrywiol, lleol ac o ansawdd uchel yn gyfle y gellir ei gyflawni trwy ddatblygu canolfannau neu gyrchfannau yng nghanol y dref. Mae eu lleoliad hefyd yn bwysig gan eu bod yn gallu denu ymwelwyr a gweithgarwch cysylltiedig rhyngddynt. Mae tair canolfan/cyrchfan bresennol neu bosibl yng nghanol tref Bwcle ar y naill ben a'r llall iddi, sef yr hen Faddonau Nofio a chanolfan gerddoriaeth a chlwb nos The Tivoli. Mae potensial hefyd ar gyfer trydydd cyrchfan a fyddai'n bywiogi canolfan siopa Bwcle, sef yr hen Original Factory Shop ar Ffordd Brunswick.

Mae dyfodol yr hen Faddonau Nofio ar Ffordd yr Wyddgrug yn destun astudiaeth ddichonoldeb gydag ymgynghoriad cychwynnol yn dangos awydd i gadw hanes yr adeilad a'i ddychwelyd i ddefnydd cymunedol. Ariannwyd y baddonau, a adeiladwyd yn 1928, gan berchnogion mwyngloddiau, o dan Gynllun y Llywodraeth a oedd yn cyfrannu arian i Gronfa Les. Mae awydd i gynnal gwerthoedd ac ysbryd y rheswm y cafodd ei hadeiladu ond gyda naws aml-swyddogaethol fodern. Pe bai'n cael ei adfer, byddai treftadaeth yr adeilad yn dod â manteision eilaidd i fusnesau cyfagos a'u ffryntiadau, fel eu bod yn teimlo'n rhan ddinesig a hanesyddol o ganol y dref.





Ar ben arall y dref mae'r Tivoli sydd â'r cyfle i edrych i mewn i ganol y dref a dyrchafu ei hanes cyfoethog mewn cerddoriaeth yn ystod y 70au, yr 80au a'r 90au fel lle allweddol i fandiau chwarae ar daith, yn ogystal â'r cyfnod pan oedd yn glwb nos ac sydd bellach yn ôl i leoliad cerddoriaeth fyw. Mae angen hyrwyddo'r dreftadaeth gerddorol a'r lleoliad i drigolion a mynychwyr cerddoriaeth ledled y rhanbarth ynghyd â buddsoddiad ffisegol y tu mewn yn ogystal â phenderfynu ar ei gysylltiad gweledol â Ffordd Brunswick yn y porth allanol hwn.

Yn olaf, nid yw Canolfan Siopa Bwcle, er ei fod yn rhannol weithgar y tu mewn, yn cyflwyno argraffiadau cyntaf da gyda'r hen Original Factory Shop yn adeilad allweddol ar y pen sydd yn wag ac nid yw'n dweud bod canol y dref yn "agored i fusnes". Mae ei fur ochr gwag yn cynnig cyfle i agor y gornel trwy wydro a defnyddio celf gymunedol. Mae angen ymdrin â'r ffordd y mae'n rhyngweithio â'r amgylchedd i gerddwyr o ran mynediad iddo, gwydr, arwyddion a'r hyn sy'n digwydd y tu mewn. Er bod ei faint yn peri heriau sylweddol, mae cyfleoedd hefyd i ategu "canolfannau" a chyrchfannau eraill. Mae'r awgrymiadau yn cynnwys adleoli gwasanaethau cyhoeddus i leoliad amlwg a gweithredol yn yr adeilad hwn, canolfan lles a chyngor a allai gynnwys atgyfeiriadau ffitrwydd, presenoldeb manwerthu ac allgymorth cymunedol posibl ar gyfer sefydliadau chwaraeon yn y dref e.e. Clwb Pêl-droed Bwcle a lle ar gyfer treialu a phrofi syniadau a mentrau newydd. Gellid defnyddio lle hyblyg hefyd ar gyfer sinema gymunedol, clybiau plant yn yr haf a gweithgareddau eraill.



- **Deall sut y gellir gwella neu ailddefnyddio asedau mawr yng nghanol y dref a sut mae'r rhain yn ymwneud â'i gilydd ac yn hyrwyddo presenoldeb a gweithgarwch cerddwyr yn sgil hynny;**
- **Cefnogi proses Astudiaeth Dichonoldeb Hen Faddondai Bwcle a'r gweithgor sefydledig, yn benodol buddsoddiad ar gyfer datblygiad yn y dyfodol y mae'r gymuned leol yn awyddus i'w weld yn digwydd a'i gefnogi;**
- **Archwilio ffyrdd o wella profiad a lleoliad ffisegol Tivoli, sydd dan berchnogaeth breifat, fel lleoliad cerddoriaeth rhanbarthol a'r manteision cysylltiedig i'r economi leol a'r sector artistig/creadigol/cerddoriaeth;**
- **Archwilio ffyrdd o weithio gyda landlord Canolfan Siopa Bwcle gan ganolbwyntio'n benodol ar hen adeilad cornel Original Factory Shop i ganfod ffyrdd o fywiogi a threialu gweithgareddau newydd sydd o fudd uniongyrchol i denantiaid y ganolfan a chanol y dref yn ehangach.**





## CYFLEOEDD POBL – CYMUNEDAU CYSYLLTIEDIG

Mae angen gwella cysylltiad cymdogaethau Bwcle â chanol y dref mewn modd sy'n hygyrch, wedi'i rwydweithio ac yn ddeniadol boed hyn yn rhan o deithio llesol, cynlluniau bioamrywiaeth neu brosiectau natur lleol.

I'r gogledd o ganol y dref mae nifer o asedau nodedig fel yr ysgol gyfun, y ganolfan hamdden, y theatr gymunedol, y Clwb Pêl-droed ac ardal y Comin sy'n rhan o fywyd cymunedol.

I'r de mae Ffordd Padeswood yn gweithredu fel echel ar gyfer teithio llesol sy'n gwasanaethu cymdogaethau Nant Mawr a Spon Green.

Mae angen arwyddo'r rhwydwaith o lwybrau a chynnwys amseroedd cerdded, gyda chyfleoedd hefyd i roi dehongliad ar hen fwyngloddiau, gwaith brics, crochenwaith a safleoedd eraill o ddiddordeb hanesyddol sy'n eich cysylltu â chanol y dref.

Mae angen i ganol y dref gael seilwaith beicio fel stondinau a chysgodfannau mewn lleoliadau strategol.

Mae gan orsaf drenau y dref yr anfantais o fod filltir o ganol y dref gyda'r briffordd, Ffordd Brunswick yn brif gyswllt rhwng y ddwy gyrchfan. Serch hynny, mae'r ffaith fod gan Bwcle orsaf drenau yn gaffaeliad allweddol i'r dref a gall gefnogi cyflogwyr lleol ac i'r ymwelwyr hynny sy'n manteisio ar yr economi nos, yn benodol gweld bandiau yn The Tivoli. Byddai gwelliannau i Ffordd Brunswick (dwyrain)/ Ffordd Caer yn helpu pobl ar droed a hefyd ar olwynion.

- **Datblygu a chyflawni buddsoddiadau teithio llesol sy'n cysylltu â llwybrau lleol;**
- **Gweithredu cyfleusterau teithio llesol yn y dref canolfan yn benodol ar gyfer beicwyr;**
- **Datblygu dehongliad lleol ar dreftadaeth, y celfyddydau a diwylliant;**
- **Datblygu ffyrdd o wella cysylltiadau rhwng yr orsaf drenau a chanol y dref.**



## CYFLEOEDD POBL – ATEBION LLEOL

Mae angen i bobl Bwcle ddod at ei gilydd i archwilio, creu a chyd-gyflwyno atebion lleol sy'n mynd i'r afael â bylchau presennol yn yr hyn sydd gan ganol y dref i'w gynnig ond sydd hefyd yn dod â phobl at ei gilydd trwy'r treialu, ymgyrch neu brosiect. Gellir cyflawni hyn trwy agwedd gyfamserol at y prosiect, defnyddio marchnadoedd awyr agored a thrwy ddigwyddiadau a gwyliau.

Mae angen chwilio am fusnesau micro a bach sydd eisiau archwilio llwybrau cost isel i'r farchnad, eu hannog a chynnig mecanweithiau cymorth iddynt logi stondinau marchnad, lleoedd o fewn unedau cyfamserol, digwyddiadau thematig a lleoli cynhyrchion mewn mannau cyhoeddus a mwy. Gall hefyd fod yn canolbwyntio ar fentrau cymunedol/cymdeithasol a allai fod â mwy o annibyniaeth a hyblygrwydd gyda risg a chreadigrwydd. Mae angen darparu cymorth ar gyfer cynllun busnes newydd neu fusnes cyfamserol o ran gydgysylltu â landlordiaid, yswiriant, rhentu â chymorth a chyngor datblygu/marchnata busnes.

Gall rôl pobl ifanc hefyd chwarae rhan allweddol gyda darparu prosiectau menter ieuenctid sy'n helpu i dreialu a llenwi bylchau yn y cynnig canol tref. Gallai hyn gynnwys prosiect partneriaeth gyda The Tivoli gyda chyfle i drochi mewn sain a goleuo, dylunio llwyfan a sgiliau creadigol eraill. Gallai syniadau eraill gynnwys prosiect ffreutur i bobl ifanc sy'n darparu lle i ddysgu am letygarwch, datblygu sgiliau newydd a chreu profiad lleol sy'n dathlu'r defnydd o gynnyrch lleol ac sydd  hefyd yn cyfuno â cherddoriaeth, celfyddydau a diwylliant lleol.

Mae angen i hyn hefyd gysylltu ag "Adeiladu Brand Bwcle", fel bod y cynnig a'r profiad yn dod yn rhan o'r naratif a'r hunaniaeth newydd.

- **Amlygu bywyd cymunedol, grwpiau, clybiau a straeon sydd i'w cael yn y dref ehangach ond a roddir lle iddynt yng nghanol y dref i hyrwyddo eu gweithgarwch, partneriaethu â chaffi lleol, nosweithiau cymdeithasol, etc;**
- **Sefydliadau partner sydd â dilyniant a hunaniaeth a fyddai'n fwy gweledol yng nghanol y dref ee siop gymunedol Clwb Pêl-droed Tref Bwcle gyda rhwyd bêl-droed o dan do;**
- **Gweithgarwch dros dro yng Nghanolfan Siopa Bwcle. Gweithio gyda'r landlord ar gyfres o ddigwyddiadau dros dro megis clwb swper (partner Siop Fferm), sinema gymunedol, theatr a gweithgareddau eraill.**





## CYFLEOEDD POBL – ADEILADU BRAND BWCLE

Mae Bwcle yn dref falch, gyda sylfaen gref mewn diwydiant, fel lle gwneud brics a chrochenwaith, cymuned, cerddoriaeth a llawer mwy. O blwyf bach daeth i fod yr anheddiad ail fwyaf yn Sir y Fflint oherwydd ei leoliad ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr a'r galw am dai. Mae'r anheddiad wedi tyfu y tu hwnt i'r hyn oedd canol y pentref gydag angen i ail-gyfleu canol y dref i'w drigolion, yn rhai sefydledig a newydd.

Nid yw hunaniaeth yn cael ei greu trwy logo neu slogan ond yn hytrach trwy ymgyrch sy'n gydnaws â theimlad y lle a'i bobl. Mae angen iddo ddyrchafu asedau unigryw fel y dref a adeiladodd frics sydd wedi cael eu defnyddio ledled y byd, trwy ei fand pres a bod Led Zeppelin wedi chwarae yn y Tivoli. Gallai ymgyrch o'r fath fod ynglŷn â "Adeiladu ar Hanes Bwcle" sy'n edrych i'r gorffennol ond hefyd i'r presennol.


Fel gyda chanol trefi eraill Sir y Fflint, mae angen mabwysiadu dull cyfannol o lunio hunaniaeth sy'n cael ei ffurfio trwy gymysgedd o ddibenion canol trefi, mannau cymdeithasol, a strydoedd sy'n rhoi'r lle blaenaf i bobl sy'n rhannol ffisegol ac yn rhannol yn fater o hyrwyddo.

Mae angen i'r elfen ffisegol ganolbwyntio ar y cyfleoedd sy'n seiliedig ar y Cyfleoedd Lle y mae'r Cynllun hwn yn eu hamlinellu sy'n cyffwrdd â chod dylunio, paled lliwiau, arwyddion a manylion eraill sy'n dod â hunaniaeth a chyfres o werthoedd at ei gilydd. Mae hefyd yn ymwneud â chreu lle i ddenu gweithgareddau ac ychwanegu at bersonoliaeth canol y dref. Gall ffyrdd eraill o gyfleu hunaniaeth ddigwydd trwy gelf gymunedol, prosiectau cymunedol llai sy'n dehongli diwylliant lleol a threftadaeth lle penodol. Gall hyn fod yn waith celf ffisegol fel murluniau neu osodiadau neu ddigwyddiadau dros dro mewn adeiladau.

Gallai rhai syniadau ar gyfer Bwcle gynnwys:

- Bwcle – brwydr y bandiau pres
- Rhodfa Enwogion Bwcle – bandiau sydd wedi chwarae yn y Tivoli
- Celf gymunedol Bwcle – prosiect gwneud brics – rhaglen furluniau i'r gymuned gyfan neu neu ganol y dref.

Gall elfennau hyrwyddo hunaniaeth fod ar ffurf ymgyrch canol tref a allai fentora a hyfforddi busnesau bach i greu'r profiadau cywir ar lawr ffisegol y siop hyd at gydgysylltu digidol. Mae ymgyrch gymunedol ehangach ar brynu/siopa/bwyta/cyfarfod "lleol" hefyd yn rhan o hunaniaeth ar y cyd sy'n adeiladu cydberthynas a chynnig cydlynol. Fel yr amlinellwyd eisoes, mae prosiectau cyfamser a threialu gweithgarwch newydd mewn mannau gwag neu a danddefnyddir hefyd yn llwyfan da ar gyfer profi cynhyrchion a dibenion newydd er mwyn deall os ydynt yn diwallu anghenion lleol ac os ydynt yn rhan o'u hunaniaeth.




- **Cod dylunio i ganol y dref sy'n cefnogi paled y dref, dyluniad blaen siopau, arwyddion, etc;**
- **Mentrau brandio dan arweiniad y gymuned – prosiectau celf cymunedol, murluniau, llwybrau, ymgyrch ffotograffiaeth lleol a mentrau eraill;**
- **Datblygu rhaglenni digwyddiadau lleol – ar raddfa fawr a lleol;**
- **Cymorth i fusnesau canol y dref sy'n hyrwyddo neges "leol" a theimlad o le/cymuned trwy ddull cyfunol sydd ar-y-stryd ac yn ddigidol.**

## CYFLEOEDD POBL – GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Er mwyn sicrhau bod gweithgarwch a buddsoddiadau seiliedig ar le yn cael effaith a'u bod yn gynaliadwy, strategol a lleol, mae angen i bartneriaethau fod yn rhai agos sy'n sicrhau bod pob gwybodaeth, profiad, sgiliau ac ymdrech yn anelu at yr un cyfeiriad.

- Partneriaeth tref - gwybodaeth, hyrwyddo, rhannu.

Mae hefyd angen i Bwcle dreialu rhai syniadau sy'n ymwneud â'r gymuned ac yn bywiogi canol y dref.

- **Datblygu rhaglen weithgareddau stryd – cerddoriaeth, celfyddydau, marchnadoedd – treialu 'llwyfan band' stryd;**
- **Datblygu cynllun celf cymunedol sy'n cefnogi, arwyddion, dweud stori Bwcle, murluniau ar y pyrth;**
- **Gweithio gyda landlord y Ganolfan Siopa ar ddigwyddiadau dros dro – sinema, clybiau swper, theatr ….;**
- **Cadwch Bwcle yn Daclus/Wyrdd – archwilio ffyrdd o dacluso/gwyrddu/plannu mewn pyrth, llecynnau a danddefnyddir, mannau cyhoeddus.**





## GWELEDIGAETH O LWYDDIANT

Mae'r angen i ddeall sut i ddiffinio llwyddiant yn bwysig pan ydych chi'n galluogi a gweithredu newid mewn lle fel Bwcle. Mae'n helpu deall y canlyniadau'r ydych yn eu cyrchu a'r broses sydd arnoch ei hangen er mwyn eu cyrraedd. Mae gweledigaeth o lwyddiant yn dda hefyd ar gyfer symbylu ac uno o gwmpas nod cyffredin, gan adeiladu ymddiriedaeth a pherthynas. Mae'n bwysig hefyd gallu dangos i'r sefydliadau hynny'r ydych yn ariannu prosiectau eich bod yn cyrraedd eich allbynnau a chanlyniadau a dangos enillion ar fuddsoddiad. Dengys y diagram enghreifftiau o allbynnau a chanlyniadau yn ôl thema, sy'n ffurfio rhan o fframwaith gwerthuso y byddai partneriaeth ar sail lle yn ei ddefnyddio i fonitro cynnydd.

### Safleoedd y Pyrth

**ALLBYNNAU**

- Cyfanswm arwynebedd tir priffyrdd a gafodd ei wella
- Cyfanswm arwynebedd arwyneb seilwaith gwyrdd a gafodd ei ychwanegu neu ei wella o ganlyniad i gymorth
- Nifer o symudiadau cerdded / beicio
- Metrau llinellol o lwybrau teithio llesol a gafodd eu creu neu eu gwella
- Cyfrif ansawdd aer
- Ymweliadau gan gerddwyr o lwybrau troed preswyl cyfagos

**CANLYNIADAU**

- Cynyddu symudedd ar draws y gymuned gyfan
- Gwella profiad ymwelwyr a defnyddwyr
- Mwy o ymdeimlad o le a chyrchfan leol
- Mwy o gyfleoedd i archwilio ac ymwneud â chanol y dref
- Gwell ymdeimlad o groeso a chydlyniant ffisegol
- Twf economaidd a chynaliadwyedd lleol

### Y Porth Canolog

**ALLBYNNAU**

- Cyfanswm arwynebedd tir priffyrdd a gafodd ei wella
- Cyfradd eiddo gwag
- Amrywiaeth dibenion a gweithgareddau canol y dref
- Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
- Gwariant defnyddwyr canol y dref
- Bodlonrwydd â chanol y dref
- Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr canol y dref

**CANLYNIADAU**

- Gwella profiad ymwelwyr a defnyddwyr
- Cynyddu symudedd ar draws y gymuned gyfan
- Mwy o ymdeimlad o le a chyrchfan leol
- Mwy o gyfleoedd i archwilio ac ymwneud â chanol y dref
- Gwell ymdeimlad o groeso a chydlyniant ffisegol
- Twf economaidd a chynaliadwyedd lleol

## Ardal Ganolog

### ALLBYNNAU

- Cyfanswm arwynebedd o ardaloledd i gerddwyr yn unig yr ychwanegwyd gwerth ato
- Cyfanswm arwynebedd o seilwaith gwyrdd a ychwanegwyd neu a wellhawyd o ganlyniad i gymorth
- Creu lle ar gyfer perfformiadau awyr agored
- Nifer o ddigwyddiadau, gwyliau, marchnadoedd a gwyliau yn y dref
- Cyfradd eiddo gwag
- Amrywiaeth dibenion a gweithgareddau canol y dref
- Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
- Gwariant defnyddwyr canol y dref
- Bodlonrwydd â chanol y dref
- Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr o ganol y dref

### CANLYNIADAU

- Mwy o weithgarwch stryd
- Mwy o gyfleoedd i archwilio a threulio amser yng nghanol y dref
- Mwy o ymdeimlad o le a chyrchfan leol
- Mwy o amrywiaeth o weithgareddau celfyddydol a diwylliannol ac ymwneud â'r gymuned leol
- Gwell llesiant economaidd a chymdeithasol lleol
- Mwy o ymdeimlad o groeso a chydlyniant cymunedol
- Adeiladu hyder, teyrngarwch a thwf cynaliadwy

## Ailddychmygu hen siop ddisgownt fel Adeilad Tirnod Allweddol

### ALLBYNNAU

- Gwella un adeilad allweddol a'i addasu i ddiben arall
- Metrau sgwâr o arwynebedd llawr a gafodd eu gwella
- Nifer o fathau o ddefnydd cymunedol a gafodd eu creu / cefnogi
- Nifer o ddefnyddwyr/ymwelwyr
- Cyfradd eiddo gwg
- Amrywaeth dibenion a gweithgareddau canol y dref
- Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
- Gwariant defnyddwyr canol y dref
- Bodlonrwydd â chanol y dref
- Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr o ganol y dref

### CANLYNIADAU

- Mwy o amrywiaeth gweithgarwch yng nghanol y dref
- Mwy o gefnogaeth, gweithgarwch a gwariant gan y gymuned
- Cydweithio rhwng grwpiau cymunedol a'i gilydd a chynaliadwyedd
- Mwy o ymdeimlad o le a chyrchfan leol
- Gwell llesiant economaidd a chymdeithasol lleol
- ymdeimlad o groeso a chydlyniant cymunedol

## Ailadeiladu Cymeriad a Hunaniaeth Bwcle

### ALLBYNNAU

- Amrywiaeth dibenion a gweithgareddau canol y dref
- Cyfradd eiddo gwag
- Twf busnesau lleol
- Niferoedd cerddwyr
- Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
- Gwariant defnyddwyr canol y dref
- Bodlonrwydd â chanol y dref
- Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr o ganol y dref

### CANLYNIADAU

- Mwy o deimlad o le a chyrchfan leol
- Gwell llesiant economaidd a chymdeithasol
- Mwy o gyfleoedd am fentergarwch ac entrepreneuriaeth leol
- Gwella teimlad o ddiogelwch cymunedol
- Gwella teimlad o groeso a chydlyniant cymunedol

## Gwyrddu Bwcle

### ALLBYNNAU

- Nifer o brosiectau / mentrau plannu cymunedol
- Cyfanswm arwynebedd o seilwaith gwyrdd a ychwanegir neu a gaiff ei wella o ganlyniad i gymorth
- Nifer o wirfoddolwyr
- Nifer o weithgareddau rhagnodi cymdeithasol
- Cyfrifiad ansawdd aer
- Gwella cyfrif bioamrywiaeth

### CANLYNIADAU

- Gwella llesiant cymunedol trwy bresenoldeb gwyrddu mwy ar ganol y dref
- Seilwaith gwyrdd yn galluogi treulio amser a mwy o fwynhad o ganol y dref
- Cynyddu gwytnwch newid hinsawdd
- Profiad deniadol i bawb

## Rôl Cynhyrchwyr Gweithgarwch

### ALLBYNNAU

- Nifer o adeiladau canol y dref a ailddefnyddiwyd
- Cyfanswm arwynebedd canol y dref a ailddefnyddiwyd
- Nifer o fathau o ddefnydd cymunedol a gafodd eu creu / cefnogi
- Nifer o ddefnyddwyr / ymwelwyr
- Nifer o grwpiau cymunedol a gafodd eu cefnogi / cynnal
- Cyfradd eiddo gwag
- Amrywiaeth mathau o ddefnydd a gweithgareddau canol y dref
- Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
- Gwariant defnyddwyr canol y dref
- Bodlonrwydd â chanol y dref
- Newid yng nganfyddiad defnyddwyr o ganol y dref

### CANLYNIADAU

- Mwy o amrywiaeth gweithgarwch yng nghanol y dref
- Mwy o gefnogaeth, gweithgarwch a gwariant gan y gymuned
- Gweithio rhwng grwpiau cymunedol a'i gilydd
- Mwy o deimlad o le a chyrchfan leol
- Gwell llesiant economaidd a chymdeithasol
- Gwell teimlad o groeso a chydlyniant cymunedol

## Cymunedau Cysylltiedig

### ALLBYNNAU

- Metrau llinellol o lwybrau teitho llesol a gaiff eu creu neu eu gwella
- Mwy yn cerdded a beicio
- Nifer o bobl leol yn cymryd rhan mewn gweithgarwch awyr agored gan ddefnyddio seilwaith gwyrdd
- Nifer o symudiadau cerdded/beicio
- Nifer o grwpiau cymunedol yn cymryd rhan
- Nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau llesiant
- Nifer o bobl yn profi mwy o fanteision iechyd a llesiant
- Nifer o fusnesau canol y dref sy'n gysylltiedig â gweithgareddau a phrofiadau llesiant

### CANLYNIADAU

- Lleihad mewn anghydraddoldeb iechyd a llesiant
- Mwy o gydlyniant cymunedol
- Agor llwybrau at ddysgu, cyflogaeth a gweithgareddau eraill

## Atebion Lleol

### ALLBYNNAU

- Nifer o fentrau ac ymgyrchoedd newydd dan arweiniad y gymuned wedi'u datblygu
- Nifer o dreialon a phrosiectau arddangos
- Nifer o gynlluniau mentergarwch ffisegol
- Nife ro brosiectau partneriaeth
- Nifer o weithgareddau marchnata a hyrwyddo
- Nifer o ddigwyddiadau, gwyliau a gweithgareddau
- Nifer o fusnesau canol tref a gefnogwyd
- Nifer o fusnesau micro i fach a chanolig newydd a gefnogwyd
- Nifer o swyddi (cyfwerth â llawn amser /rhan amser) a gefnogwyd / a grewyd
- Nifer o gynhyrchion newydd a ddatblygwyd
- Cyfradd presenoldeb cerddwyr
- Cyfradd eiddo gwag
- Amrywiaeth dibenion a gweithgareddau canol y dref
- Amser a dreulir gan ddefnyddwyr canol y dref
- Gwariant defnyddwyr canol y dref
- Bodlonrwydd â chanol y dref
- Newid yng nghanfyddiad defnyddwyr o ganol y dref

### CANLYNIADAU

- Cynyddu capasiti o fewn y gymuned leol
- Mwy o weithgarwch a rhwydweithio rhwng grŵpiau a'i gilydd
- Mwy o greadigrwydd ac arloesedd
- Gwell gweithio mewn partneriaeth
- Mae asedau a lleoliadau lleol yn gynaliadwy ac yn tyfu
- Mae sefydliadau'n fwy hyfyw a chynaliadwy
- Brand Bwcle yn tyfu

## Adeiladu Brand Bwcle

### ALLBYNNAU

- Creu brand, stori, pecyn cymorth ac ymgyrch ddealladwy ar gyfer Bwcle
- Nifer o weithgareddau marchnata a hyrwyddo
- Nifer o adeiladau canol y dref sydd wedi coleddu lliwiau a delweddaeth brand Bwcle
- Nifer o ddigwyddiadau, ymgyrchoedd, gwyliau a gweithgareddau sy'n cefnogi neges brand Bwcle
- Nifer o drigolion a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â phrosiectau cymunedol
- Nifer o fusnesau canol y dref sy'n cael eu mentora
- Nifer o brosiectau cyfamserol

### CANLYNIADAU

- Mwy o ymwybyddiaeth o frand Bwcle ac o ganol y dref
- Mwy o ddefnyddwyr a gweithgarwch ymwelwyr yng nghanol y dref
- Mwy o ymdeimlad o groeso, cydlyniant cymunedol a theyrngarwch
- Mwy o ymdeimlad o le a chyrchfan lleol
- Gwell llesiant economaidd a chymdeithasol lleol

## Gweithio mewn Partneriaeth

**ALLBYNNAU**

- Nifer o grwpiau a sefydliadau cymunedol a gefnogwyd
- Nifer o sesiynau rhwydweithio
- Nifer o brosiectau / mentrau / cynlluniau a ddatblygwyd ac a gyflawnwyd

**CANLYNIADAU**

- Mwy o gydweithio rhwng grwpiau a sefydliadau cymunedol a'i gilydd
- Trosoli cyllid ac adnoddau i mewn
- Gweithio a rhwydweithio cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar lesiant



# FFYRDD O WEITHIO

## Datblygu a Gweithredu

Mae gweithredu'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn dibynnu ar ddull partneriaeth lle mae sefydliadau strategol a lleol yn dod â'u hamcanion unigol eu hunain i ffurfio set o gynigion ar y cyd a fydd yn elwa ar ei gilydd, ac yn bwysicach, o fudd i ganol tref Bwcle a'r cymdogaethau o'i gwmpas. Mae'r cyfleoedd sydd o fewn y weledigaeth a'r strategaeth hon yn gofyn am gyfuniadau gwahanol o bartneriaid, adnoddau ac amserlen ar gyfer eu datblygu a'u gweithredu.

Mae ffactorau allweddol gweithredu llwyddiannus wrth Greu Lleoedd yn cynnwys:

- Deall cryfderau unigol gan gynnwys gwybodaeth, arbenigedd ac asedau ffisegol a sut y gellir cydgyfeirio'r rhain.
- Cyfathrebu a chydgysylltu ar lefel strategol ac wrth weithredu.
- Gweithio o fewn cod dylunio cyffredin sy'n sicrhau cysondeb mewn amgylchedd adeiledig a pharth cyhoeddus ac sy'n cyrraedd targedau'n ymwneud â newid hinsawdd a chynaliadwyedd.
- Cysylltu anghenion trigolion lleol ag amrywiol lwybrau at ddysgu, iechyd a llesiant, gweithgarwch corfforol a chyflogaeth.
- Cyflwyno hunaniaeth unedig i le fel Bwcle, gan barchu hunaniaeth sefydliadau unigol.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd eisoes wedi cychwyn dull partneriaeth o weithio ers iddo adnabod yr angen am dull cydweithredol o Greu Lleoedd mewn gwahanol ganol trefi yn Sir y Fflint ym mis Mehefin 2022.


Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Lleoedd, sy'n rhan o strwythur llywodraethu'r Grŵp Adferiad Economaidd. Diben y grŵp yw meddwl, cynllunio a gweithredu blaenoriaethau mewn modd cydlynus o fewn canol tref o ran yr amgylchedd adeiledig gan gynnwys ailddatblygu neu wella adeiladau, gwelliannau i'r parth cyhoeddus, seilwaith gwyrdd a mentrau teithio llesol. Mae gan y grŵp rôl hefyd wrth drafod a chytuno ar flaenoriaethau ariannu, gan gynnwys gwneud penderfyniadau wrth ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael i'r Cyngor i weithredu Creu Lleoedd.

Cafodd adolygiad o'r Grŵp Lleoedd ei gwblhau, a chanfuwyd cyfleoedd i wella'i effeithiolrwydd cyffredinol gan gynnwys: i) Gwella cydweithio a chydlynu Creu Lleoedd ar draws y cyngor ii) datblygu rhaglen waith flynyddol sy'n edrych yn ôl ar weithgarwch creu lleoedd sy'n cael ei arwain gan wahanol wasanaethau / swyddogion ar draws y cyngor a gwella'r ffordd o fonitro ac adrodd gweithgarwch Creu Lleoedd a'r graddau mae wedi gweithredu'n unol â Chynlluniau Creu Lleoedd a gymeradwywyd.

Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu grŵp gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n ymestyn dros amrywiaeth o gyrff a sefydliadau allanol yn bennaf sydd ag elfen o ganolbwyntio ar bobl yn eu darpariaeth. Caiff rhai gwasanaethau mewnol Cyngor Sir y Fflint eu cynrychioli hefyd. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, ymysg sefydliadau eraill.

Wrth dyfu'r dull partneriaeth hwn, mae angen i'r Cynllun Creu Lleoedd ystyried grwpiau cymunedol lleol ar lawr gwlad yn ogystal â'r sector busnes lleol, fel bod cynghrair deg yn cael ei ffurfio rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol / gwirfoddol. Bydd angen trafod pellach rhwng sefsydliadau ynghylch ffurf y bartneriaeth hon, fel bod ganddi ddiben, nodau ac amcanion, y raddfa iawn o weithredu, gwerthoedd a ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt. Byddai angen cynllunio partneriaeth o'r fath fel ei bod yn:

- Cefnogi, galluogi a chydgyflawni gweithredu ar sail lle ym Mwcle
- Darparu lle cyffredin i sefydliadau rannu syniadau ac atebion
- Hyrwyddo Bwcle o fewn a'r tu allan i'r gymuned leol, a
- Gwneud y lle yn well ar hyn o bryd ac i genedlaethau'r dyfodol.




creu lleoedd
SIRYFFLINT
chris jones
Roberts Limbrick